



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democraidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 30AIN MEHEFIN, 2021** am **5.00 PM.**

AMSER	EITEM	TUDALEN(N AU)
5 Munudau	ITEM 1. DATGANIADAU O FUDDIANT Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad. <ol style="list-style-type: none">1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.	
	ITEM 2. TEYRNGEDAU I'R CYNGHORYDD CLAYTON WILLIS Rhoi cyfle i Aelodau dalu teyrnged i'r diweddar Gyngorydd Clayton Willis.	
10 Munudau	ITEM 3. CYHOEDDIADAU	
5 Munudau	ITEM 4. COFNODION Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn rhai cywir:	5 - 46

	<ol style="list-style-type: none"> 10 Mawrth 2021 26 Mai 2021 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor) 26 Mai 2021 (Cyfarfod arbennig o'r Cyngor) 	
LLYWODRAETHU AGORED:		
10 Munudau	ITEM 5. DATGANIADAU Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:	
20 Munudau	ITEM 6. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor. (Nodwch: Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)	47 - 52
ADRODDIADAU'R SWYDDOGION		
10 Munudau	ITEM 7. RHAGLEN WAITH Y CYNGOR: BLWYDDYN Y CYNGOR 2021–2022 Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democratiaidd a Chyfathrebu mewn perthynas â drafft o raglen waith y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.	53 - 68
30 Munudau	ITEM 8. AROLWG O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF GAN GOMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GWEINIDOGION CYMRU Rhoi cyfle i Aelodau drafod penderfyniad Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas ag argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, fel sydd wedi'u nodi yn y datganiad ysgrifenedig a gafodd ei gyflwyno yn y Senedd ar 24 Mehefin 2021. https://cfdl.llyw.cymru/adolygiadau/03-20/argymhellion-terfynol-ar-gyfer-rhondda-cynon-taf?_ga=2.67082222.1798018046.1624542137-679815226.1615907094	69 - 178
15 Munudau	ITEM 9. GWELLIANNAU O RAN MYNEDIAD AC YMGYSYLLTU MEWN PERTHYNAS Â DEMOCRATIAETH Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democratiaidd a Chyfathrebu.	179 - 192

<p>10 Munudau</p>	<p>ITEM 10. PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL BRYS</p> <p>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu.</p>	<p>193 - 198</p>
<p>45 Munudau</p>	<p>ITEM 11. RHYBUDDION O GYNIGION</p> <p>A. Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell, L Walker, W Owen, K Jones, W Jones a P Howe:</p> <p>"Mae'r Cyngor yma'n cydnabod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod achosion parhaus o ollwng sbwriel yn cael effaith niweidiol ar gymunedau yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gwneud yr ardal yn anneniadol i ymwelwyr ac nid yw'n ennyn unrhyw falchder ymhlith y bobl sy'n byw yn yr ardal. • yr angen i addysgu pobl er mwyn newid eu harferion os ydyn ni am lwyddo i lanhau ein hardaloedd lleol ac er mwyn gwneud hynny mae angen slogan ymgyrchu arnom ni i ddal sylw pobl. <p>Mae'r Cyngor yma'n nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llwyddiant ymgyrchoedd fel yr ymgyrch 'Check Your Balls' i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ganser y ceilliau. • ymgyrchoedd ardaloedd eraill, e.e. Abertawe https://www.abertawe.gov.uk/article/59212/Peidiwch-a-thaflu-sbwriel-dros-benwythnos-gwyl-y-banc • y bu nifer o ymgyrchoedd yn cynnwys 'Don't be a Tosser' ledled y DU i annog pobl i beidio â thaflu sbwriel ers i'r Cyngor yma glywed y syniad a'i wrthod <u>yn 2009</u>. • bod pethau wedi newid cryn dipyn yn ystod y 12 mlynedd ddiwethaf, ac mae geiriau a fu unwaith yn annerbyniol bellach yn cael eu hystyried yn wahanol. <p>Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gofyn i'r Cabinet a swyddogion perthnasol roi ystyriaeth lawn i gyflwyno ymgyrch 'Don't Be a Tosser' er mwyn annog pobl i beidio â thaflu sbwriel. <p style="text-align: center;">*****</p> <p>B. Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol: G. Cople, R. Williams, L. M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Edwards, J. Elliott, S. Evans, G. Jones, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby,</p>	

R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams a R. Yeo

Ar Ebrill 29 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ei adroddiad ar Gynllun Pensiwn y Glowyr. Roedd yr adroddiad yn archwilio anghyfiawnder hanesyddol glowyr yn cael eu hamddifadu o'u hawliau pensiwn haeddiannol.

Fel y bydd yr Aelodau'n cofio, cefnogodd y Cyngor yma Rybudd o Gynnig yn cefnogi Ymgyrch Cyfiawnder a Chwarae Teg Cymdeithas Bensiwn y Glowyr y DU yn 2017, gan alw i aildrafod y trefniant i rannu unrhyw arian dros ben 50:50 rhwng y cyn-lowyr a Llywodraeth y DU. Er gwaethaf galw am Ddadl Seneddol, cafodd y mater ei wneud yn destun ymchwiliad Pwyllgor Dethol.

Nawr, mae'r adroddiad BEIS a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi nodi y dylid adolygu'r trefniant yma i rannu'r arian dros ben a sefydlu system decach yn ei le sy'n gweld y rhai sy'n derbyn y pensiwn yn cael "canran fwy realistig o unrhyw arian dros ben."

Mae'r adroddiad yn cydnabod nifer o broblemau arwyddocaol gyda chanlyniad trafodaethau 1994, gan gynnwys methiant y Llywodraeth i gyflawni diwydrwydd dyladwy ac absenoldeb cyngor actiwaraid. Mae hyn wedi arwain at Lywodraeth San Steffan yn derbyn dros £4 biliwn o'r trefniant, a'r disgwyl yw y bydd yn derbyn £1.9 biliwn pellach. Mae'r elw sylweddol yma wedi'i wneud heb i Lywodraeth San Steffan dalu ceiniog i'r cynllun.

Dylid chwilio am drefniant newydd ar frys, ac mae'r Cyngor yma'n cefnogi'r model argymelledig sy'n cael ei gynnig yn adroddiad BEIS. Mae'r model yn cynnwys y manylion canlynol:

- Fydd ond gan Lywodraeth San Steffan hawl i ran o'r arian dros ben os bydd diffyg arian yn y Cynllun ac os bydd raid i'r Llywodraeth ei ariannu. Byddai hyn wedyn yn rhoi hawl i 50% o'r arian dros ben hyd at gyfanswm gwerth yr arian sydd wedi'i ddarparu i bontio unrhyw ddiffyg yn y dyfodol.
- Dylai Llywodraeth San Steffan hefyd ildio'i hawl i Gronfa Wrth Gefn y Buddsoddiad a throsglwyddo'r gronfa £1.2 biliwn i gyn-lowyr er mwyn cynnig cynnydd ariannol iddyn nhw yn syth.

Felly mae'r Cyngor yma'n penderfynu y dylai Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at y Prif Weinidog, Canghellor y Trysorlys a'r Gweinidog Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ddangos cefnogaeth y Cyngor i argymhellion adroddiad BEIS ac i annog Llywodraeth San Steffan i newid y trefniant annheg a chyflwyno setliad teg sy'n seiliedig ar gyngor actiwaraid ac sy'n canolbwyntio ar fudd gorau derbynwyr y pensiwn.

ITEM 12. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol**

At: Pob Aelod o'r Cyngor

tudalen wag

PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021 am 4.00pm

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd S Belzak
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd H Boggis
Y Cyngorydd J Bonetto	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd A Calvert
Y Cyngorydd G Caple	Y Cyngorydd A Chapman
Y Cyngorydd A Cox	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd J Cullwick	Y Cyngorydd A Davies-Jones
Y Cyngorydd G Davies	Y Cyngorydd J Davies
Y Cyngorydd L De Vet	Y Cyngorydd J Edwards
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd S Evans
Y Cyngorydd M Forey	Y Cyngorydd A Fox
Y Cyngorydd H Fychan	Y Cyngorydd E George
Y Cyngorydd D Grehan	Y Cyngorydd E Griffiths
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd G Holmes	Y Cyngorydd L Hooper
Y Cyngorydd G Hopkins	Y Cyngorydd P Howe
Y Cyngorydd G Hughes	Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd K Jones	Y Cyngorydd L Jones
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd A Morgan	Y Cyngorydd K Morgan
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd M Powell	Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd S. Rees-Owen	Y Cyngorydd S Rees
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd E Stephens
Y Cyngorydd G Thomas	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd R Turner	Y Cyngorydd L Walker
Y Cyngorydd M Weaver	Y Cyngorydd M Webber
Y Cyngorydd E Webster	Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd J Williams	Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd R Yeo	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

108 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Sera Evans, M Fidler Jones, S Pickering, M Tegg a C Willis.

109 Croeso a Chyflwyniadau

Cafodd chyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp ar hyn o bryd- Dirprwy Arweinydd y Grŵp Llafur)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp Ar hyn o bryd – Dirprwy Arweinydd Grŵp y Blaid Geidwadol)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak (Aelod Annibynnol)

110 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis y buddiant personol a ganlyn yn eitem 11 ar yr Agenda - "Cyfeirir at YGG Abercynon yn yr adroddiad, rwy'n Gadeirydd ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol ac mae perthynas agos yn gweithio yn yr Ysgol"
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak y buddiant personol a ganlyn yn Eitem 11 ar yr Agenda - "Mae fy merch yn gweithio yn un o'r ysgolion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad"
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman fod ganddi "Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2021-2022 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid", mewn perthynas ag eitemau 9 i 14 ar yr agenda.
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell fod ganddo'r "Hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater sy'n ymwneud â'r adran Gwasanaethau i Blant (o fewn Cyfadran Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant), ac eithrio unrhyw faterion penodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei wraig, sy'n cael ei chyflogi gan y Cyngor ac yn Weithiwr Cyswllt o fewn Gwasanaethau i Blant."
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan y buddiant personol a rhagfarnol a ganlyn, ac ni chymerodd ran yn y mater pan bleidleisiwyd ar yr eitem - Eitem 15: Rhybudd o Gynnig - "Mae fy mrawd

yn weithiwr British Gas sydd ar streic”

- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries y buddiant personol canlynol - “Mae fy nhad yn gweithio i'r Cyngor”

Mewn perthynas ag Eitem 14 - Datganiad Polisi Cyflog y Cyngor:

- Cyhoeddodd Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol ar ran holl Swyddogion y Cyngor sy'n bresennol - mewn perthynas ag Eitem 14 ar yr Agenda - “Nid yw datganiad Polisi Cyflog y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Yn syml mae'n nodi dull y Cyngor o fynd ati polisïau tâl a gymeradwywyd yn flaenorol, felly bydd Swyddogion yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ac yn ystod y drafodaeth ddilynol. ”

111 Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Derbyniodd y Cyngor Gyfarwyddwr Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (RECP) a roddodd gyflwyniad Powerpoint a oedd yn mynd i'r afael â'r meysydd a ganlyn: -

- Crynodeb Gweithredol - y pedair blynedd diwethaf a'r hyn sydd i ddod
- CCR - Cysylltiedig, Cystadleuol, Cydnerth - Mae gyda ni ymdeimlad cryf o bwrpas sylfaenol
- Sylfeini Cadarn - Data, Proses, Fframweithiau a Chydweithio
- Strwythurau Llywodraethu a Phartneriaeth
- Llywodraethu a Gwaith Ymgysylltu â Phartneriaid Effeithiol - Rydyn ni wedi trawsnewid arferion gwaith a chyflymder gwneud penderfyniadau
- Cronfa Buddsoddi ac Ymyrraeth
- Prosiectau Cymeradwy hyd yn hyn
- Llinell amser ehangach o ran buddsoddi
- Effaith Ehangach y Buddsoddiad - Prosiect Ffowndri CS a Chlwstwr
- Trosolwg o'r Effaith - Beth mae hyn i gyd yn ei olygu i RhCT?
- Y dyfodol i RhCT...?
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Newydd
- Buddsoddiad Cyhoeddus Rhanbarthol
- Cabinet Rhanbarthol - (Cydbwyllgor Corfforaethol)
- Y Pum Mlynedd Nesaf a Gwaith Pellach

- Pam Gweithredu fel Rhanbarth? Gyda'n gilydd, mae pawb yn gyflawni rhagor (Together Everyone Achieves More)

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (REGP) am eu trosolwg cynhwysfawr.

Amlinellodd yr Arweinydd rai o brosiectau allweddol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd megis y Gronfa Buddsoddi Tai a'r Cynllun Graddedigion, y cytunwyd arno ac a ehangwyd gan y cyllid gan y 10 Awdurdod Lleol, Zip World, Hwb Trafnidiaeth y Porth (gyda buddsoddiad o dros £6 miliwn) ac amlinellodd y buddion o arian cyfatebol gan LIC ar nifer o brosiectau. Cyfeiriodd at fuddsoddi mwy na £200 miliwn o gyllid metro yn RhCT, fel buddiolwr allweddol cyllid craidd Metro trwy welliannau i'r gorsafoedd a'r llinellau trydan i Gaerdydd. Strategaeth gwefru cerbydau trydan ledled y rhanbarth gydag arian pellach gan LIC. Soniodd yr Arweinydd am safleoedd strategol fel yr A465 a datblygiad posibl safleoedd diwydiannol segur sydd i gyd wedi hyrwyddo'r berthynas waith agosach rhwng y 10 Awdurdod Lleol, a chyfeiriodd at y manteision y bydd y Fargen Ddinesig yn eu cynnig i'r Awdurdod Lleol yma.

Y Cynghorydd P Jarman (Grŵp Plaid Cymru)

- Yr amcan allweddol yw cynyddu twf GBA o 5% a chreu 25,000 o swyddi ychwanegol, pryd fydd hyn yn debygol o gael ei gyflawni?
- Mae Flexicare yn gyflogwr llwyddiannus a gwerthfawr yn y gymuned ac mae wedi bod o fudd ers blyneddoddedd. Byddai o fudd pellach oe byddai modd ehangu ei waith yn y ward
- Y Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai - A yw'r safle phurnacite ymhlith y safleoedd a nodwyd?
- Er mwyn sicrhau'r Gronfa Ranbarthol newydd, mae sôn bod rhaid diweddarau'r seilwaith cenedlaethol, a yw hynny'n cyfeirio at Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru?
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol - Roedd y Cynghorydd Jarman yn gobeithio y byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i egluro beth fydd hynny'n ei olygu

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod targedau'r Fargen y soniwyd amdany'n nhw yn ymestyn dros gyfnod o 20 mlynedd o fis Mawrth 2021. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cynnydd bach mewn cynhyrchiant, ond mae'n waith hirdirydd. O ran Flexicare, dywedodd y Cyfarwyddwr fod grŵp o gwmnïau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar ddyfeisiau meddygol a chwmnïau diagnosteg sy'n canolbwyntio ar RhCT yn cael eu symud ymlaen. Nid oedd y Cyfarwyddwr yn gallu rhoi sylwadau ar enwau'r safleoedd oherwydd sensitifrwydd masnachol ond byddai'n darparu diweddariad pan oedd hynny'n bosibl. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod llawer o fuddsoddiad yn dod gan Lywodraeth y DU, er bod angen manteisio ar unrhyw gyllid sydd ar gael i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd p'un ai gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. O ran Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, sy'n fater lleol ac yn benderfyniad lleol, nododd y Cyfarwyddwr ei bod eisoes wedi rhoi cyngor am rai o'r buddion pe byddent yn cael eu mabwysiadu.

Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell, (Grŵp Annibynnol RhCT)

Cododd y Cynghorydd Powell bryder bod rhai o'r ardaloedd lleol yn RhCT a'u priod faterion lleol wedi cael eu hanwybyddu megis ardaloedd Ynys-y-bwl a Glyn-coch, a fyddai wedi bod yn addas ar gyfer atalfeydd rheilffyrdd, a gofynnoff a fydd rhai ardaloedd eraill o fewn RhCT yn cael eu hanghofio gan y Brifddinas.?

Cerbydau Trydan - Cododd y Cynghorydd Powell ymholiad ynghylch ble fyddai'r pwyntiau gwefru, yn enwedig gyda thai teras sy'n amlwg mewn sawl ardal yn RhCT, a chan nad yw llawer o drigolion yn gallu parcio'n uniongyrchol y tu allan i'w cartrefi eu hunain.

Eiddo Gwag Tymor Hir - Mae gan RCT dros 3,000 o eiddo gwag tymor hir gyda dros 25,000 ledled Cymru gyfan. A fyddai'n well buddsoddi yn yr eiddo gwag, fel bod modd eu diweddarau i'r safonau cyfredol mewn ffordd fwy effeithlon a llai costus?

Y Cynghorydd J James (Grŵp Ceidwadol)

Dywedodd y Cynghorydd James nad yw'r GVA wedi codi ers nifer o flynyddoedd felly gofynnodd a yw 5% yn nod realistig?

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak (Aelod Annibynnol)

Gofynnodd y Cynghorydd Belzak pa mor realistig yw siarad am dwf economaidd gyda dirywiad cyfraddau twf yn fyd-eang ers 2008, a achoswyd oherwydd dirywiad mewn adnoddau ynni?

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd at Gynllun Eiddo Gwag RhCT sydd wedi'i ehangu ar draws ardaloedd Tasglu'r Cymoedd gyda rhai cymhellion, pwysleisiodd bwysigrwydd datblygu'r diwydiant o amgylch Zipworld fel y diwydiannau lletygarwch, gwestai ac arlwyo i wneud yn sicr ei fod yn cael effaith. Rhoddodd wybod am bwysigrwydd y Prosiectau Meistr, cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau a Rennir wrth fynd i'r afael â'r prinder sgiliau a materion cadwyn gyflenwi a'r angen i ymateb yn gyflym i'r newidiadau yn y farchnad gyflogadwyedd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad ydy'r cynllun wedi ymuno â Phorth y Gorllewin ond eu bod wedi ymgysylltu fel arsylwyr, serch hynny nid oes unrhyw fuddsoddiad wedi'i ymrwmo. O ran twf GVA, mae gan y rhanbarth un o'r cyfraddau cynhyrchiant twf isaf yn y DU, ac mae angen ei gynyddu, ond pwysleisiodd bwysigrwydd gwneud y peth iawn er budd y rhanbarth cyfan.

Codwyd nifer o ymholiadau eraill ac ymatebwyd iddynt - megis ymestyn y rheilffordd i Dreherbert, y ddadl ynghylch cerbydau trydan dros gerbydau hydrogen, rhannu blaenoriaethau - pa ganran a fuddsoddiwyd yng Nghaerdydd o'i chymharu â RhCT a'r Gronfa Ddiweddarau (Levelling Up).

112 Cyhoeddiadau

1. Talodd y Llywydd deyrnged i gyn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Mike Diamond a oedd wedi ymddiswyddo yn ddiweddar fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol ar gyfer RhCT. Fe'i disgrifiodd fel gŵr bonheddig, gwir weithiwr proffesiynol a hyrwyddwr teilwng yn ei gymuned. Nododd y Llywydd ddiolchgarwch y cyn Gynghorydd Diamond i'r holl Aelodau a staff am yr help a gafodd tra roedd yn y swydd.

2. Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman yn dymuno adleisio'r deyrnged i gyn Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol Mike Diamond.

Dyweddodd y Cyngorydd Jarman ei bod yn braf bod y Cyngor eisoes wedi gwneud cyhoeddiad bod Alfie Ford, 12 oed, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Aberpennar, wedi ennill £1,000 i elusen o'i ddewis, Ysbyty Plant Noah's Ark. Roedd ei brosiect 'First Give' yn rhoi bagiau bach o hapusrwydd i weithwyr hanfodol ar y rheng flaen, i ddiolch am bopeth maen nhw wedi'i wneud trwy gydol y pandemig. Talodd y Cyngorydd Jarman deyrnged hefyd i Trudy Fisher, gweithiwr hanfodol sy'n Gydlynnydd Prosiect Cynhalwyr Ifainc sy'n darparu cefnogaeth i blant rhwng 5-18 oed ac sydd wedi cefnogi anghenion y cynhalwyr ifainc hyn a'u teuluoedd gyda bwyd a grantiau trydan, a sicrhau bod lleisiau'r plant hyn yn cael eu clywed. Mae hi wedi cael ei henwebu am Wobr Dewi Sant gan Brif Weinidog Cymru (gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 24 Mawrth 2021). Gofynnodd y Cyngorydd Jarman am anfon llythyr gan y Maer at y ddau i gydnabod eu cyflawniadau a dymuno'n dda iddyn nhw ar gyfer y dyfodol.

113 Rheol Dull Gweithredu'r Cyngor 15.1

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd, mai nifer y pleidiau gwleidyddol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod oedd: -

Grŵp Llafur - 43

Grŵp Plaid Cymru - 15

Grŵp Annibynnol RhCT - 6

Grŵp y Ceidwadwyr - 2

Aelod Annibynnol - 1

114 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cofnodion cyfarfodydd rhithwir y Cyngor o 20 Ionawr a 10 Chwefror 2021 fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfodydd, ar yr amod eu bod yn nodi bod Grŵp y Ceidwadwyr wedi ymatal rhag pleidleisio ar y Rhybudd o Gynnig fel y nodir yng Nghofnodion yr 20 Ionawr 2021 (Cofnod 94).

115 Archwilio Cymru - Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyflwynodd Mr C Davies, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru, Grynodedb Archwilio blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2020 gan nodi'r gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019. Dywedwyd wrth y Cyngor fod y crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac eleni wedi'i gyflwyno mewn fformat mwy hygyrch a chryno. Ychwanegodd mai hon

fyddai'r flwyddyn olaf iddo ef a'i gydweithiwr Ms J Davies gyflwyno'r crynodeb ar gyfer RhCT gan fod y ddau ohonyn nhw'n symud ymlaen i brosiectau eraill.

Yn dilyn y cyflwyniad, diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r ddau Swyddog am yr adroddiad a nododd fod y berthynas onest ac agored rhwng y Cyngor ac Archwilio Cymru wedi bod yn adeiladol ac yn ddefnyddiol i'r Cyngor o ran cydnabod a blaenoriaethu'r meysydd hynny lle bu angen gwelliannau.

Yn dilyn trafodaeth a sylwadau gan yr Arweinwyr Grŵp **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad.

116 Datganiadau

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas â goleuo adeiladau allweddol amlwg ledled RhCT ar 23 Mawrth, yn arwydd o barch i gymunedau RhCT ac er mwyn diolch i'r GIG a'r holl staff wrth nodi dyddiad blwyddyn swyddogol ers dechrau'r Cyfyngiadau Symud.

117 Cwestiynau gan yr Aelodau

Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan):

“Oes modd i'r Arweinydd roi diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer yr Orsaf Drenau newydd yn Ystâd Treforest?”

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd fod RhCT yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru (TFW) a Llywodraeth Cymru (LIC) ar ddatblygu'r orsaf newydd sy'n faes blaenoriaeth ar Llinellau'r Cymoedd ac y bydd yn cael ei lleoli ar ochr arall yr afon i ble mae Swyddfa'r Adran Gwaith a Phensiynau, gyda phont droed newydd, sy'n cydymffurfio ag amodau teithio llesol, yn mynd o Willow Ford Road ac yn cysylltu â'r Ystad. Mae Trafnidiaeth Cymru yn symud ymlaen gyda dyluniad cam C y datblygiad ac mae Cyngor RhCT yn cefnogi'r cynulliad tir sy'n ofynnol. Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau ar ariannu rhaglenni yn parhau ac o'r flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol nesaf mae cynnydd gyda chyllid rhanbarthol yn mynd rhagddo, a bydd y cynllun yn cael ei gymryd ymlaen dros y ddwy flynedd nesaf.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol

Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan):

“Oes modd i'r Cynghorydd Morgan yn nodi beth yw polisi neu agwedd y Cyngor tuag at leihau allyriadau cerbydau i wella ansawdd aer mewn ardaloedd preswyl

yng ngoleuni RhCT yn sgil dyfarniad diweddar Crwneriaid Southwark, dolen isod (Saesneg yn unig).

"On 16 December, Southwark Coroner's Court in London found that air pollution "made a material contribution" to the death of nine-year-old Ella Adoo-Kissi-Debrah."

<https://www.bbc.com/news/science-environment-55352247>

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Dyweddodd yr Arweinydd fod Ella Adoo-Kissi-Debrah yn byw ger Ffordd Gylchol brysur yn Lewisham ac yn dioddef gyda math prin o asthma aciwt a oedd yn ei gwneud hi'n agored i niwed gan nwyon gwenwynig a gronynnau. Cadarnhaodd y Crwner fod ei marwolaeth oherwydd cyflyrau genetig ac yn rhannol oherwydd yr amgylchedd. Ar ran y Cyngor, estynnodd yr Arweinydd ei gydymdeimlad â'r teulu a thalu teyrnged i'r ffordd ddewr yr oedden nhw wedi tynnu sylw at y materion.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn asesu ansawdd aer yn RhCT yn rheolaidd ac wedi gwneud hynny ers diwedd y 1990au i gael gwell dealltwriaeth o'r materion cymhleth sy'n ymwneud ag ansawdd aer lleol ac i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ac mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn y monitro tymor hir rhai llygryddion aer fel Nitrogen Deuocsid. Mae monitro'n dangos bod lefelau ansawdd aer yn RhCT wedi gwella'n sylweddol ers diwedd y 1990au ac mae'r lefelau yn is na'r amcanion ansawdd aer a osodwyd yn genedlaethol. Mae rhai lleoliadau yn y fwrdeistref sirol yn fwy heriol o ran ansawdd aer gwael a Nitrogen Deuocsid cysylltiedig â thraffig, ac mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi fel ardaloedd rheoli ansawdd aer. Trwy fabwysiadu cynlluniau gweithredu ansawdd aer pwrpasol, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o gamau cost-effeithiol yn ymwneud â rheoli traffig.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod opsiynau traffig cynaliadwy yn cael eu hannog megis y cynlluniau Metro, Parcio a Theithio yn ogystal â mentrau cymdogaeth lleol fel llwybrau cerddwyr a llwybrau cerdded i'r ysgol. Mae hefyd ymgysylltiad â darparwyr trafndiaeth gyhoeddus i ystyried y rhwystrau i ddefnyddio opsiynau trafndiaeth lleol. Mae'r cydweithredu â phartneriaid fel LIC yn hollbwysig wrth symud ymlaen, cydnabu'r Arweinydd rai o'r meysydd problemus fel yr A470 a chyfyngiadau pellach sydd wedi'u cyflwyno. Mae'r pandemig wedi tarfu ar rywfaint o fonitro oherwydd y gostyngiad yn y defnydd o draffig, er ei fod yn gadarnhaol i'r amgylchedd, bydd y tueddiadau tymor hwy yn parhau i gael eu monitro.

Mae nifer o bapurau wedi'u cyhoeddi megis Mesur Aer Glân Cymru (papur gwyn) sy'n edrych ar asesiadau ansawdd aer lleol a chyflawniad opsiynau. Mae Hybiau Aer Glân yn edrych ar ymgysylltu â'r gymuned gan edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem hirdymor hon. "

Cwestiwn atodol gan y Gyngorydd M Powell:

"Pam fod yr Arweinydd yn bwriadu dargyfeirio traffig y briffordd trwy ardal breswyl i gynyddu llygredd aer a symudiadau cerbydau mewn ardal adeiledig?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Cadarnhaodd yr Arweinydd fod terfyn traffig (pwysau) ar y Bont Wen ers cryn amser cyn ei chau ac nad oes arwydd dargyfeirio ar waith i ddargyfeirio traffig i unrhyw gyfeiriad. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod gwaith wedi ei wneud wrth y goleuadau traffig ger y gyffordd gan yr Orsaf Heddlu a nododd fod capasiti lôn ychwanegol, graddoli a mesurau gwella ffyrdd ar waith i leddfu rhai o'r pwysau traffig. Nid yw'r Cyngor yn dargyfeirio traffig drwy'r ystâd honno ac mae'n bont gyhoeddus, mae traffig yn gallu mynd ar draws y bont i'r ddau gyfeiriad ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd trigolion lleol yn cael eu hannog i beidio â defnyddio'r llwybr fel llwybr osgoi. ”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

“A all Aelod y Cabinet amlinellu pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn ei darparu o ran Prydau Ysgol Am Ddim?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Dywedodd y Cyngorydd Rosser fod cefnogaeth yn parhau i gael ei darparu i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae pryd poeth maethlon yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol o dan y trefniant presennol. Mae'r disgyblion hynny nad ydyn nhw'n mynychu'r ysgol oherwydd eu bod nhw'n gwarchod neu'n hunan-ynysu, yn ogystal â'r dysgwyr o bell, yn cael cefnogaeth gyda thaliad Bacs o £3.90 y dydd.

Cadarnhaodd y Cyngorydd Rosser fod LIC, fel rhan o'r cyllid o £11 miliwn y llynedd, wedi ymrwmo i gefnogi disgyblion PYDd trwy gydol gwyliau'r ysgol a bydd rhieni cymwys yn derbyn taliad o £39.00 y plentyn am gyfnod Gwyliau'r Pasg. Hysbyswyd yr aelodau bod y Cyngor, ers dechrau'r pandemig a diwedd Ionawr 2021, wedi talu cyfanswm o £5.5 miliwn mewn taliadau cysylltiedig â phrydau ysgol am ddim a rhagwelir y bydd y flwyddyn lawn yn £6.3 miliwn.

Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd Williams:

“Oes modd i'r Cabinet ddarparu gwybodaeth am y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) a pha gymorth sydd ar gael o dan y cynllun hwnnw?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

“Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) yn darparu £125 ar gyfer gwisg ysgol, offer, citiau chwaraeon a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi estyn cymhwysedd i flynyddoedd ysgol ychwanegol ac mae'r meini prawf wedi'u hystyngi i gwmpasu gliniaduron a/neu lechi. Gall disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD wneud un hawliad y flwyddyn a gwneud cais os ydyn nhw ym flynyddoedd ysgol 1,3, 5 neu os ydyn nhw'n 7-11 oed, neu os ydyn nhw mewn Ysgol Arbennig neu yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn 4,5,7,9 neu 11-15 oed. Mae cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar gael ym mhob blwyddyn ysgol. ”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Oes modd i'r Arweinydd ddarparu diweddariad ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen ar gyfer deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd nawr bod y gwaith wedi dechrau?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y gwaith ar ddeuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn dod yn ei flaen yn dda ac wedi dechrau cyn y Nadolig. Nid yw'n ymwneud y â chysylltedd o Ganolbarth Lloegr â'r Cymoedd yn unig, ond hefyd â phryderon diogelwch mewn perthynas ag adrannau 5 a 6 mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau a marwolaethau ar y ffordd. Disgwylir i'r gwaith presennol bara tair blynedd i'w gwblhau a fydd yn cynnwys adeiladu cyffordd newydd yn Cross Fychan a ffordd gyswllt newydd i'r A459 i sicrhau bod y cysylltiad â Chwm Cynon yn cael ei wella yn lle cael ei dorri. ”

Cwestiwn atodol gan y Cyngorydd Boggis:

“Rwy'n nodi budd y cysylltedd ond faint fydd y prosiect yn helpu twristiaeth yn ardal ogleddol Cwm Cynon?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer twristiaeth fel Zipworld, Penderyn a Pharc Gwledig Aberdâr, sydd wedi derbyn cyllid sylweddol trwy Dasglu'r Cymoedd. Bydd gwella'r cysylltiadau teithio, os gellir bwrw ymlaen â chynlluniau gyda'r metro, a'r rheilffyrdd, yn gwella'r cyfleoedd ar ben y cwm ac yn anng ymwelwyr i aros yn hirach. Y gobaith yw y bydd yr atyniadau i dwristiaid yn denu cwmnïau gwestai i'r ardal fel y gall ymwelwyr aros am ychydig ddyddiau a gwario arian yn lleol i greu swyddi a gwella'r economi leol. ”

Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan):

'A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar ganfyddiadau diweddar yr adroddiad ar wasanaethau mamolaeth BIP Cwm Taf Morgannwg? ”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Cyhoeddwyd yr adroddiad annibynnol cyntaf ar 25 Ionawr 2021 a chadarnhaodd yr Arweinydd fod ganddo nifer o gyfarfodydd gyda Chadeirydd y panel Goruchwyllo i drafod yr argymhellion. Dywedodd yr Arweinydd fod y rhaglen waith yn cynnwys 160 achos o feichiogrwydd rhwng 1 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018 ac mae wedi'i gategoreiddio'n dri maes, 'Morbiditydd a Marwolaethau Mamau', 'Babanod Marw-anedig' a 'Babanod a Fu Farw neu a oedd angen Gofal Arbenigol yn Syth Ar Ôl Geni'.

Mae'r adroddiad cyntaf yn canolbwyntio ar famau a oedd angen gofal brys ac yr oedd angen eu derbyn i ofal dwys gydag 16 achos yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a 12 achos yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r meysydd pryder a nodwyd yn flaenorol yn yr adolygiad a godwyd yn flaenorol gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd a Choleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr. Esboniodd yr Arweinydd y byddai gwahanol ganlyniadau wedi cael eu cyflawni mewn 27 allan o'r 28 achos pe bai rheolwyr a staff wedi cymryd gwahanol gamau.

Mae nifer o themâu wedi cael eu datblygu ers hynny megis methu â gwranddo ar

fenywod, methu â nodi a chynyddu risg, arweinyddiaeth glinigol annigonol a thriniaeth amhriodol gan arwain at ganlyniadau niweidiol y pwysleisiodd yr Arweinydd y bydd angen iddynt barhau i symud ymlaen am gryn amser.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod nifer sylweddol o argymhellion wedi eu rhoi ar waith yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ond roedd yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd. Cydnabu'r Arweinydd bwysigrwydd atebolrwydd a phwysigrwydd nodi beth arweiniodd at rai o'r canlyniadau. ”

Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Fox:

“Mae'r Arweinydd wedi nodi o'r blaen nad oedd ganddo unrhyw hyder yn y Bwrdd Iechyd Lleol, a all gadarnhau a yw hynny'n dal i fod yn wir?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Esboniodd yr Arweinydd fod ganddo ddiffyg hyder mewn rhai unigolion, uwch reolwyr, ond ers hynny mae'r uwch dîm rheoli wedi newid ac mae pedwar ohonyn nhw bellach wedi gadael y Bwrdd Iechyd am wahanol resymau, gan gynnwys y Prif Weithredwr. Mae'r berthynas waith agos rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, yn ystod y pandemig, wedi cryfhau'r dulliau cyffredinol ac wedi bod yn adeiladol. Dywedodd yr Arweinydd pe bai'n gofyn yr un cwestiwn heddiw y byddai'n ateb bod ganddo hyder yn y Bwrdd Iechyd er nad yw hynny'n wir am bob maes. Ar ryw adeg yn y dyfodol yn y cyflwyniad nesaf i'r Cyngor, roedd yn gobeithio y gellid gwrthdroi'r farn honno ymhlith Aelodau'r Cyngor hefyd. Dywedodd fod ganddo lawer mwy o hyder yn yr uwch dîm arwain sydd yn eu swydd.

118 Rhaglen Waith y Cyngor 2020/2021

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu ddiweddariad ynghylch Rhaglen Waith y Cyngor a chyhoeddodd nad oedd unrhyw newidiadau nac ychwanegiadau i raglen waith y Cyngor 2020/21 fel y'u cyhoeddwyd.

119 Diffyg presenoldeb gan Gynghorydd am Chwe Mis

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu, ei adroddiad mewn perthynas â Chynghorydd yn cael ei ddiswyddo o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd. Fel rhan o'i gyflwyniad amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y darpariaethau Adran 85 ac 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (“LGA 1972”), sy'n delio â chynghorydd yn gadael swydd oherwydd methu â mynychu cyfarfodydd; a gwybodaeth mewn perthynas â diffyg presenoldeb aelod o GBS Rhondda Cynon Taf mewn cyfarfodydd dros gyfnod o fwy na chwe mis, heb i'r Cyngor gymeradwyo caniatâd i fod yn absennol.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cyngor, ymhellach i gyflwyno Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ar 22 Ebrill 2020, y bu diwygiad pellach i adran 85 o LGA 1972 a nododd y dylai'r y cyfnod o 22 Ebrill 2020 i'r diwrnod cyntaf y cynhelir cyfarfod (ac y gallai Aelod ei fynychu) gael ei ddiystyru at ddibenion cofnodi presenoldeb Aelod mewn cyfarfodydd a gweithredu'r rheol chwe mis.

Ar adeg cyflwyno'r rheoliadau, roedd y Cyngor ailgyflwyno swyddogaethau

pwyllgor yn gynyddrannol, er mwyn caniatáu i Aelodau adeiladu profiad yn gweithredu mewn amgylchedd rhithwir ac i bawb dan sylw ennill profiad o ddefnyddio platfform Zoom. Roedd y dull hwn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r holl aelodau gymryd rhan mewn hyfforddiant a chyfarfodydd rhithwir.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, er gwaethaf ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r Cynghorydd Gavin Williams (ar gyfer ward Etholiadol Penrhawceiber), nad oedd yr Aelod wedi mynychu cyfarfod am gyfnod o chwe mis (y cyfarfod diwethaf a fynychwyd oedd Cyngor ar 4 Mawrth 2020) heb reswm a gymeradwywyd gan y Cyngor dros ei ddiffyg presenoldeb o fewn y cyfnod hwnnw.

Cafwyd trafodaeth a chyfle i'r Arweinwyr Grŵp unigol i ofyn cwestiynau i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mewn perthynas â'r mater.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i nifer o ymholiadau yn ymwneud â'r 'ymdrechion rhesymol' i gyfathrebu â'r Cynghorydd Williams ers ei bresenoldeb diwethaf ar 4 Mawrth 2020. Dywedwyd wrth y Cyngor fod pob gwŷs pwyllgor electronig a chopïau caled o agendâu wedi'u cylchredeg yn rheolaidd i'r Aelodau yn ôl yr angen a'r galw. Ychwanegodd fod cefnogaeth i gymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd rhithwir yn cael ei gynnig mewn sawl ffordd, trwy sesiynau drws agored, a oedd ar agor i bob aelod yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2020, sesiynau llai i gefnogi anghenion unigol aelodau, y cafodd pob aelod wahoddiad i'w mynychu, a sesiynau pwrpasol ar gyfer aelodau a oedd angen cefnogaeth bellach gan y Gwasanaethau Democrataidd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymhellach fod gohebiaeth gyda'r Cynghorydd Williams yn ystod yr amser hwn trwy lythyr, e-bost a ffôn wedi'i gynnal a'i gofnodi.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oedd y Cynghorydd Williams wedi mynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall yn ystod y cyfnod hwn fel y Cabinet, y Pwyllgor Trwyddedu, y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu nac fel Llywodraethwr AALI, a fyddai wedi golygu ei fod wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau. Cadarnhaodd ymhellach, fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, ei fod yn fodlon bod yr holl ymdrechion rhesymol wedi'u cyflawni a bod cefnogaeth ddigonol wedi'i chynnig, a oedd wedi'i adlewyrchu yn ei adroddiad 'Digonolrwydd Adnoddau' i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Yn y cyfarfod cofnodwyd y sylwadau cadarnhaol a gafwyd mewn perthynas â'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Democrataidd i Aelodau ac yn benodol y gefnogaeth mewn perthynas â chyfarfodydd rhithwir.

Dywed yr adroddiad yn 4.8 'the six-month rule was therefore recorded from July 2020 when Full Council meetings resumed', a nodwyd pryder ynghylch 2 aelod arall nad oeddent wedi mynychu cyfarfodydd o fewn y cyfnod o chwe mis hyd at y 31 Rhagfyr 2020.

Yn dilyn trafodaeth bellach, ar yr adeg hon yn yr achos ac oherwydd sensitifrwydd y mater, cynigiwyd bod yr Aelodau'n ystyried y busnes sy'n weddill heb gamera.

PENDERFYNWYD -

"bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod o dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 23 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf, sef gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithiwr penodol, cyn-weithiwr neu ymgeisydd i ddod yn ddeiliad swydd o dan yr awdurdod a gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau ag unrhyw fater cysylltiadau llafur sy'n codi rhwng yr Awdurdod neu Weinidog y Goron a gweithwyr, neu ddeiliad swydd, o dan yr Awdurdod."

Yn ei absenoldeb, cafodd datganiad gan y Cyngorydd G Williams ei ddarllen ar lafar i'r Cyngor ar ffurf llythyr gan Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT.

Yn ystod y drafodaeth **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor, er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

Trafododd yr Aelodau y mater ymhellach a chynigiwyd y cynnig canlynol (a ddiddymwyd) gan Gyngorydd Bwrdeistref y Sir P. Jarman:

"Cyfeirio'r cynnig hwn i'r Swyddog Monitro at y diben o nodi Aelodau eraill a fethodd y prawf 6 mis ac adroddir arno yn ôl i'r cyfarfod nesaf."

(Nodwch: Roedd Grŵp Plaid Cymru, Grŵp Annibynnol RhCT, y Grŵp Ceidwadol a'r Cyngorydd Belzak (Aelod Annibynnol) yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y cynnig a ddiddymwyd).

PENDERFYNWYD agor y cyfarfod i'r cyhoedd ar gyfer trafod y materion sy'n weddill.

Ar ôl ystyried y mater, **PENDERFYNWYD:**

1. Cydnabod y manylion a ddarperir yn yr adroddiad mewn perthynas â diffyg presenoldeb y Cyngorydd G. Williams mewn cyfarfodydd am gyfnod o fwy na chwe mis heb i'r Cyngor gymeradwyo caniatâd i fod yn absennol; a

2. Cytuno y dylid datgan, yn unol ag Adrannau 85 ac 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod swydd Cyngorydd G. Williams fel Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (ar gyfer Ward Etholiadol Penrhiwceiber) yn wag.

(Nodwch: Roedd Grŵp Plaid Cymru, Grŵp Annibynnol RCT, y Grŵp Ceidwadol a'r Cyngorydd Belzak (Aelod Annibynnol) yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig)

120 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol ei adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2021/22 ac yn nodi argymhellion y Cabinet mewn perthynas â Chyllideb Refeniw'r Cyngor a lefel Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022.

Dwywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol am "benawdau" Setliad Terfynol 2021/22 fel y nodir yn adran 4 yr adroddiad ac yn y

setliad ar gyfer Rhondda Cynon Taf, sy'n gyfystyr â chynnydd mewn cyllid o **3.8%** ar gyfer y flwyddyn nesaf, sydd yr un fath â chynnydd cyfartalog Cymru gyfan. Roedd adnoddau ychwanegol ynghlwm â'r costau terfynol yn cynnwys £206 miliwn i dalu costau ategol a cholledion incwm oherwydd y pandemig ac mae'n cynnwys 6 mis cyntaf y flwyddyn newydd.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod gofyniad cyllideb wedi'i ddiweddarau y Cyngor ar gyfer y Flyddyn nesaf wedi'i gyflwyno i'r Cyngor ar 20 Ionawr 2021, ac roedd bwlch cyllidebol o £4.057 miliwn yn weddill. Mae'r Cabinet wedi ystyried ei opsiynau o ran strategaeth gyllidebol 2021/22 yn erbyn y manylion hyn, a nodir ym mharagraff 7 yr adroddiad.

Soniodd y Cyfarwyddwr am nifer o feysydd a nodwyd ar gyfer adnoddau a buddsoddiad ychwanegol megis ymestyn y Cynllun Rhyddhad Lleol Domestig, adnoddau ychwanegol i hyrwyddo gweithgarwch lleihau Carbon a Newid Hinsawdd y Cyngor, recriwtio mwy o raddedigion ac ehangu rhaglenni lles a rhewi nifer o ffioedd a thaliadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

I gloi, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at y crynodeb o gynigion y strategaeth gyllideb a nodir yn nhabl 1 yn adran 10 yr adroddiad gyda'r bwlch cyllidebol sy'n weddill o £711,000 y gellir ei gydbwysu â dyraniad o'r cyllid pontio a ailgyflenwyd eisoes, gan arwain at gyllideb gytbwys arfaethedig o £527.903 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cafwyd trafodaeth wedyn gan yr Arweinwyr Grŵp a oedd yn cydnabod lefelau ymgysylltu ar gyfer y broses ymgynghori mewn perthynas â chyllideb y Cyngor a nifer o ymholiadau fel y grant yn ymwneud â chynhyrchion misglwyf i ysgolion a chostau cysylltiedig â Covid. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau ariannu holl gostau a cholledion incwm a fydd ar ddiwedd Chwarter 3 yn codi i tua £46 miliwn ar gyfer y flwyddyn lawn.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James Aelod Senedd Cymru) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol terfynol 2021/2022, yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
2. Nodi'r goblygiadau i'r Cyngor a'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb fel sydd wedi'i nodi yn adran 5 yr adroddiad;
3. Cytuno ar gynnydd o 2.65% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2021/22;
4. Cytuno ar y cynnydd yng Nghyllideb Grynswth yr Ysgolion fel yn adran 8 yr adroddiad;
5. Cytuno ar gynigion strategaeth y gyllideb fel ym mharagraffau 10.3 (a) i 10.3 (i) yr adroddiad;
6. Cytuno i ddefnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig' fel arian pontio, sef cyfanswm o £0.711 miliwn ar gyfer 2021/22;
7. Cymeradwyo Tablau 3 a 4 yn Adran 13 yr adroddiad yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni gofynion ariannu corfforaethol y Cyngor;

8. Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2021/22 sef £527.90 miliwn, er mwyn cymeradwyo'r penderfyniadau statudol angenrheidiol o ran pennu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2020.

(**Nodwch:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater).

121 Penderfyniad Treth y Cyngor 2021/22

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol fanylion cyfrifiad Treth Cyngor yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2022, cyn pasio'r penderfyniadau statudol angenrheidiol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru;
2. Nodi lefel Praesept y Cyngor Cymuned sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad;
3. Pasio'r penderfyniadau ffurfiol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2022, fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad;
4. Nodi sylwadau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol am gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd ariannol arfaethedig a nodwyd ym mharagraff 9.2 yr adroddiad.

122 Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - 2023/24

Mae'r adroddiad yma'n egluro Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021/22 i 2023/24, yn dilyn cadarnhau'r setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2021/22.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi manylion setliad terfynol llywodraeth leol am 2021/22 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;
2. Cytuno i ryddhau balans cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi fel sydd ym mharagraff 5.3;
3. Cytuno i ailddyrrannu adnoddau fel y manylir ym mharagraffau 5.5 - 5.8;
4. Cytuno i ddyrrannu'r cyllid sydd wedi'i ryddhau o Gronfeydd Wrth-gefn sydd wedi'u Clustnodi a chyllid cyfalaf craidd sy'n bodoli eisoes i'r blaenoriaethau buddsoddi fel ym mharagraff 6.2;
5. Cytuno ar y rhaglen tair blynedd 'graidd' arfaethedig, yn Atodiad 2;
6. Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3

(a) i (d), sy'n cynnwys y cyllid nad yw'n gyllid craidd:

- Benthycu darbodus i gefnogi Cynlluniau Ysgolion yr 21^{ain} ganrif a chynlluniau gwella'r priffyrdd;
- Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
- Cyfraniadau trydydd parti;
- Adnoddau ychwanegol y Cyngor a gafodd eu dyrannu'n flaenorol i gefnogi cynlluniau sy'n bodoli eisoes a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- Y blaenoriaethau buddsoddi ym mharagraff 6.2, sydd wedi'u hariannu gan arian cyfalaf un tro oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi ym mharagraff 3.2, rhyddhau Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi yn unol â pharagraff 5.3, a Benthycu Darbodus yn unol â pharagraff 5.5 - 5.8.

(**Nodwch:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater).

123 **Strategaeth Reoli'r Trysorlys**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad gyda'r bwriad o nodi: -

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22;
- Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2021/22;
- Dangosyddion y Trysorlys ar gyfer 2020/21 (gwirioneddol hyd yma) a 2021/22, 2022/23 and 2023/24; a
- Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion y Trysorlys, a'r Datganiad Polisi Darpa

124 **Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2021/22**

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi trosolwg o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gwaith rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd â throsolwg o'r risg gysylltiedig, sut y caiff hynny ei reoli a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r adroddiad Strategaeth Gyfalaf sy'n ymgorffori'r Dangosyddion Darbodus.

(**Nodwch:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater)

125 **Datganiad y Cyngor ar y Polisi Cyflogau 2021/22**

Yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wybodaeth i'r Aelodau am Ddatganiad Polisi Cyflogau 2021/22 y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth a sicrwydd bod y Cap Gadael wedi'i ddiidymu,

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog fel y dangosir yn Atodiad A yr adroddiad.

126 Rhybuddion o Gynnig

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol: L. M. Adams, S. Bradwick, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Edwards, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

"Mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi bod yn eithriadol o anodd i fusnesau, gyda llawer o bobl ledled y wlad, y DU a thu hwnt yn gorfod cau wrth i ni geisio rheoli lledaeniad y feirws a chadw pobl yn ddiogel. Yn naturiol, mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y rhai sy'n gweithio yn y sectorau yr effeithir arnynt, gyda miliynau ledled y DU yn cael eu rhoi ar gynllun ffyrlo, a llawer o rai eraill yn colli eu swyddi. Yng ngoleuni'r sefyllfa ddigynsail hon, nid nawr yw'r amser i anghydfodau o ran gordalu ac amodau.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r anghydfod parhaus rhwng British Gas (a'i riant-gwmni Centrica) a'i weithwyr gweithgar - sydd wedi cael eu bygwth â cholli swyddi os nad ydyn nhw'n derbyn cyflog is ac amodau gwaeth.

Oherwydd y streic a gefnogwyd gan fwyafrif helaeth y staff a'r peirianwyr, mae mwy na 100,000 o gwsmeriaid wedi'u gadael yn aros am wasanaeth, a bydd y nifer yma'n cynyddu dros yr wythnosau nesaf trwy gydol y gaeaf.

Mae'r anghydfod yma yn aflonyddwch diangen, gyda Centrica yn nodi elw sylweddol o £901 miliwn yn 2019 (cyn eitemau eithriedig a threth), tra bod proffidioldeb y busnes gwresogi cartrefi yn y DU wedi codi 27% yn ystod 6 mis cyntaf 2020, gyda chyfran sylweddol o'r boblogaeth yn gweithio gartref oherwydd y pandemig.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Y gwaith gwerthfawr y mae staff a pheirianwyr yn ei wneud i gadw cartrefi Prydain yn gynnes - gyda gweithwyr yn aml yn gorfod ymweld â chartrefi pobl yn ystod y pandemig i sicrhau bod gyda nhw fodd o wresogi'u cartref a'u bod nhw'n byw'n gyfforddus.
- Y gweithredoedd a'r bygythiadau anghyfiawn a wnaed gan Centrica i weithwyr British Gas - yn enwedig o ystyried sefyllfa ariannol ddiweddar y cwmni.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn **penderynu**:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Centrica i amlinellu cefnogaeth y Cyngor yma i weithwyr British Gas lleol.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Nodwch:** Y Grŵp Ceidwadol ymatal rhag pleidleisio ar y mater).

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**



**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 26 Mai 2021 am 3.00 pm

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hughes	Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd H Boggis	Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Bradwick	Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Calvert	Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd A Crimmings	Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd G Davies	Y Cynghorydd S Pickering
Y Cynghorydd L De Vet	Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd J Elliott	Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd S.Evans	Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd M Forey	Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd M Webber	Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd A Roberts	Y Cynghorydd M Weaver
Y Cynghorydd G Holmes	Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd G Hopkins	Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd K Morgan	Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd P Jarman	Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd A Morgan	Y Cynghorydd M Adams
Y Cynghorydd J Rosser	Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd R Lewis	Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd J Brencher	Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd Owen-Jones	Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd S Morgans	Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd E Stephens	Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd G Jones	Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd W Jones	Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd L Hooper	Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd D Grehan	Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd J Davies	Y Cynghorydd J Cullwick
Y Cynghorydd A Cox	Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd E Griffiths	Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd J Edwards	Y Cynghorydd S Trask
Y Cynghorydd R Williams	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

1 Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad o absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Davies-Jones, M Fidler Jones, H Fychan, J James, K L Jones, M Tegg, R K Turner, J Williams a C Willis.

2 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 Rheol Dull Gweithredu'r Cyngor 15.1

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraataidd, mai nifer y pleidiau gwleidyddol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod oedd: -

Grŵp Llafur - 34

Grŵp Plaid Cymru - 12

Grŵp Annibynnol RhCT - 4

Grŵp y Ceidwadwyr - 2

4 ETHOLIADAU A PHENODIADAU

2a. Ethol Llywydd y Cyngor

PENDERFYNWYD – ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Powderhill i fod yn Llywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.

Cymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill y Gadair yn dilyn ei benodiad.

2b. Ethol Dirprwy Lywydd y Cyngor

PENDERFYNWYD – ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes i fod yn Ddirprwy Lywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.

(**Nodyn:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater)

2c. Derbyn anerchiad gan Faer y Cyngor ar gyfer 2020-2021.

Manteisiodd y Maer ar y cyfle i fyfyrir ar ei blwyddyn fel Maer Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21. Diolchodd y Maer i'r Cyngor am roi'r anrhydedd fawr iddi o wasanaethu yn Faer Rhondda Cynon Taf, er bod hynny mewn modd gwahanol iawn i bob Maer blaenorol. Tynnodd y Maer sy'n gadael sylw at rai o'r achlysuron pwysig a gymerodd hi ran ynddyn nhw tra'n cadw pellter cymdeithasol, megis Gwasanaeth Coffa ger Cofeb Glynrhedynog fis Tachwedd, lle gosododd hi dorch flodau yn deyrnged i filwyr y gorffennol a'r presennol.

Yn dilyn llacio'r cyfyngiadau, llwyddodd y Maer i ymweld â Chartref Gofal Tŷ Nant i dderbyn rhodd hael a roddwyd i Elusennau'r Maer, gan eu preswylwyr a'r Cartref yn lle anfon Cardiau Nadolig.

Talodd y Maer deyrnged i bawb sydd wedi colli eu bywydau yn ystod y pandemig a thalodd deyrnged bersonol i weithwyr hanfodol, gwasanaethau rheng flaen a gweithwyr meddygol proffesiynol, yn ogystal â'r rhai sy'n rhan o'r Rhaglen Frechu yn Rhondda Cynon Taf. Cydnabu ymroddiad a phroffesiynoldeb cynifer o bobl sydd wedi dangos cryfder aruthrol yn ystod y cyfnod yma.

Manteisiodd y Maer sy'n ymddeol ar y cyfle i ddymuno pob hwyl i'w holnydd a daeth i ben gyda geiriau'r diweddar Capten Syr Tom, "bydd yfory yn ddiwrnod gwell".

Wrth ymateb i hyn, talodd yr Aelodau deyrnged i'r Maer sy'n ymddeol, gan ei chanmol am ei holl waith caled a'i hymdrechion yn ystod blwyddyn nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen.

2d Ethol Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.

PENDERFYNWYD - ethol Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022

Diolchodd Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022 i'r Maer sy'n ymddeol, yn ogystal â diolch ac am y cyfle a roddwyd iddi fel Maer newydd. Cyhoeddodd mai ei gŵr, Lawrence, a'i merch, Nicola Charlesworth, fydd ei chydweddogion. Yr elusennau a ddewiswyd ganddi yw 'Help for Heroes', 'To Wish Upon A Star' ac 'AP Cymru'.

Dymunodd yr Aelodau yn dda i'r Maer newydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

2e. Penodi Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.

PENDERFYNWYD - ethol Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.

Llongyfarchodd y Dirprwy Faer y Maer newydd, yn ogystal â diolch am yr anrhydedd o gael ei hethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2021-22. Cyhoeddodd mai Mr Paul Hammett fyddai ei chydweddog, a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at gefnogi'r Maer yn ystod ei thymor yn y swydd.

2f. Penodi Arweinydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD – penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/2022.

Estynnodd y Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan ei ddiolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac i'r holl staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y 12 mis diwethaf, yn enwedig yr uwch swyddogion a oedd wedi rhoi cyfle i'r Arweinydd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chynrychioli cymunedau RhCT. Rhoddodd sicrwydd cadarn i'r Aelodau ac i'r cyhoedd y byddai'r 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar adferiad, swyddi a gwella ein cymunedau, yn ogytal â llywio dyfodol RhCT mewn modd cadarnhaol.

Cydnabu'r Arweinwyr Grŵp benodiad yr Arweinydd a chynnig eu cefnogaeth barhaus yn ystod y cyfnod adfer.

2g Cadarnhau bod Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf yn cael ei benodi'n/ei phenodi'n Arweinydd yr Wrthblaid.

PENDERFYNWYD cadarnhau penodiad Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman yn Arweinydd yr Wrthblaid.

5 SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Swyddogaethau Gweithredol - Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan y byddai'r cynllun dirprwyo yn cael ei gyhoeddi a'i anfon at bob Aelod yn ystod y cyfarfod. Bydd hefyd i'w weld ar wefan y Cyngor.

PENDERFYNWYD nodi'r Cabinet a'u swyddogaethau unigol, fel y ganlyn: -

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber, Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan - Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings - Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. A. Norris - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis - Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon - Aelod o'r Cabinet ar faterion

6 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Yn ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu wrth yr Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod, a gaiff ei adrodd yn rhan o fusnes y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Balans Gwleidyddol y Cyngor yn adlewyrchu canlyniad y ddau Is-etholiad diweddar.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Adran 4 yr adroddiad sy'n nodi canlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd a'r seddi sydd ar gael ac sydd angen eu penodi i'r grwpiau gwleidyddol priodol. Cyfeiriodd yn benodol at adran 4.2 sy'n nodi'r diwygiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol cyffredol gyda'r Grŵp Ceidwadol yn ennill cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor, seddi a oedd yn arfer bod yn eiddo i Grŵp Annibynnol RCT.

Dywedodd fod Adran 5 yn gofyn i'r Cyngor benderfynu ar ddyraniad yr hysbysiadau cynnig ar gyfer blwyddyn newydd y Cyngor, ac y gofynnir am awdurdod hefyd ar gyfer y penodiadau i'r Pwyllgorau unwaith y derbynnir yr enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD-

- 2.1 Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.
- 2.2 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu, i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, pan fydd yn derbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol, yn amodol ar dderbyn unrhyw geisiadau dilynol i newid aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'u cyfeirio at y Cyngor.
- 2.2 Nodi nad yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu na Phwyllgorau Craffu;
- 2.4 Nodi bod modd i o leiaf un Aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, a Gwasanaethau Democraidd, ond bod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio rhag cyflawni'r swyddi yma;
- 2.5 Bod y Rhybuddion o Gynnig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022 fel y ganlyn:

Llafur - 10
Plaid Cymru - 6
Grŵp Annibynnol RhCT - 2
Y Blaid Geidwadol - 1
Aelod heb ei ddyrannu (x1) - 1

7 CYFANSODDIAD Y CYNGOR - NEWIDIADAU ARFAETHEDIG A MATERION ATEGOL

CYFANSODDIAD Y CYNGOR – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG A MATERION ATEGOL

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor ynghyd â materion ategol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ar y cyd. Ymatebodd hefyd i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021. Ychwanegodd fod y materion yn destun ystyriaeth, ac yn cael eu cefnogi gan Bwyllgor y Cyfansoddiad.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth rai o'r cynigion allweddol a oedd yn cynnwys anfon gwŷs pwyllgor electronig yn ddiodyn, ond ychwanegodd na fydd yn atal unrhyw Aelod rhag gofyn am gopi caled cyn Pwyllgor. Cyflwyno amser eitem dangosol ar yr agenda, sy'n cefnogi'r trefniadau rhithwir ac yn helpu'r holl Aelodau a grwpiau gwleidyddol i gynllunio eu sylwadau cyn cyfarfod a chynnwys egwyl gysur lle bo hynny'n briodol. Dywedodd fod hyn yn arbennig o bwysig o ran pwyllgorau hir a ffurfioli'r cais i ymestyn busnes lle bo angen.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at ddatblygiad Porth yr Aelodau, sydd wedi'i oruchwylio gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, a'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi i Aelodau ymgymryd â nifer o brosesau democrataidd. Y canllawiau ychwanegol mewn perthynas â chwestiynau atodol sy'n egluro, pan fo'r 20 munud wedi dod i ben, ni chaniateir i'r aelod ofyn ateb ei gwestiwn atodol na chael ateb iddo.

I gloi, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at y newid yn nheitl y Pwyllgor Archwilio i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio', a'r newid yn nheitl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol i "Bwyllgor y Cyfansoddiad".

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD** cytuno ar y diwygiadau arfaethedig a'r materion atodol sy'n ymwneud â Chyfansoddiad y Cyngor fel y'u nodwyd yn yr adroddiad rhwng 2.1 a 2.21 ac fel y ganlyn:

Diwygiadau i Reolau Gweithdrefn y Cyngor

Amseroedd a Mannau Cynnal y Cyfarfodydd

2.1 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.1 – 4.3 yr adroddiad, i ddiwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 4 fel y ganlyn:

4.1 Y Swyddog Priodol fydd yn penderfynu'r amser a manau ar gyfer cynnal y cyfryw gyfarfodydd, ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau amdanynt yn yr wŷs.

4.2 At holl ddibenion y Cyfansoddiad nid yw'r term "cyfarfod" yn gyfyngedig o ran ystyr i gyfarfod o bersonau y mae pob un ohonynt, neu unrhyw un ohonynt, yn bresennol yn yr un lle. Mae unrhyw gyfeiriad at "lle" i'w ddehongli fel lle mae cyfarfod yn cael ei gynnal, neu i'w gynnal, yn cynnwys cyfeiriad at fwy nag un lle gan gynnwys lleoliadau electronig, digidol neu rithwir fel lleoliadau rhyngwrwyd, cyfeiriadau gwe neu rifau ffôn galwadau cynhadledd.

Gwŷs i Gyfarfod Pwyllgor

2.2 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.4 – 4.8 o'r adroddiad, diwygio

Rheol Gweithdrefn y Cyngor 5.1 fel y ganlyn: -

- 5.1 "Y Swyddog Priodol fydd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am amseroedd a manau unrhyw gyfarfodydd, yn unol â'r Rheolau Hawl i Gael Gafael ar Wybodaeth. O leiaf tri diwrnod clir cyn Cyfarfod, bydd y Swyddog Priodol yn anfon gwŷs a lofnodwyd ganddo ef neu ganddi hi at bob Aelod o'r Cyngor. Bydd yr wŷs yn nodi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod gan gynnwys p'un a yw'r cyfarfod am gael ei gynnal ar-lein neu a oes trefniadau ar gyfer cyfarfod hybrid (corfforol ac ar-lein) ar waith/ Bydd hefyd yn nodi'r busnes i'w drafod, ac unrhyw adroddiadau sydd ar gael ar yr adeg honno. Bydd yr wŷs hefyd yn nodi p'un a fydd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we. Gall unrhyw Aelod nad yw'n dymuno derbyn yr wŷs trwy e-bost ofyn (yn ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol) am ba bynnag ddull cyflwyno rhesymol arall yr hofffen nhw, gyda'r ceisiadau hynny yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan y Swyddog Priodol.

Cworwm

- 2.3 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.9 – 4.12 yr adroddiad, diwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 7 fel y ganlyn:

Ac eithrio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Materion Datblygu, cworwm cyfarfod fydd chwarter cyfanswm yr Aelodau.

Bydd Aelod sy'n mynychu cyfarfod o bell yn cael ei gyfrif at ddibenion sefydlu cworwm cyhyd â bod modd i'r Aelod hwnnw, pan fydd yn siarad, gael ei glywed (a'i weld lle bo hynny'n bosibl) a'i fod yn gallu clywed (a gweld lle bo hynny'n bosibl) yr Aelodau eraill sy'n mynychu'r cyfarfod a'r Swyddog Priodol, neu swyddog arall a benodwyd i weithredu ar ei ran.

Os yw'r Llywydd/Cadeirydd yn cyfrif nifer yr aelodau sy'n bresennol (rhith-bresennoldeb a mynychwr wyneb yn wyneb) mewn unrhyw gyfarfod ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Os yw hyn yn cael ei achosi gan anawsterau technegol a brofir gan Aelodau sy'n ceisio ymuno â'r cyfarfod, neu oherwydd cynnal cyfarfod ar-lein, caniateir cyfnod o 15 munud i asesu p'un a oes modd datrys y mater. Os yw'r cyfarfod yn parhau i fod heb gworwm, bydd y materion sy'n weddill yn cael eu trafod ar amser a dyddiad a bennir gan y Llywydd/Cadeirydd. Os nad yw ef neu hi yn pennu dyddiad, caiff y materion sy'n weddill eu trafod yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

Hyd y Cyfarfod

- 2.4 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.13 – 4.17 yr adroddiad, diwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 8 fel y ganlyn:

Hyd a Busnes Cyfarfodydd y Cyngor

8.1 Bydd gan y Llywydd/Cadeirydd y disgrisiwn i alw gohiriad ar amser priodol er mwyn hwyluso seibiant o 10 munud. Mae modd i'r Llywydd ailadrodd toriad o'r fath yn ôl yr angen.

8.2 Cytunir ar yr agenda a'r amseriadau ar gyfer eitemau busnes ar gyfer unrhyw Gyfarfod o'r Cyngor yn unol â'r Rheolau hyn gan y Llywydd (Neu ddirprwy Lywydd yn ei absenoldeb) mewn ymgynghoriad â'r Swyddog

Priodol o leiaf 7 Diwrnod Gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor. Dim ond yn ôl disgrisiwn y Llywydd y mae modd ymestyn unrhyw derfynau amser ar eitemau ar yr agenda.

Cyfeiriadau at y Llywydd yn y Cyfansoddiad

- 2.5 Am y rheswm a amlinellir ym mharagraff 4.18, cynigir y dylid disodli pob cyfeiriad yn y Cyfansoddiad at "Aelod Llywyddol" (Presiding Member) gyda "Llywydd" (Presiding Officer)"

Cwestiynau gan yr Aelodau

- 2.6 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.19-4.20 o'r adroddiad, diwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 9.2 a 9.4(d) fel y ganlyn: -

9.2 Bydd uchafswm o 20 munud yn cael ei ganiatáu ar gyfer Cwestiynau gan Aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn. Ni chaniateir i aelod ofyn ei gwestiwn atodol, na chael ateb iddo, os yw'r 20 munud wedi dod i ben. Ni fydd cwestiynau pellach yn cael eu gofyn ar ôl i'r 20 munud ddod i ben. Bydd trefn y cwestiynau sy'n cael eu gofyn ym mhob cyfarfod yn cael ei phennu gan y Swyddog Priodol wrth iddo/iddi eu dewis ar hap. Bydd angen ailgyflwyno unrhyw gwestiynau nad oes cyfle wedi bod i'w hateb i'r Swyddog Priodol ar gyfer cyfarfod llawn nesaf y Cyngor, yn unol â'r rheolau hyn. Nid yw'r rheol hon yn atal Aelod rhag gofyn cwestiwn brys y mae'r Llywydd wedi cytuno arno yn unol â Rheol 9.4(b). Bydd unrhyw gwestiynau brys o'r fath yn cael eu cynnwys cyn dechrau'r 20 munud a ddyrannwyd ar gyfer cwestiynau sydd wedi'u derbyn ymlaen llaw.

9.4(d) Rhaid i'r Aelod sy'n dymuno gofyn y cwestiwn gyflwyno'r cwestiwn i'r Swyddog Priodol, neu mae modd i Arweinydd y Grŵp ar ran yr Aelod hwnnw yng nghyfarfod perthnasol y Cyngor/Pwyllgor wneud hynny hefyd

Cynigion gyda Rhybudd

- 2.7 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.21 – 4.22 yr adroddiad, i ddiwygio ail bwynt bwled Rheol Gweithdrefn y Cyngor 10.1(b) fel y ganlyn:

- yn ysgrifenedig, drwy ffacs, neu drwy ebost, gydag enwau'r Cynigydd a'r Eilydd wedi'u datgan yn glir, ~~wedi'i lofnodi gan y Cynigydd~~; a

- 2.8 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.23 yr adroddiad, i ddiwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 10.1(e) fel y ganlyn: -

Pan fydd Cynigion wedi'u cyflwyno o dan y Rheol 10 hon, ac wedi'u lofnodi gan fwy na dau o Aelodau, fe dybir taw'r ddwy lofnod a fo wedi'u rhestru yw rhai'r Cynigydd a'r Eilydd. Gall Arweinydd Grŵp gyflwyno Rhybudd o Gynnig ar ran y cynigydd ac eilydd y cynnig.

Pleidleisio

- 2.9 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.24 – 4.26 o'r adroddiad, diwygio

Rheol Gweithdrefn y Cyngor 15.1 fel y ganlyn: -

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, penderfynir ar unrhyw fater gan fwyafrif syml o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y cyflwynwyd y cwestiwn a'i roi gerbron i'w osod.

Ffotograffau a Recordio Cyfarfodydd

- 2.10 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.27 – 4.29 o'r adroddiad, diwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 23 fel y ganlyn: -

Bydd trafodaethau mewn cyfarfodydd yn cael eu trydar yn fyw trwy gyfrif twitter swyddogol y Cyngor a'u ffrydio'n fyw trwy we-ddarlledu ar wefan y Cyngor. Caniateir i Aelodau Etholedig a'r cyhoedd hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd y Cyngor ar yr amod nad yw'n tarfu a y drafodaeth (*Rhaid i aelodau gadw eu ffonau symudol (ac offer cyfathrebu tebyg arall) wedi'u diffodd, neu wedi'u tawelu, yn ystod y cyfarfod*). Ar wahân i hyn, does dim hawl gwneud unrhyw ffotograff, fideo, na recordiad sain o drafodaethau mewn cyfarfodydd, nac mewn unrhyw ffordd o gwbl drosglwyddo'r trafodion y tu allan i'r cyfarfod heb ganiatâd blaenorol Llywydd. Oherwydd methiant i gydymffurfio â'r Rheol hon efallai y caiff Rheol 19.4 (Aelodau i adael y Cyfarfod) ac 20.1 (symud ymaith Aelodau o'r cyhoedd) ei chymhwyso.

Yn rhan o hyn, bydd fideo a recordiad sain ohonoch chi'n cael ei wneud drwy gydol y cyfarfod. Os oes gan gyfranogwr unrhyw bryderon, ynghylch recordio o'r fath, dylent gysylltu â'r swyddog priodol cyn y cyfarfod. Os derbynnir unrhyw bryderon, bydd y Swyddog Priodol yn penderfynu ar y ffordd orau o barhau â'r cyfarfod, a allai arwain at aildrefnu neu ohirio'r cyfarfod. Ni fydd cyfranogwyr yn cael eu cosbi am godi pryderon yn ymwneud â'r Recordiad Fideo.

Presenoldeb o Bell gan Aelodau (o dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

- 2.11 Nodi, am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.30 – 4.32 o'r adroddiad, cafodd Rheol Gweithdrefn y Cyngor 26.1 a 26.2 isod eu dileu o Reolau Gweithdrefn y Cyngor o dan y pwerau dirprwyedig a roddwyd i'r Swyddog Monitro (a'u cyfleu ymlaen llaw i'r Arweinwyr Grŵp) a'u disodli gan y canlynol:

Cyfarfodydd Aml-leoliad

26.1 Ni chaniateir Cyfarfodydd Aml-leoliad (Presenoldeb o bell) yng nghyfarfodydd y Cyngor oni bai bod amodau adran 47 (2) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 yn cael eu bodloni, sy'n golygu bod unrhyw Aelod sy'n mynychu cyfarfod o bell (y "mynychwr o bell") pan fyddant yn siarad, gallu cael eu gweld a'u clywed gan yr Aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod yn y man lle cynhelir y cyfarfod ("Aelodau mewn presenoldeb wyneb yn wyneb") a rhaid i'r mynychwr o bell, yn ei dro, gallu gweld a chlywed y rhai sy'n bresennol mewn wyneb yn wyneb. Yn ogystal, rhaid i fynychwr o bell allu cael ei weld a'i glywed gan unrhyw aelodau o'r cyhoedd sydd â hawl i fynychu'r cyfarfod ac sy'n arfer hawl i siarad yn y cyfarfod, a rhaid i'r mynychwr allu eu gweld a'u clywed nhw hefyd. Os oes mwy nag un lleoliad o bell, rhaid i'r holl Aelodau sy'n mynychu o bell allu clywed, ond nid o reidrwydd, gweld y mynychwyr eraill sydd o bell.

- 26.2 Ni fydd methiant unrhyw ddarpariaeth dechnolegol p'un a yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn rhannol neu'n llwyr rhwng y mynychwyr o bell a'r Aelodau hynny sy'n bresennol yn ystod y cyfarfod yn annylsu unrhyw ran o'r trafodaethau nac unrhyw bleidlais a gymerwyd. Gall y Llywydd/Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw'n barnu bod hynny'n briodol neu mae modd gohirio'r cyfarfod os yw e o'r farn bod hynny'n briodol tra bod unrhyw faterion technolegol yn cael eu datrys.
- 26.3 Os oes busnes brys neu gyfyngedig o ran amser y mae'n rhaid ei gynnal mewn cyfarfod, dylid egluro i'r Aelodau y byddai'r cyfarfod yn parhau ac y byddai pleidlais yn cael ei chynnal heb eu presenoldeb pe bai problem o ran cyfathrebu/technoleg yn codi.
- 26.4 Bydd yn ddyletswydd ar gyfranogwyr sy'n mynychu cyfarfodydd o bell i sicrhau addasrwydd eu lleoliad ar gyfer y cyfarfod ac i sicrhau nad yw unrhyw eitemau cyfrinachol a ystyrir yn y cyfarfod, fel y'u diffinnir yn Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael eu datgelu i'r cyhoedd.
- 26.5 Pan fydd y Llywydd/Cadeirydd yn penderfynu nad yw'r Aelod yn cadw at yr amodau a nodir yn 26.4 uchod, mae ganddynt y disgresiwn i ofyn i'r Aelod yn symud i leoliad a fyddai'n bodloni'r amodau ar gyfer 26.4 uchod.

Llofnodi Dogfennau

- 2.12 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.33 o'r adroddiad, diwygir Rheolau Gweithdrefn y Cyngor lle mae sôn am 'lofnodi', megis 16.1 (llofnodi cofnodion); 17 (cofnod o bresenoldeb)

Lle mae Aelodau'n bresennol ar-lein, bydd y Swyddog Priodol yn sicrhau bod y manylion hyn yn cael eu nodi yn unol â hynny.

Rheolau Dull Gweithredu – Hawl i Gael Gafael ar Wybodaeth

- 2.13 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.34 – 4.36 yr adroddiad, diwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 12.2 fel y ganlyn:

... Bydd angen sicrhau bod Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer y Dyfodol yn gadarn, yn agored ac yn dryloyw o ran y penderfyniadau sydd ar ddod i sicrhau bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael digon o wybodaeth i'w alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Cyhoeddir y rhaglen waith 14 niwrnod o leiaf cyn dechrau'r cyfnod dan sylw. Bydd y Swyddog Priodol yn cyhoeddi'r Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol ar wefan y Cyngor.

Diwygiadau arfaethedig i reolau'r Weithdrefn Weithredol

Dirprwyaeth gan yr Arweinydd

- 2.14 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.37 o'r adroddiad, diwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 1.2 fel y ganlyn: -

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor, fe fydd yr Arweinydd yn cyflwyno i'r Cyngor Llawn gofnod o'r dirprwyo a wnaeth ef, i'w gynnwys yng Nghynllun

Dirprwyo'r Cyngor fel Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn. Bydd y ddogfen a gyflwynir gan yr Arweinydd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol ynghylch swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn sy'n dod:

- (i) enwau'r bobl a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd;

Cyfarfodydd y Cabinet - Pryd a Ble?

- 2.15 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.38 o'r adroddiad, diwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 1.6 fel y ganlyn: -

Bydd y Cabinet yn cyfarfod o leiaf 12 o weithiau ym mhob blwyddyn fwrdeistrefol, ar adegau i'w cytuno gan yr Arweinydd. Bydd y Cabinet yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, trwy sawl lleoliad (hybrid) neu mewn lleoliad arall y bydd yr Arweinydd yn cytuno arno.

Diwygiad Arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn - Trosolwg a Chraffu

Cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac o Bwyllgorau Craffu'r Cyfadrannau

- 2.16 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.39 – 4.40 yr adroddiad, i ddiwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 5 fel y ganlyn: -

Rhaid cynnal o leiaf chwe Chyfarfod Cyffredin o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac o leiaf wyth Cyfarfod Cyffredin o bob un o'r Pwyllgorau Craffu Cyfadrannau, ym mhob blwyddyn. Yn ychwanegol at hynny, fe geir galw cyfarfodydd arbennig o bryd i'w gilydd yn ôl pan fo hynny yn briodol. Fe gaiff y Cadeirydd, neu'r Swyddog Priodol alw Cyfarfod os yw ef neu hi yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol neu'n briodol.

Galw i Mewn

- 2.17 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.41 yr adroddiad, i ddiwygio Rheol Gweithdrefn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 17.1 fel y ganlyn: -

(I) Mae modd cyflwyno cais am alw penderfyniad i mewn, a wneir yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, naill ai â llaw i swyddog Gwasanaethau Democraidd gan ddefnyddio'r ffurflen galw i mewn ddynodedig (mae copi ohoni ar gael ar gais gan y Gwasanaethau Democraidd) neu drwy bost electronig (e-bost), neu drwy lenwi'r ffurflen berthnasol sydd i'w gweld ar Borth yr Aelodau. Rhaid i unrhyw gais a gyflwynir yn electronig gael ei anfon gan un o'r tri llofnodwr, ac, os yw'n cael ei gyflwyno mewn e-bost, dylid ei anfon i'r cyfeiriad e-bost canlynol - craffu@rctcbc.gov.uk. At ddibenion gwirio cydymffurfiaeth â'r rheolau yma, bernir bod y cyflwyniadau electronig wedi'u derbyn ar yr adeg maen nhw'n cyrraedd y blwch post Craffu/Porth yr Aelodau. Er mwyn bod yn gais dilys, rhaid i unrhyw gais a gyflwynir yn electronig gynnwys yr un wybodaeth a manylion ag sy'n ofynnol i'w llenwi ar y ffurflen bapur. Mae atodi copi o'r ffurflen galw i mewn i'r e-bost neu Borth yr Aelodau yn dderbyniol. Dylai'r tri llofnodwr i'r cais gadw cofnod o'u cytundeb i gyflwyno'r cais galw i mewn gyda'i gilydd. Dim ond os bydd unrhyw anghydfod na chydsyniodd aelod (neu aelodau) i fod yn llofnodwr i'r cais galw i mewn y bydd y Swyddog Priodol yn gofyn am hyn.

Diwygiadau arfaethedig i Godau a Phrotocolau Rhan 5 - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu -

Gweithdrefnau cyfarfod

2.18 Am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 4.42 – 4.44 yr adroddiad, diwygio gweithdrefnau 'Siarad Cyhoeddus yn y Cyfarfod' fel y ganlyn:

- Caniatáu offer anghysbell (dronau) i hwyluso ymweliadau safle er nad yw hyn yn disodli'r dewis o gynnal ymweliadau corfforol.
- Mae manylion Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar gael ar wefan y Cyngor, gyda chyfarfodydd yn digwydd bob yn ail dydd lau (oni bai bod y wefan yn nodi'n wahanol.) Dylid gwneud ymholiadau cyffredinol mewn perthynas â chyfarfodydd i Uned Busnes y Cyngor. BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk
- Os yw'r cyhoedd eisiau gwybod pryd, neu os yw cais cynllunio penodol yn mynd i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, dylent gysylltu â'r Adran Gynllunio yn Nhŷ Sardis, Pontypridd: GwasanaethauCynllunio@rctcbc.gov.uk

Newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio

2.19 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 4.45 - 4.47 o'r adroddiad i ddiwygio Rheol Gweithdrefn Ariannol 4.3 a 4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor (ac o ganlyniad yr holl gyfeiriadau yn y Cyfansoddiad at yr un peth) a newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r:

- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.20 Am y rhesymau a amlinellwyd yn Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar y 26 Ebrill, 2021 fel y manylir ym mharagraffau 4.41 - 4.43 o'r adroddiad hwn, argymhell i'r Cyngor ychwanegu'r ddau bwynt bwled canlynol at gylch gorchwyl y Pwyllgor:

“

Trefniadau Cyflawniad y Cyngor

(Gweithle)

(i) Trafod adroddiad Hunanasesu Cyflawniad Blynyddol drafft y Cyngor ac os bernir ei fod yn angenrheidiol, gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cyngor.

(ii) Derbyn adroddiad Hunanasesiad Blynyddol terfynol y Cyngor mewn perthynas â blwyddyn ariannol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol honno.

(iii) O leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin yn olynol i'r Cyngor, trafod adroddiad Asesiad Cyflawniad Panel annibynnol ar sut mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion o ran cyflawniad.

(iv) Derbyn ac adolygu ymateb drafft y Cyngor i adroddiad Asesiad Cyflawniad annibynnol y Panel ac, os bernir bod angen, mae modd gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiadau a wnaed yn yr ymateb drafft i'r Cyngor.

Ymateb i Gwynion

(X)

(i) Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol.

(ii) Llundio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol. “

Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol

2.21 Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 4.48 o'r adroddiad, diwygio enw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chyfansoddiad i'r 'Bwyllgor y Cyfansoddiad'.

(**Nodyn:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn 2.1-2.21)

8 CYFLOGAU A LWFANSAU AELODAU - ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Roedd cyd-adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol, a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn gofyn i'r Cyngor benderfynu ar swyddi sy'n cael eu talu yn unol â phenderfyniadau Trydydd Adroddiad Blynyddol y Panel Taliadau Annibynnol. ('IRP') ar gyfer Cymru.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ei bod yn bwysig, yn unol â chyfarwyddyd y Panel Taliadau Annibynnol, bod y Cyngor yn osgoi rhoi'r argraff ei fod yn pennu lefelau tâl Aelodau, fodd bynnag, ceisir penderfyniad mewn perthynas â'r meysydd lle rhoddir disgrisiwn lleol, sef hyd at uchafswm o 19 swydd cyflog uwch i'r awdurdod lleol yma ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi penderfyniadau'r Panel fel y'u nodwyd yn ei adroddiad blynyddol;
2. Bod y swyddi canlynol yn cael eu talu ar Gyflog Uwch. Mae'r symiau i'w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022:-

Arweinydd	£55,027
Dirprwy Arweinydd	£38,858
Swyddogion Gweithredol (Aelodau'r Cabinet) (x7)	£33,805
Llywydd	£23,161
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu	£23,161
Cadeirydd Pwyllgor Materion Trwyddedu	£23,161

Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	£23,161
Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu (x4)	£23,161
Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd	£23,161
Arweinydd yr Wrthblaid* * rhaid ei dalu ar yr amod bod meini prawf perthnasol yn cael eu bodloni	£23,161

3. Cadarnhau parhad trefniadau cysylltiedig mewn perthynas â chyflogau a lwfansau ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-22.

9 PENODI AELODAU PWYLLGORAU 2021-2022

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad, a oedd yn gofyn am benodi Pwyllgorau canlynol y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022:

- Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (x11 Aelod)
- Pwyllgor Trwyddedu (x11 Aelod)
- Pwyllgor Penodi (x5 Aelod)
Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion (x5 Aelod)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (x14 Aelod)
- Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad (x14 Aelod)
- Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (x14 Aelod)
- Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc (x14 Aelod) ac Aelodau Cyfetholedig Statudol
- Pwyllgor Craffu - Materion Iechyd a Lles (x14 Aelod)
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (x14 Aelod) ac 1 Aelod Lleyg
- Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd (x14 Aelod)
- Pwyllgor y Cyfansoddiad (x8 Aelod)
- Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (x5 Aelod)
- Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (x5 Aelod)
- Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (x2 Aelod)

Penodi'r Pwyllgorau sydd wedi'u nodi isod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022:-

- a) Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (x11 Aelod)
- b) Pwyllgor Trwyddedu (x11 Aelod)
- c) Pwyllgor Penodi (x5 Aelod)
- d) Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion (x5 Aelod)
- e) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (x14 Aelod)

- f) Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad (x14 Aelod)
- g) Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (x14 Aelod)
- h) Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc (x14 Aelod) ac Aelodau Cyfetholedig Statudol
- i) Pwyllgor Craffu - Materion Iechyd a Lles (x14 Aelod)
- j) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (x14 Aelod) ac 1 Aelod Lleyg
- k) Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd (x14 Aelod)
- l) Pwyllgor y Cyfansoddiad (x8 Aelod)
- m) Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (x5 Aelod)
- n) Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (x5 Aelod)
- o) Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (x2 Aelod)

10 PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION 2021-2022

Yn ei adroddiad, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, yn gofyn i'r Cyngor ystyried penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022, a **PHENDERFYNWYD**:

1. Penodi'r Aelodau canlynol i swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion:

Pwyllgor:	Cadeirydd	Is-gadeirydd
Pwyllgor Cynllunio a Datblygu	S Rees	G. Caple
Trwyddedu	A.S.Fox	D. H. Williams
Penodi	D. Owen-Jones	M. Webber
Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion	J. Bonetto	S. Pickering
Cronfa Bensiwn	M. A. Norris	M. Griffiths

2. Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber yn Is-gadeirydd ar y pwyllgor hwnnw, yn unol â'r amodau a bennwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
3. Nodi, o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), 2011, mai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am benodi Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw;
4. Cytuno y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn gyfrifol am benodi'r Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwnnw;
5. Bydd y gwaith o benodi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad yn cael ei ddyrannu i Grŵp Annibynnol RhCT, a bydd y gwaith o benodi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn cael ei ddyrannu i Grŵp Plaid Cymru;
6. Yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, bod yr Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sydd wedi'u nodi isod:--

Pwyllgor	Cadeirydd	Is-gadeirydd
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	L. M. Adams	W. Lewis
Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad	M. Powell	G Thomas
Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	S. Bradwick	T. Williams
Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc	S. Rees-Owen	J Edwards
Iechyd a Lles	R. Yeo	S. Evans

- Nodi penodiad y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad; a
- Nodi bod Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022 i'w benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

(Nodyn: Ymatalodd Grŵp Annibynnol RhCT rhag pleidleisio ar benodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac ymatalodd Grŵp Plaid Cymru rhag pleidleisio ar benodi'r Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu)

11 CYRFF LLED FARNWROL/PWYLLGORAU AD HOC 2021-2022

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd ei adroddiad mewn perthynas â phenodi Aelodau i'r Pwyllgorau Lled-Farnwrol/Pwyllgorau Ad Hoc ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022 yn amodol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor fel y nodir isod:

PENDERFYNWYD penodi'r canlynol:

- Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (5 Aelod). (3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 o Grŵp Annibynnol RhCT)
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Rosser, J Brencher, D Owen-Jones; Shelley Rees-Owen a MJ Powell;
- Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo (x5 Aelod) (3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 o Grŵp Annibynnol RhCT):
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol W Treeby, J Bonetto, M Webber, M Weaver a L Walker;
- Cydbwyllgor Ymgynghori (4 Aelod)
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, R Lewis, M Webber ac A Morgan

(Nodyn: Ymatalodd Grŵp Plaid Cymru rhag pleidleisio ar y mater uchod)

12 CYRFF ALLANOL A PHENODIADAU I BWYLLGORAU ERAILL

Ar ôl ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu **PENDERFYNWYD** - y byddai'r Aelodau isod yn cael eu penodi i'r Cydbwyllgorau Anweithredol a'r cyrff Allanol canlynol ar gyfer

Blwyddyn y Cyngor 2021-2022: -

- a) Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (1 cynrychiolydd: y Cyngorydd G Hopkins)
- b) Bwrdd Llywodraethwyr Coleg y Cymoedd (1 cynrychiolydd ac 1 Swyddog: Y Cyngorydd J Rosser/Mrs G Davies)
- c) Cyngor Cyswllt Cymru (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd M Webber)
- d) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (5 cynrychiolydd: Y Cyngorwyr R Bevan, C Leyshon, R Lewis, M Webber ac A Morgan)
- e) Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (1 cynrychiolydd / 1 is-gynrychiolydd: y Cyngorydd A Morgan a'r Cyngorydd M Webber yn y drefn honno)
- f) Bwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru (1 cynrychiolydd: y Cyngorydd R Lewis)
- g) Elusen Edward Thomas (4 cynrychiolydd: Y Cyngorwyr A Fox, E George, R Lewis a S Pickering)
- h) Y Gynghrair (3 chynrychiolydd: Y Cyngorwyr J Brencher, G Jones a G Thomas)
- i) Pwyllgor Cyswllt Safle'r Twr (3 chynrychiolydd: Y Cyngorwyr H Boggis, G Thomas a K Morgan)
- j) Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd J Harries)
- k) Fforwm Economaidd De Cymru (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd R Bevan)
- l) Ymddiriedolaeth Judges Hall (3 chynrychiolydd: Y Cyngorwyr G Hughes, W Lewis a J Rosser)
- m) Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd R Lewis)
- n) Cymdeithas Rhandiroedd (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd S Bradwick)
- o) Tribiwnlys Prasio Cymru - Panel Penodi (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd M Webber)
- p) Age Concern Cymru (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd G Hopkins)
- q) Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon (1 cynrychiolydd: Y Cyngorydd Andrew Morgan)
- r) Trivalis (Penodiad Swyddog: Ms C Hutcheon)

Cydbwyllgorau Anweithredol

- s) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (x4: Y Cyngorwyr S Bradwick, S Morgans, A Roberts, a G Holmes)
- t) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (x1: Y Cyngorydd G Thomas)
- u) Panel Trosedd Heddlu De Cymru (x2: Y Cyngorwyr R Lewis a G Thomas)
- v) Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf (x3: Y Cyngorwyr G Caple, G Jones a J Williams)

(**Nodyn:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar eitem q Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon)

13

CALENDR O GYFARFODYDD AR GYFER 2021-2022

Drwy ei adroddiad, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu, am gymeradwyo'r Calendr Cyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-22, sydd i'w weld fel Atodiad. Yn unol ag Adran 6 (2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru), 2011, cynhaliwyd yr arolwg o Aelodau yn

ddiweddar i asesu dewisiadau Aelodau o ran amser cyfarfodydd yn y dyfodol, ac roedd nifer o faterion anstatudol pwysig eraill hefyd wedi'u cynnwys yn yr arolwg y mae'r Aelodau wedi cyfrannu eu barn ato.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at yr elfen o hyblygrwydd o fewn calendr y cyfarfodydd i ganiatáu i Gadeiryddion ymateb i faterion sydd ar ddod yn ystod y flwyddyn, fel cyfleoedd hyfforddi a datblygu, gan gyfeirio'n benodol at y Pwyllgorau Craffu. Dywedodd fod y dulliau o gynnal cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol wedi'u nodi, a bod modd i'r Aelodau eu gweld yn adran 8 yr adroddiad.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; ac wrth wneud hynny, nodi'r ymatebion i'r Arolwg Aelodau Etholedig mewn perthynas ag Amser y Cyfarfodydd, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.
2. Ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, fydd cyfarfodydd ddim yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol, oni bai bod yna fater brys;
3. Cytuno ar y Calendr Cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer y Blwyddyn y Cyngor 2021-22, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.
4. Nodi bod y calendr yn destun newid, yn seiliedig ar ofynion busnes dros flwyddyn nesaf y Cyngor. Caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu gwneud ar y cyd â chadeiryddion y pwyllgorau priodol.

14 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-2021: TROSOLWG A CHRAFFU

Derbyniodd yr Aelodau Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Adams (Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu) a gyflwynodd yr adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/2021.

Yn dilyn trafodaeth, a diolch yn gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant i'w pwyllgorau, gan gynnwys yr Aelodau Cyfetholedig Addysg, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 26 Mai 2021 am 5.00 pm

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hughes	Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd H Boggis	Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Bradwick	Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Calvert	Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd A Crimmings	Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd G Davies	Y Cynghorydd L De Vet
Y Cynghorydd S Rees	Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S Evans	Y Cynghorydd S.Evans
Y Cynghorydd M Forey	Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd M Webber	Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd M Weaver	Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Walker	Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd P Howe	Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd R Yeo	Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd G Thomas	Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G Stacey	Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon	Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd S Powell	Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd W Owen	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd E Stephens	Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd G Jones	Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd W Jones	Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd L Hooper	Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd D Grehan	Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd H Fychan	Y Cynghorydd J Davies
Y Cynghorydd J Cullwick	Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd A Chapman	Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd S Trask	Y Cynghorydd R Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned

15 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, A Davies-Jones, M Fidler Jones, K L Jones, J James, M Griffiths, S Pickering, S Rees-Owen, M Tegg, R K Turner, J Williams a C Willis.

16 Croeso i Aelodau Newydd

Estynnodd y Llywydd groeso i ddau Aelod newydd y Cyngor, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Trask ac R Williams.

17 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 2

ARIANNU RHAGLEN GYFALAF YSGOLION YR 21AIN GANRIF GAN DDEFNYDDIO AMODAU BENTHYCA DARBODUS

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at ei gollyngiad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar y 29 Tachwedd 2019 gan ddarparu "gollyngiad i'r aelod siarad a phleidleisio ar bob mater trwy gydol proses Cyllideb 2021-22, a'i mabwysiadu, yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd yr Wrthblaid."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams - "Mae fy merch yn mynychu YG Rhydywaun"

18 Rheol Dull Gweithredu'r Cyngor 15.1

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu y niferoedd a oedd yn bresennol ar gyfer pob un o'r Grwpiau Gwleidyddol fel a ganlyn: -

Grŵp Llafur - 38 aelod
Grŵp Plaid Cymru - 14 aelod
Grŵp Ceidwadol - 2 aelod
Grŵp Annibynnol RhCT - 4 aelod

19 Ariannu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Trwy Ddefnyddio Amodau Benthycia Darbodus (Prudential Borrowing)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gwerth £12.135 miliwn i gynyddu'r capasiti a gwella'r cyfleusterau addysgol yn Ysgol Gyfun Rhydywaun. Gofynnodd yr adroddiad hefyd am gytundeb i ariannu'r prosiect trwy Grant Band B Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Llywodraeth Cymru, ac i ariannu cyfraniad y Cyngor drwy fenthyciad gan ddefnyddio ei bwerau o dan y Cod Darbodus.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i gynnwys bloc addysgu newydd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun yn y rhaglen gyfalaf am gyfanswm o £12.135 miliwn.
2. Cytuno y caiff cost cyfalaf net y Cyngor o £4.247 miliwn ei ariannu trwy fenthycia, gan ddefnyddio pwerau'r Cyngor o dan y Cod Darbodus, gyda'r gost refeniw flynyddol o £0.159 miliwn yn cael ei thalu o arbedion sy'n deillio o hyn a chynlluniau ad-drefnu ysgolion blaenorol eraill.

(**Nodyn:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater)

20 **Hepgor Rheol Presenoldeb 6 Mis y Cynghorwyr**

Twy ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democratiaidd a Chyfathrebu i'r Cyngor ystyried rhoi caniatâd i fod yn absennol o holl gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau i'r Cynghorydd Clayton Willis oherwydd ei salwch presennol. Byddai'r caniatâd i fod yn absennol, yn unol ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, am gyfnod o hyd at chwe mis yn gorffen ar 26 Tachwedd 2021 neu nes i'r Cynghorydd Willis ailafael yn y cyfarfodydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cyfathrebu cyson wedi bod gyda theulu'r Cynghorydd Willis a gyda'i Arweinydd Grŵp, ac ar ôl hynny, penderfynwyd ei bod yn briodol ceisio caniatâd y cyngor ar gyfer y rheol chwe mis.

Yn dilyn trafodaeth a chais am anfon dymuniadau gorau'r Cyngor i deulu'r Cynghorydd Willis, **PENDERFYNWYD** rhoi'r y caniatâd hwnnw i fod yn absennol o holl gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor i'r Cynghorydd Clayton Willis oherwydd ei salwch presennol am gyfnod o hyd at chwe mis, yn gorffen ar 26 Tachwedd 2021, neu nes iddo ailafael yn y cyfarfodydd os yw hynny'n gynt, yn unol ag Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(**Nodyn:** roedd Grŵp Annibynnol RhCT yn dymuno ymatal rhag pleidleisio ar y mater ond roedden nhw'n dymuno estyn eu dymuniadau gorau i'r Cynghorydd C Willis a'i deulu).

21 **Amrywiaeth mewn Democratiaeth**

10. O ran nifer yr etholwyr fesul cynghorydd ym mhob ward etholiadol, ceir amrywiant eang oddi wrth y cyfartaledd sirol presennol, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd, yn amrywio o 39% yn is (1,399 o etholwyr) (Rhigos) i 108% yn uwch (4,790 o etholwyr) (Gorllewin Tonyrefail). Mae pennu maint y cyngor uchod yn arwain at gyfartaledd o 2,302 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan bob cynghorydd.
11. Yn ei ystyriaethau, ystyriodd y Comisiwn gymhareb yr etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr i'w hethol, gyda'r nod o gynnig newidiadau er mwyn sicrhau y bydd nifer yr etholwyr llywodraeth leol yr un fath, neu mor agos ag y bo modd, ym mhob ward yn y brif ardal. Ystyriwyd maint a chymeriad y cyngor ac ystod eang o ffactorau eraill, gan gynnwys topograffeg leol, cysylltiadau ffordd a chysylltiadau lleol.

Barn a Chydbwysedd

12. Wrth lunio cynllun o drefniadau etholiadol, rhaid i'r Comisiwn ystyried nifer o faterion a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth. Yn y cynllun argymelledig mae'r Comisiwn wedi rhoi pwyslais ar gyflawni gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol, wrth gynnal cysylltiadau cymunedol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r Comisiwn wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wardiau etholiadol diwygiedig, ym marn y Comisiwn, yn gyfuniadau priodol o gymunedau a wardiau cymunedol presennol.
13. Mewn rhai ardaloedd, oherwydd nifer yr etholwyr mewn cymuned neu ward gymunedol, mae'r Comisiwn wedi ystyried cadw neu greu wardiau aml-aelod er mwyn cyflawni lefelau priodol o gydraddoldeb etholiadol. Mae'r mater hwn yn aml yn codi mewn ardaloedd trefol lle mae nifer yr etholwyr yn rhy uchel i ffurfio ward un aelod. Gallai godi hefyd mewn ardaloedd mwy gwledig lle y byddai creu wardiau un aelod yn arwain at amrywiannau sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod yr arfer sefydledig o gael wardiau aml-aelod ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac adlewyrchir hyn yng nghynigion y Comisiwn.
14. Mae'r Comisiwn wedi edrych ar bob ardal ac mae'n fodlon y byddai'n anodd cyflawni trefniadau etholiadol sy'n cadw cyfuniad presennol y cymunedau a'r wardiau cymunedol heb gael effaith niweidiol ar un neu fwy o'r materion eraill y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried.

Enwau Wardiau Etholiadol

15. Mae'r Comisiwn yn enwi wardiau etholiadol ac nid y lleoedd o fewn y wardiau etholiadol arfaethedig. Wrth greu'r argymhellion terfynol hyn, mae'r Comisiwn wedi ystyried enwau'r holl wardiau etholiadol a gynigiwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle bo'n briodol. Ar gyfer yr argymhellion terfynol hyn, mae'r Comisiwn wedi ystyried enwau naill ai wardiau etholiadol neu gymunedau sy'n ymddangos mewn Gorchmynion, lle maent yn bodoli; y rheiny a argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg; ac yn y cynrychiolaethau a dderbyniodd.
16. Ymgynghorodd y Comisiwn â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag addasrwydd yr enwau yn eu ffurf ddrafft cyn cyhoeddi'r argymhellion terfynol hyn, gyda ffocws arbennig ar yr enwau Cymraeg. Mae hyn yn cydnabod cyfrifoldeb y Comisiynydd iaith i gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg, a gwybodaeth arbenigol yn y maes. Rhaid nodi'n glir nad yw'r argymhellion hyn yn gynigion ar gyfer gwneud newidiadau i unrhyw enwau lleoedd. Ym mhob argymhelliad, dynodir beth yw enw amgen argymelledig Comisiynydd y Gymraeg a, lle mae'n gwahaniaethu, yr argymhelliad penodol a pham mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig enw amgen i enw argymelledig y Comisiwn.

Trefniadau Cynghorau Cymuned a Thref

17. Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion drafft, a oedd yn cynnwys camddealltwriaeth o ran cwmpas yr arolwg. Dymuna'r Comisiwn, felly, dynnu sylw at y ffaith mai nod yr arolwg hwn o drefniadau etholiadol yw gwneud gwelliannau i gynrychiolaeth etholiadol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r broses hon, ac eithrio fel y disgrifir yn benodol ym Mhennod 7, yn annibynnol ar unrhyw newidiadau i drefniadau'n ymwneud â chynghorau cymuned neu dref. Lle defnyddir cyfuniadau o gymunedau i greu wardiau etholiadol unigol, bydd y cymunedau unigol dan sylw yn cadw eu trefniant cyngor cymuned presennol. Bydd y cynghorau hyn yn aros yn annibynnol yn dilyn canlyniad yr arolwg hwn, bydd unrhyw braeseptau a grëir neu asedau a gynhwysir o fewn cyngor cymuned, yn aros yn rhan o'r cyngor cymuned hwnnw.

18. Ymdrinnir â newidiadau i drefniadau cymunedol dan ran ar wahân o'r ddeddfwriaeth, fel rhan o arolwg cymunedol a fyddai dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Pennod 5. YR ARGYMHELLION TERFYNOL

19. Mae argymhellion y Comisiwn yn cael eu disgrifio'n fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob cynnig newydd, mae'r adroddiad yn amlinellu:
- Enw(au)'r wardiau etholiadol presennol sy'n ffurfio'r ward argymelledig yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
 - Disgrifiad byr o'r wardiau etholiadol presennol o ran nifer yr etholwyr nawr a'r nifer a ragamcenir, a chanran eu hamrywiant o'r cyfartaledd sirol argymelledig;
 - Y prif ddadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad drafft (os oedd rhai). Er na sonnir am yr holl gynrychiolaethau yn yr adran hon, mae pob un o'r cynrychiolaethau wedi cael ystyriaeth a gellir gweld crynodeb yn Atodiad 5;
 - Barnau'r Comisiwn;
 - Cyfansoddiad y ward etholiadol argymelledig a'r enw argymelledig;
 - Map o'r ward etholiadol argymelledig (gweler yr allwedd ar dudalen 11).

Wardiau Etholiadol Cadwedig

20. Mae'r Comisiwn wedi ystyried trefniadau etholiadol y wardiau etholiadol presennol a chymhareb yr etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr i'w hethol. Argymhellir y dylid cadw'r trefniadau presennol yn y wardiau etholiadol canlynol. Mae'r enwau a ddangosir mewn **teip trwm** yn y rhestr isod yn dynodi'r wardiau etholiadol y mae eu daearyddiaeth a'u henwau ward etholiadol presennol wedi cael eu rhagnodi o fewn Gorchmynion, ac y mae'r Comisiwn yn argymhell eu cadw.

- | | |
|-------------------------------|-----------------------------|
| • Abercynon | • Pen-y-Graig |
| • Dwyrain Aberdâr | • Pen-y-Waun |
| • Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed | • Tref Pontypridd |
| • Cilfynydd | • Porth |
| • Cwm Clydach | • Ffynnon Taf |
| • Gilfach-goch | • Trefforest |
| • Glyncoch | • Tonypandy |
| • Llanilltud Faerdref | • Dwyrain Tonyrefail |
| • Penrhiwceibr | • Trallwng |
| • Pentre | • Treherbert |


21. Er bod y Comisiwn yn argymhell cadw'r trefniadau daearyddol yn y wardiau etholiadol a restrir uchod, mae'n argymhell cyflwyno enwau ward etholiadol newydd ar gyfer y canlynol (mae enwau a ddangosir mewn **teip trwm** trwy gydol gweddill yr adroddiad hwn yn dynodi enwau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol):

- I. Ward Etholiadol Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed i gael yr enw Cymraeg **Gorllewin Aberdâr a Llwydcoed**; a'r enw Saesneg **Aberdare West and Llwydcoed**. Ystyriwyd yr enw gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n cytuno â'r enw arfaethedig.
- II. Ward Etholiadol Gilfach Goch i gael yr enw unigol **Gilfach-goch**. Ystyriwyd yr enw gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n cytuno â'r enw arfaethedig.

- III. Ward Etholiadol Glyncoch i gael yr enw unigol **Glyn-coch**. Ystyriwyd yr enw gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n cytuno â'r enw arfaethedig.
 - IV. Ward Etholiadol Penrhiwceiber i gael yr enw unigol **Penrhiw-ceibr**. Ystyriwyd yr enw gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n cytuno â'r enw arfaethedig.
 - V. Ward Etholiadol Pen-y-Graig i gael yr enw unigol **Pen-y-graig**. Ystyriwyd yr enw gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n cytuno â'r enw arfaethedig.
 - VI. Ward Etholiadol Pen-y-Waun i gael yr enw unigol **Pen-y-waun**. Ystyriwyd yr enw gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n cytuno â'r enw arfaethedig.
 - VII. Ward Etholiadol Ffynnon Taf i gael yr enw Cymraeg **Ffynnon Taf**; a'r enw Saesneg **Taff's Well**. Ystyriwyd yr enw gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n cytuno â'r enw Cymraeg arfaethedig.
22. Yn ei Adroddiad Cynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Graig a Threfforest i ffurfio ward etholiadol â'r enw Graig a Threfforest. Yng ngolau'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mae'r Comisiwn wedi argymhell cadw'r trefniadau presennol ar gyfer Trefforest.
23. Yn ei Adroddiad Cynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn rannu ward etholiadol Pentre yn ddwy ward ag un aelod, sef Pentre a Thonpentre. Yng ngolau'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mae'r Comisiwn wedi argymhell cadw'r trefniant presennol ar gyfer Pentre.

Wardiau Etholiadol Arfaethedig

24. Ystyriodd y Comisiwn newidiadau i'r wardiau etholiadol sy'n weddill. Ceir manylion am y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 2. Mae trefniadau argymelledig y Comisiwn i'w gweld yn Atodiad 3.




Cymer, Graig a'r Rhondda

25. Mae ward etholiadol bresennol y Cymer yn cynnwys Cymunedau'r Cymer a Threhafod. Mae ganddi 3,971 o etholwyr (rhagamcendir 4,012 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 14% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 4,417 o bleidleiswyr cymwys.
26. Mae ward etholiadol bresennol Graig yn cynnwys ward Graig yn Nhref Pontypridd. Mae ganddi 1,853 o etholwyr (rhagamcendir 1,910 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 20% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 1,901 o bleidleiswyr cymwys.
27. Mae ward etholiadol bresennol Rhondda yn cynnwys ward Rhondda yn Nhref Pontypridd. Mae ganddi 3,481 o etholwyr (rhagamcendir 3,520 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 24% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,703 o bleidleiswyr cymwys.
28. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn drosglwyddo ardal Trehafod o ward Rhondda i ward etholiadol y Cymer, a rhan o Faes-y-coed o ward Rhondda i ward Graig fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng nghanam yr Ymgynghoriad Cychwynnol. Cynigiodd y Comisiwn gyfuno ward ganlyniadol Graig gyda ward Trefforest.
29. Derbyniodd y Comisiwn bump o gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft mewn perthynas â'r ardal hon gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd Eleri Griffiths (Rhondda), Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf, Cynghorydd Tref Pontypridd Jeffrey Baxter (Canol Rhydfelen) ac un o drigolion Maes-y-coed.
30. Roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chynghorydd Tref Pontypridd Jeffrey Baxter yn cefnogi Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Rhondda a Chymer, ond dywedont eu bod yn ffafrio cadw'r trefniadau presennol ar gyfer wardiau etholiadol Graig a Threfforest.
31. Awgrymodd y Cynghorydd Eleri Griffiths (Rhondda) y byddai cyfuno wardiau etholiadol Graig a Rhondda yn fwy rhesymegol na'r cynnig i gyfuno Graig a Threfforest. Fodd bynnag, dywed y Cynghorydd Griffiths fod hwn yn ateb llai na delfrydol oherwydd natur wahanol iawn Graig a Maes-y-coed, a bod ffin naturiol ar hyd gwaelod y dyffryn rhwng Graig a Maes-y-coed, y byddai cynnig y Comisiwn yn torri ar ei draws.
32. Roedd Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf yn cefnogi cynnig y Comisiwn i uno Cymuned Trehafod gyda ward etholiadol y Cymer, a'r cynnig i drosglwyddo rhan o Faes-y-coed i ward Graig er mwyn gwella amrywiant etholiadol. Fodd bynnag, roedd y Grŵp yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno wardiau etholiadol Graig a Threfforest. Dywedodd y Grŵp Llafur ei fod yn ffafrio i bob ward gadw ei chynrychiolaeth unigol, ac awgrymodd hefyd ail-enwi ward etholiadol Rhondda yn 'De Pontypridd' er mwyn osgoi dryswch gydag etholaeth Rhondda ac i gryfhau'r ymdeimlad o hunaniaeth sydd gan drigolion â Phontypridd.
33. Roedd y trigolyn o Faes-y-coed yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i drosglwyddo rhan o Faes-y-coed o ward etholiadol Rhondda i ward etholiadol Graig, ac yna i gyfuno ward etholiadol ganlyniadol Graig gyda Threfforest. Dywedodd y trigolyn mai llawr y dyffryn rhwng y ddwy ardal fu'r nodwedd rannu rhwng Maes-y-coed a Graig erioed. Dywedodd y trigolyn ei fod yn ffafrio awgrym amgen y Cyngor Bwrdeistref Sirol i gyfuno wardiau etholiadol Graig a Rhondda,


a fyddai o leiaf yn cadw Maes-y-coed gyda'i gilydd hyd yn oed gyda'r gostyngiad mewn cynrychiolaeth.

34. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod y ffiniau fel y'u dangosir ar Dudalen 14 yn cael eu cymhwyso ar gyfer ward etholiadol y Cymer i ffurfio ward etholiadol â 4,222 o etholwyr (rhagamcener 4,259 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 8% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
35. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Cymer yn y Cynigion Drafft. Ystyriodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw a chynigiodd yr enw unigol Cymer, oherwydd dyma'r ffurf a argymhellir yn y fframwaith safonol cenedlaethol. Os yw'r gwahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg' yn fater o un neu ddwy lythyren yn unig, argymhellir defnyddio ffurf unigol, gan roi blaenoriaeth i'r ffurf Gymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion yr Arolwg Ordans a'r Awdurdodau Priffyrdd.
36. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Cymer** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
37. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod gweddill ward etholiadol Rhondda yn cael ei chyfuno gyda ward etholiadol Graig i ffurfio ward etholiadol â 5,083 o etholwyr (rhagamcener 5,179 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 10% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
38. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Y Graig a Gorllewin Pontypridd** i'r ward etholiadol argymelledig; a'r enw Saesneg **Graig and Pontypridd West**, ar sail cynrychiolaeth a dderbyniwyd gan Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
39. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r argymhelliad a wnaed gan y Cynghorydd Griffiths (Rhondda), sef y cynrychiolaethau eraill a dderbyniwyd. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r cynllun hwn sy'n mynd i'r afael orau â'r lefelau amrywiant etholiadol presennol, mae'n cadw cyfran sylweddol o'r trefniadau presennol ac yn mynd i'r afael â nifer o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.
40. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y byddai ward etholiadol **Trefforest** yn cadw lefel amhriodol o amrywiant etholiadol, fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn o'r farn y dylai natur ward etholiadol Trefforest arwain at yr ardal yn cadw ei chynrychiolaeth unigol.
41. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
42. Mae'r Comisiwn wedi argymhell newidiadau hefyd i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Tref Pontypridd, y gellir eu gweld ym Mhennod 7.

Y Cymer



Y Graig a Gorllewin Pontypridd




Y Ddraenen Wen a Chanol Rhydfelen/Ilan

43. Mae ward etholiadol bresennol y Ddraenen Wen yn cynnwys wardiau y Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf yn Nhref Pontypridd. Mae ganddi 3,116 o etholwyr (rhagamcendir 3,116 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 35% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,138 o bleidleiswyr cymwys.
44. Mae ward etholiadol bresennol Canol Rhydfelen/Ilan yn cynnwys wardiau Ilan a Chanol Rhydfelen yn Nhref Pontypridd. Mae ganddi 3,033 o etholwyr (rhagamcendir 3,035 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 32% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,435 o bleidleiswyr cymwys
45. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn greu ward etholiadol newydd ag un aelod yn cwmpasu ardal Canol Rhydfelen trwy ddefnyddio elfennau o wardiau etholiadol presennol y Ddraenen Wen a Chanol Rhydfelen fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
46. Derbyniodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft mewn perthynas â'r ardal hon gan y Cynghorydd Martin Fidler-Jones (Y Ddraenen Wen) a'r Cynghorydd Maureen Webber (Canol Rhydfelen).
47. Roedd y Cynghorydd Martin Fidler-Jones (Y Ddraenen Wen) yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer yr ardal, a dywedodd nad oedd y cynigion yn gwneud unrhyw ddefnydd o ffiniau naturiol ac y byddai'n amhosibl eu disgrifio i drigolion wrth symud ymlaen. Awgrymodd y Cynghorydd Fidler-Jones, os yw'r Comisiwn yn parhau â'i gynigion, yna dylai ward etholiadol Y Ddraenen Wen gael ei hail-enwi yn 'Y Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf' / 'Hawthorn and Lower-Rhydfelen' er mwyn cydnabod y gyfran sylweddol o Rydfelen Isaf sy'n eistedd o fewn y ward ddiwygiedig. Cynigiodd y Cynghorydd Fidler-Jones bod y newidiadau i'r ffin a gyflwynwyd ganddo yn y cam cychwynnol yn cael eu dwyn yn eu blaen fel dewis amgen i Gynigion Drafft y Comisiwn.
48. Roedd y Cynghorydd Maureen Webber (Canol Rhydfelen) yn cefnogi Cynigion Drafft y Comisiwn. Cynghorydd y Cynghorydd Webber bod yr aelodau etholedig lleol ar Gyngor Tref Pontypridd a'r Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf yn gwbl gefnogol i'r cynigion. Ysgrifennodd y Cynghorydd Webber hefyd fod trigolion yn falch y bydd Rhydfelen yn cael ei chynabod fel ward etholiadol nawr, gan y teimlai llawer nad oedd yn gyson â'r Ddraenen Wen.
49. Mae'r Comisiwn yn argymhell cymhwyso'r ffiniau fel y'u cynigiwyd yn y cam Drafft ac a ddangosir ar dudalen 18 i ffurfio ward etholiadol un aelod newydd sy'n cynnwys 1,949 o etholwyr (rhagamcendir 1,949 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 15% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
50. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Canol Rhydfelen; a'r enw Saesneg Rhydfelen Central. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enwau.
51. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Canol Rhydfelen**, a'r enw Saesneg **Rhydfelen Central** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
52. Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn argymhell bod y rhan sy'n weddill o ward etholiadol y Ddraenen Wen yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 1,803 o etholwyr (rhagamcendir 1,805


o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 22% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.

53. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Y Ddraenen Wen; a'r enw Saesneg Hawthorn yn Cynigion Drafft. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Derbyniodd y Comisiwn un gynrychiolaeth mewn perthynas â'r enw gan y Cyngorydd Martin Fidler-Jones. Argymhellodd y Cyngorydd Fidler-Jones ddefnyddio'r enw *Hawthorn and Lower Rhydfelen*.
54. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf**, a'r enw Saesneg **Hawthorn and Lower Rhydfelen** i'r ward etholiadol argymelledig. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
55. Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn argymhell bod y rhan sy'n weddill o ward etholiadol Canol Rhydfelen/Ilan yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 2,397 o etholwyr (rhagamcenir 2,397 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cyngorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 4% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
56. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg **Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf**; a'r enw Saesneg **Upper Rhydfelen and Glyn-taf**. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enwau hyn.
57. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r argymhelliad a wnaed yn y cyfnod ymgynghori cychwynnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a gefnogwyd gan y Cyngorydd Maureen Webber (Canol Rhydfelen) a'r gwelliant mewn cydraddoldeb etholiadol. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r cynllun hwn sy'n mynd i'r afael orau â'r lefelau amrywiant etholiadol presennol yn yr ardal.
58. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
59. Mae'r Comisiwn wedi argymhell newidiadau hefyd i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Tref Pontypridd, y gellir eu gweld ym Mhennod 7.


Canol Rhydfelen



Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf




Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf



Ynysybwl

60. Mae ward etholiadol bresennol Ynysybwl yn cynnwys Cymuned Ynysybwl a Choed-y-cwm. Mae ganddi 3,457 o etholwyr (rhagamcenir 3,485 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 50% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,619 o bleidleiswyr cymwys.
61. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn bod Cymuned Ynysybwl a Choed-y-cwm yn cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd (sef un yn fwy) i ffurfio ward etholiadol â dau aelod.
62. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon.
63. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymuned Ynysybwl a Choed-y-cwm yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 3,457 o etholwyr (rhagamcenir 3,485 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd (sef un yn fwy), yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 25% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
64. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Ynysybwl. Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw unigol Ynys-y-bwl. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg bod y cysylltnod yn cael ei ddefnyddio mewn enwau lleoedd Cymraeg pan fo'r fannod (y/yr) yn ymddangos cyn yr unsillaf olaf; defnyddir cysylltnodau cyn ac ar ôl y fannod i amlygu'r elfennau unigol a helpu i ynganu'r enw. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol Ynysybwl i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
65. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai darparu cynghorydd ychwanegol i Ynysybwl yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r lefel amhriodol o amrywiant a geir yn y ward ar hyn o bryd.
66. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Ynysybwl




Pentre'r Eglwys a Thon-teg


67. Mae ward etholiadol bresennol Pentre'r Eglwys yn cynnwys ward Pentre'r Eglwys yng Nghymuned Llanilltud Faerdref. Mae ganddi 4,313 o etholwyr (rhagamcener 4,350 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 87% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,898 o etholwyr cymwys.
68. Mae ward etholiadol bresennol Ton-teg yn cynnwys ward Ton-teg yng Nghymuned Llanilltud Faerdref. Mae ganddi 3,222 o etholwyr (rhagamcener 3,222 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 30% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,282 o bleidleiswyr cymwys.
69. Yn ei Gynigion Drafft, mabwysiadodd y Comisiwn y cynnig a wnaed iddo gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd yn cynnig aildrefnu'r ffin rhwng wardiau Pentre'r Eglwys a Thon-teg er mwyn trosglwyddo'r ardal a adwaenir fel 'Pentre'r Eglwys Uchaf' i ward etholiadol Pentre'r Eglwys. Mae'r cynnig hwn yn trosglwyddo 720 o etholwyr i ward etholiadol Pentre'r Eglwys. Hefyd, cynigiodd y Comisiwn ddyrannu cynghorydd ychwanegol i ward Pentre'r Eglwys i ffurfio ward etholiadol â dau aelod.
70. Derbyniodd y Comisiwn dair cynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon gan: Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref) a'r Cynghorydd Lewis Hooper (Ton-teg).
71. Roedd yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn cefnogi'r Cynnig Drafft. Roedd cyflwyniad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn cefnogi'r cynnig, fodd bynnag, roedd yn cynnwys sylwadau gan y Cynghorydd Lewis Hooper. Gofynnodd y Cynghorydd Hooper am eglurhad nad oedd y newid i'r ffin a gynigiwyd gan y Comisiwn yn trosglwyddo ardaloedd Bryn Rhedyn, The Rise a rhan fach o Bentre'r Eglwys o Don-teg. Roedd y Cynghorydd Joel James yn gefnogol i Gynigion Drafft y Comisiwn, ar yr amod eu bod yn cadw at y newid i'r ffin y gofynnodd y Cynghorydd Lewis Hooper amdano.
72. Mae'r Comisiwn yn argymhell aildrefnu ffin ward etholiadol Pentre'r Eglwys fel y cynigiwyd yn ei Gynigion Drafft (ac a ddangosir ar dudalen 25) i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 5,033 o etholwyr (rhagamcener 5,070 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd (sef un yn fwy), yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 9% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
73. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Pentre'r Eglwys; a'r enw Saesneg Church Village. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw.
74. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Pentre'r Eglwys**, a'r enw Saesneg **Church Village** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
75. Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn cynnig y byddai gweddill ward etholiadol Ton-teg, fel y dangosir ar dudalen 26, yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 2,502 o etholwyr (rhagamcener 2,502 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd (sef un yn llai), yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 9% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.

76. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Ton-teg. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw.
77. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Ton-teg** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
78. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer gwelliant sylweddol mewn cydraddoldeb etholiadol. Mae'r Comisiwn o'r farn hefyd y byddai'r ward yn adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol presennol.
79. Mae'r Comisiwn wedi argymell y ffiniau fel yr awgrymwyd yn wreiddiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r Cynghorydd Lewis Hooper.
80. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
81. Mae'r Comisiwn wedi argymell newidiadau hefyd i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Tref Pontypridd, y gellir eu gweld ym Mhennod 7.

Pentre'r Eglwys




Ton-teg



Beddau a Thyn-y-nant

82. Mae ward etholiadol bresennol Beddau yn cynnwys ward Beddau yng Nghymuned Llantrisant. Mae ganddi 3,167 o etholwyr (rhagamcendir 3,174 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 38% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,575 o bleidleiswyr cymwys.
83. Mae ward etholiadol bresennol Tyn-y-nant yn cynnwys ward Tyn-y-nant yng Nghymuned Llantrisant. Mae ganddi 2,414 o etholwyr (rhagamcendir 2,414 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 5% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,657 o bleidleiswyr cymwys.
84. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Beddau a Thyn-y-nant i ffurfio ward etholiadol â dau aelod fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
85. Cafodd y Comisiwn un gynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon gan Gyngor Cymuned Llantrisant.
86. Cynigiodd Cyngor Cymuned Llantrisant gynnwys (trydydd) aelod ychwanegol i ward etholiadol arfaethedig Beddau a Tyn-y-nant i adlewyrchu'r datblygiad tai sy'n ehangu yn yr ardal.
87. Mae'r Comisiwn yn argymhell cyfuno wardiau etholiadol Beddau a Thyn-y-nant i ffurfio ward etholiadol yn cynnwys 5,581 o etholwyr (rhagamcendir 5,588 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 21% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
88. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Beddau a Thyn-y-nant a'r enw Saesneg Beddau and Tyn-y-nant. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
89. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Beddau a Thyn-y-nant** a'r enw Saesneg **Beddau and Tyn-y-nant** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
90. Mae'r Comisiwn o'r farn fod yr argymhelliad hwn yn darparu gwelliannau sylweddol i gydraddoldeb etholiadol ar gyfer yr ardal, gan gynnwys yr un lefel gynrychiolaeth.
91. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Llantrisant i gynnwys (trydydd) aelod ychwanegol yn y ward etholiadol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn fod y ward argymelledig yn darparu ateb priodol i amrywiant etholiadol yn y ward ac yn cynorthwyo'r Comisiwn wrth gyflawni'r Nod o ran Maint Cynghorau ar gyfer yr Arolwg.
92. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Beddau a Thyn-y-nant




Tref Llantrisant a Thonysguboriau

93. Mae ward etholiadol bresennol Tref Llantrisant yn cynnwys ward Tref Llantrisant yng Nghymuned Llantrisant. Mae ganddi 3,162 o etholwyr (rhagamcenir 3,247 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 37% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,935 o etholwyr cymwys.
94. Mae ward etholiadol bresennol Tonysguboriau yn cynnwys ward Tonysguboriau yng Nghymuned Llantrisant. Mae ganddi 1,956 o etholwyr (rhagamcenir 1,991 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 15% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,302 o etholwyr cymwys.
95. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Tref Llantrisant a Thonysguboriau i greu un ward etholiadol â dau aelod.
96. Cafodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon, gan: Gyngor Cymuned Llantrisant a'r Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref).
97. Awgrymodd Cyngor Cymuned Llantrisant fod ward etholiadol arfaethedig Tref Llantrisant a Thonysguboriau yn cael yr enw unigol Llantrisant.
98. Roedd y Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref) yn gefnogol at ei gilydd i Gynigion Drafft y Comisiwn ond gofynnodd am i ystyriaeth gael ei rhoi i gynnwys datblygiad Lanelay Hall o fewn y ward etholiadol. Dywedodd y Cynghorydd James bod mwyafrif trigolion Lanelay Hall yn nodi'u hunain fel trigolion o Donysguboriau ac nid Llanharan, sydd gryn bellter i ffwrdd.
99. Mae'r Comisiwn yn argymhell cyfuno wardiau Tref Llantrisant a Thonysguboriau yng Nghymuned Llantrisant i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 5,118 o etholwyr (rhagamcenir 5,238 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 11% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
100. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Tref Llantrisant a Thonysguboriau; a'r enw Saesneg Llantrisant Town and Talbot Green. Cynigiodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw Cymraeg Tonysguboriau. Derbyniodd y Comisiwn un gynrychiolaeth yn ymwneud â'r enw gan Gyngor Cymuned Llantrisant a gynigiodd bod yr enw unigol Llantrisant yn cael ei ddefnyddio.
101. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Llantrisant a Thonysguboriau** a'r enw Saesneg **Llantrisant and Talbot Green** i'r ward etholiadol argymelledig i adlewyrchu'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd a chynghor gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Thonysguboriau. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
102. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref) yn ymwneud a chynnwys datblygiad Lanelay Hall fel rhan o ward etholiadol argymelledig Tref Llantrisant a Thonysguboriau. Mae'r Comisiwn o'r farn, gan nad oes ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Argymhellion Terfynol, ei bod yn amhriodol cynnig newidiadau o'r fath a fyddai'n cynnwys ffiniau cymunedol allanol. Teimlai'r Comisiwn yr eid i'r afael orau â'r newid hwn fel rhan o arolwg cymunedol o dan Adran 31 y Ddeddf, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
103. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r ward argymelledig hon yn darparu gwelliant sylweddol mewn cydraddoldeb etholiadol. Mae'r Comisiwn o'r farn hefyd y byddai'r ward yn adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol presennol.

104. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Llantrisant a Thonysguboriau



This page has been left intentionally blank

Llanhari a Phont-y-clun


105. Mae ward etholiadol bresennol Llanhari yn cynnwys Cymuned Llanhari. Mae ganddi 3,121 o etholwyr rhagamcenir 3,167 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 36% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,999 o bleidleiswyr cymwys.
106. Mae ward etholiadol bresennol Pont-y-Clun yn cynnwys Cymuned Pont-y-Clun. Mae ganddi 6,014 o etholwyr (rhagamcenir 6,873 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 31% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 6,470 o bleidleiswyr cymwys.
107. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn drosglwyddo ward Tyle-Garw yng Nghymuned Llanhari i ward etholiadol Pont-y-clun i ffurfio ward etholiadol â thri aelod fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
108. Derbyniodd y Comisiwn 48 o gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon gan: Gyngor Cymuned Llanhari, Cyngor Cymuned Pont-y-clun, y Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref), y Cynghorydd Margaret Griffiths (Pont-y-clun), Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf a 43 o drigolion lleol.
109. Roedd Cyngor Cymuned Pont-y-clun a'r Cynghorydd Margaret Griffiths (Pont-y-clun) yn gefnogol at ei gilydd i Gynigion Drafft y Comisiwn ond gofynnont am i'r ward etholiadol gael ei rhannu yn dair ward etholiadol ag un aelod, sef Gorllewin Pont-y-clun, Canol Pont-y-clun a Dwyrain Pont-y-clun.
110. Cynigiodd y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Griffiths fod ward etholiadol Gorllewin Pont-y-clun yn cynnwys canol y dref a phentrefi Tyle-garw, Maesyfelin, Brynsadler a Thalygarn.
111. Byddai Canol Pont-y-clun yn gorwedd i'r Dwyrain o'r rheilffordd ac yn cynnwys eiddo ar Heol Llantrisant, yn cynnwys Ynys Ddu a thai oddi ar Heol Meisgyn, yn cynnwys pentref Meisgyn.
112. Byddai Dwyrain Pont-y-clun yn cynnwys anheddau yr eir iddynt o Ffordd Cefn yr Hendy a phentref Groes-faen. Byddai'r rhan fwyaf o'r tir â photensial datblygu ym Mhont-y-clun o fewn y ward hon.
113. Cynigiodd y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Griffiths hefyd y dylid enwi'r wardiau yn *Pontyclun* gan y derbynir y ffurf hon yn gyffredin yn lleol yn y ddwy iaith.
114. Roedd y Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref) yn cefnogi Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer yr ardal, ac mae'n cefnogi trosglwyddo Tyle-garw i Bont-y-clun. Nid oedd y Cynghorydd James yn cefnogi'r cynigion a roddwyd gerbron gan bartïon eraill i greu tair ward etholiadol ag un aelod ar gyfer ward etholiadol ddiwygiedig Pont-y-clun.
115. Roedd Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer yr ardal. Mae'r Grŵp Llafur yn cynnig bod ward etholiadol ddiwygiedig Pont-y-clun yn cael ei rhannu yn dair ward etholiadol ag un aelod ar gyfer Gorllewin Pont-y-clun, Canol Pont-y-clun a Dwyrain Pont-y-clun, fel yr awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun.
116. Cyflwynodd Cyngor Cymuned Llanhari a 40 o drigolion lleol Rhondda Cynon Taf lythyr pro-forma yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Roedd y pro-forma, a gyhoeddwyd gan Gyngor Cymuned Llanhari, yn dweud bod Cynigion Drafft y Comisiwn yn golygu trosglwyddo Ward Gymunedol Tyle-garw i Gyngor Cymuned Pont-y-clun ar gyfer cynrychiolaeth. Dywedodd y pro-forma y byddai hyn yn effeithio ar allu'r cyngor cymuned i ddarparu

gwasanaethau i'w drigolion ac y byddai praeseptau'r Dreth Gyngor o Dyle-garw yn cael eu casglu gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun yn y dyfodol. Soniodd y trigolion am nifer o ffactorau hefyd yn cynnwys cysylltiadau cymunedol, cysylltiadau hanesyddol a mentrau lleol fel rhesymau dros gadw Tyle-garw fel rhan o Gyngor Cymuned Llanhari.


117. Cyflwynodd tri o drigolion gynrychiolaethau yn cefnogi Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer Pont-y-clun.
118. Ymatebodd y Comisiwn yn unigol i'r llythyrau gwrthwynebu i egluro bod y cynigion a amlinellir yn yr Arolwg hwn ar gyfer wardiau etholiadol a chynrychiolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol yn unig, a bod Tyle-garw i aros yn rhan o Gymuned Llanhari. Cyhoeddodd y Comisiwn erthygl ar ei wefan hefyd, y tynnwyd sylw ato ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Comisiwn, er mwyn egluro'r sefyllfa. Ysgrifennodd y Comisiwn at y cynghorau cymuned i egluro'r cynigion a gofynnodd iddynt ddiweddarau'r wybodaeth yr oeddent wedi'i darparu i'w trigolion.
119. Mae'r Comisiwn yn argymhell cymhwyso'r ffiniau fel y'u disgrifiwyd ym mharagraff 94 uchod ac fel y dangosir ar dudalen 36 i ffurfio ward etholiadol â 1,778 o etholwyr (rhagamcener 2,631 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 23% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
120. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Dwyrain Pont-y-clun**, a'r enw Saesneg **Pont-y-clun East** i'r ward etholiadol argymelledig. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Derbyniodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth mewn perthynas ag enw'r ward gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun a'r Cynghorydd Margaret Griffiths (Pont-y-clun) a ofynnodd am i'r ffurf *Pontyclun* gael ei defnyddio yn y ddwy iaith. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
121. O ganlyniad, mae'r Comisiwn yn argymhell cymhwyso'r ffiniau fel y'u disgrifiwyd ym mharagraff 93 uchod ac fel y dangosir ar dudalen 37 i ffurfio ward etholiadol â 2,312 o etholwyr (rhagamcener 2,312 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sy'n bodloni'r cyfartaledd sirol argymelledig.
122. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Canol Pont-y-clun**, a'r enw Saesneg **Pont-y-clun Central** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Derbyniodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth mewn perthynas ag enw'r ward gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun a'r Cynghorydd Margaret Griffiths (Pont-y-clun) a ofynnodd am i'r ffurf *Pontyclun* gael ei defnyddio yn y ddwy iaith. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
123. O ganlyniad pellach, mae'r Comisiwn yn argymhell cymhwyso'r ffiniau fel y dangosir ar dudalen 38 a chyfuno'r ardal gyda ward Tyle-garw yng Nghymuned Llanhari i ffurfio ward etholiadol â 2,522 o etholwyr (rhagamcener 2,528 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 10% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
124. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Gorllewin Pont-y-clun**, a'r enw Saesneg **Pont-y-clun West** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Derbyniodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth mewn perthynas ag enw'r ward gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun a'r Cynghorydd Margaret Griffiths (Pont-y-clun) a ofynnodd am i'r ffurf *Pontyclun* gael ei defnyddio yn y ddwy iaith. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

125. Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn argymhell bod ward Llanhari yng Nghymuned Llanhari yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 2,523 o etholwyr (rhagamcenir 2,569 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 10% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
126. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Llanhari; a'r enw Saesneg Llanharry. Ystyriodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw a chynigiodd yr enw Cymraeg Llanhari, oherwydd Llanhari yw'r ffurf a argymhellir yn y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
127. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Llanhari**, a'r enw Saesneg **Llanharry** i'r ward etholiadol argymelledig. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
128. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun, y Cynghorydd Margaret Griffiths (Pont-y-clun) a thri o drigolion lleol a gynigiodd creu tair ward etholiadol ag un aelod ar gyfer Pont-y-clun.
129. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y trefniadau hyn yn darparu ar gyfer gwelliant mewn cydraddoldeb etholiadol ac y gallent ddarparu ar gyfer wardiau etholiadol effeithiol a allai adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol yn yr ardal.
130. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
131. Mae'r Comisiwn wedi argymhell newidiadau hefyd i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Tref Pont-y-clun, y gellir eu gweld ym Mhennod 7.
132. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig i gynnwys ward Tylegarw yng Nghymuned Llanhari mewn ward etholiadol gyda rhan o Gymuned Pont-y-clun. Fodd bynnag, y cynnig hwn yw'r unig ddewis amgen ymarferol i fynd i'r afael â'r lefel amhriodol bresennol o amrywiant etholiadol. Hoffai'r Comisiwn ailadrodd hefyd fod y trefniadau a gynigir yn yr adroddiad hwn ar gyfer wardiau etholiadol, ar gyfer cynrychiolaeth ar lefel Cyngor Bwrdeistref Sirol yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar drefniadau cymunedol presennol.


Dwyrain Pont-y-clun




Canol Pont-y-clun



Gorllewin Pont-y-clun



Llanhari




Bryнна a Llanharan

133. Mae ward etholiadol bresennol Bryнна yn cynnwys wardiau Bryнна a Llaniliad yng Nghymuned Llanharan. Mae ganddi 3,441 o etholwyr (rhagamcener 4,237 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 49% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,496 o bleidleiswyr cymwys.
134. Mae ward bresennol Llanharan yn cynnwys ward Llanharan yng Nghymuned Llanharan. Mae ganddi 2,730 o etholwyr (rhagamcener 2,783 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 19% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,717 o bleidleiswyr cymwys.
135. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn fod Cymuned gyfan Llanharan yn ffurfio ward etholiadol yn cael ei chynrychioli gan dri chynghorydd, yn gyson â chynnig amgen Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gyflwynwyd yng nghanam yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
136. Derbyniodd y Comisiwn chwe chynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon, gan: Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Cymuned Llanharan, y Cynghorydd Roger Turner (Bryнна), y Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref), Cynghorydd Cymuned Llanharan Jeff Williams a Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf.
137. Roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Cymuned Llanharan, y Cynghorydd Roger Turner a Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf i gyd yn gwrthwynebu Cynnig Drafft y Comisiwn i greu un ward â thri aelod ar gyfer Cymuned Llanharan. Eiriolodd yr holl ymatebwyr dros greu tair ward etholiadol ag un aelod ar gyfer wardiau cymunedol Bryнна, Llanharan a Llaniliad.
138. Gofynnodd y Cynghorydd Joel James (Llanilltud Faerdref) am i ystyriaeth gael ei rhoi i drosglwyddo datblygiad Lanelay Hall o Lanharan i ward etholiadol argymelledig Tref Llantrisant a Thonysguboriau gan iddo ddweud bod llawer o drigolion yn uniaethu'n agosach â Thonysguboriau na Llanharan, sydd gryn bellter i ffwrdd.
139. Roedd Cynghorydd Cymuned Llanharan Jeff Williams yn cefnogi Cynnig Drafft y Comisiwn ar gyfer yr ardal. Dywedodd y Cynghorydd Williams fod aelodau o Gyngor Cymuned Llanharan yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn rhedeg siop gymunedol sy'n rhoi ei henillion yn gyfartal ymhlith ardaloedd Bryнна, Bryncae, Llanharan ac Ynysmaerdy.
140. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymuned Llanharan yn ffurfio ward gymunedol â 6,171 o etholwyr (rhagamcener 7,020 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan dri chynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 11% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
141. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Bryнна a Llanharan; a'r enw Saesneg Bryнна and Llanharan. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
142. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Bryнна a Llanharan**, a'r enw Saesneg **Bryнна and Llanharan** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
143. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau i greu tair ward ag un aelod ar gyfer yr ardal, fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r lefel amrywiant yn ward arfaethedig Llaniliad, ar

38% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig, yn amhriodol. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r cynnig hwn sy'n darparu'r lefel cydraddoldeb orau ar gyfer yr ardal a byddai'n adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol presennol yn y ward.

144. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


Brynna a Llanharan



Gorllewin Tonyrefail

145. Mae ward etholiadol bresennol Gorllewin Tonyrefail yn cynnwys wardiau Penrhiw-fer, Tretomas a Thynybryn yng Nghymuned Tonyrefail. Mae ganddi 4,790 o etholwyr (rhagamcener 5,225 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 108% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 5,145 o bleidleiswyr cymwys.
146. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn bod ward etholiadol bresennol Gorllewin Tonyrefail yn ffurfio ward etholiadol gyda dau gynghorydd (sef un yn fwy) er mwyn gwella cydraddoldeb etholiadol fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
147. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon.
148. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward bresennol Gorllewin Tonyrefail yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 4,790 o etholwyr (rhagamcener 5,225 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd (sef un yn fwy), yn arwain at lefel cynrychiolaeth etholiadol sydd 4% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
149. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Gorllewin Tonyrefail; a'r enw Saesneg Tonyrefail West. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
150. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Gorllewin Tonyrefail**, a'r enw Saesneg **Tonyrefail West** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
151. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig hwn yn darparu gwelliant sylweddol i gynrychiolaeth etholiadol yn y ward etholiadol. Mae'r Comisiwn o'r farn hefyd fod y ward etholiadol arfaethedig yn adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol presennol yn yr ardal.
152. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Gorllewin Tonyrefail




Llwynypia, Trealaw ac Ystrad


153. Mae ward etholiadol bresennol Llwynypia yn cynnwys Cymuned Llwynypia. Mae ganddi 1,632 o etholwyr (rhagamceniir 1,713 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 29% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 1,858 o bleidleiswyr cymwys.
154. Mae ward etholiadol bresennol Trealaw yn cynnwys Cymuned Trealaw. Mae ganddi 2,809 o etholwyr (rhagamceniir 2,840 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 22% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,244 o bleidleiswyr cymwys.
155. Mae ward etholiadol bresennol Ystrad yn cynnwys Cymuned Ystrad. Mae ganddi 4,248 o etholwyr (rhagamceniir 4,266 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 8% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 4,630 o bleidleiswyr cymwys.
156. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn ehangu ffiniau ward bresennol Llwynypia i gynnwys rhannau o wardiau etholiadol Trealaw ac Ystrad fel yr awgrymwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
157. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon.
158. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ffiniau ward etholiadol Llwynypia yn cael eu hymestyn fel y dangosir ar dudalen 49 i ffurfio ward etholiadol yn cynnwys 2,374 o etholwyr (rhagamceniir 2,459 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 3% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
159. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Llwynypia. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
160. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Llwynypia** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
161. Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn argymhell bod gweddill Cymuned Trealaw yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 2,511 o etholwyr (rhagamceniir 2,542 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 9% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
162. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Trealaw yn y Cynigion Drafft. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
163. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Trealaw** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
164. Mae'r Comisiwn, o ganlyniad pellach, yn argymhell bod gweddill Cymuned Ystrad yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 3,804 o etholwyr (rhagamceniir 3,822 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 17% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.

165. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Ystrad yn y Cynigion Drafft. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
166. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Ystrad** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
167. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig hwn yn gyson â chynnig mwyafrif o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig ac mae'n darparu gwelliannau i amrywiant etholiadol yn yr ardal. Mae'r ward arfaethedig yn adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol presennol yn yr ardal.
168. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
169. Mae'r Comisiwn wedi argymell newidiadau hefyd i'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd Cymunedol Llwynypia, Trealaw ac Ystrad, y gellir eu gweld ym Mhennod 7.

Trealaw



Ystrad




This page is intentionally blank

Treorci

170. Mae ward etholiadol bresennol Treorci yn cynnwys Cymuned Treorci. Mae ganddi 5,652 o etholwyr (rhagamcenir 5,750 o etholwyr) a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 18% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 6,118 o bleidleiswyr cymwys.
171. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli ward etholiadol Treorci o dri i ddau fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn y cam cychwynnol.
172. Derbyniodd y Comisiwn dair cynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal gan: Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Leanne Wood AC a grŵp Plaid Cymru Rhondda.
173. Roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwrthwynebu'r gostyngiad mewn cynrychiolaeth yn ward etholiadol Treorci.
174. Roedd Leanne Wood AC yn gwrthwynebu'r gostyngiad mewn cynrychiolaeth yn ward etholiadol Treorci ar y sail y byddai'n creu sefyllfa lle mae'r ward wedi'i thangynrychioli 24%, ac nid felly y mae hi ar hyn o bryd. Gofynnodd Ms Wood am i'r Comisiwn ailystyried ei gynigion ar gyfer y ward hon, a chadw'r trefniant tri aelod presennol.
175. Roedd Grŵp Plaid Cymru Rhondda yn gwrthwynebu'r gostyngiad mewn cynrychiolaeth yn ward etholiadol Treorci. Cred y grŵp y bydd colli un cynghorydd yn ward Treorci yn achosi baich gormodol ar y ddau gynghorydd sy'n cynrychioli'r ardal.
176. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymuned Treorci yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 5,652 o etholwyr (rhagamcenir 5,750 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd (sef un yn llai), yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 23% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
177. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Treorci; a'r enw Saesneg Treorchy. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
178. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Treorci**, a'r enw Saesneg **Treorchy** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
179. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd a'r cais i gadw'r trefniant tri aelod presennol yn ward etholiadol Treorci. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig hwn, a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr ymgynghoriad cychwynnol, yn darparu ar gyfer ward etholiadol effeithiol gyda chysylltiadau cyfathrebu, cymunedol a chymdeithasol da. Disgwylir i'r nifer ragamcanol o etholwyr ar gyfer y ward i gyflawni lefel gynrychiolaeth sydd 21% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y trefniant hwn yn darparu lefelau priodol o gydraddoldeb etholiadol ar gyfer yr ardal hon a'i fod yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Treorci




Tylorstown ac Ynys-hir

180. Mae ward etholiadol bresennol Tylorstown yn cynnwys Cymuned Tylorstown. Mae ganddi 2,981 o etholwyr (rhagamcenir 3,034 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 35% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,404 o bleidleiswyr cymwys.
181. Mae ward etholiadol bresennol Ynys-hir yn cynnwys Cymuned Ynys-hir. Mae ganddi 2,391 o etholwyr (rhagamcenir 2,398 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 4% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,649 o bleidleiswyr cymwys.
182. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Tylorstown ac Ynys-hir i ffurfio ward etholiadol â dau aelod fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn y cam cychwynnol.
183. Cafodd y Comisiwn saith cynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft ynglŷn â'r ardal gan: Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd Robert Bevan (Tylorstown), y Cynghorydd Darren Macey (Ynys-hir), grŵp Plaid Cymru Rhondda, grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf a ddau o drigolion Rhondda Fach.
184. Roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Dywedodd y Pwyllgor y dylai'r lefel gynrychiolaeth yn y wardiau hyn aros fel ag y mae ar hyn o bryd. Teimlai'r Pwyllgor y byddai lleihau nifer yr aelodau yn yr ardal yn andwyol i'r trigolion sy'n byw yn yr ardal oherwydd y cynnydd ym maint y wardiau arfaethedig a chan nad oes unrhyw gynghorau cymuned yn yr ardal. Teimlai'r Pwyllgor hefyd y gallai ysgolion lleol ddioddef a bod heb gynrychiolaeth cynghorydd ar eu cyrff llywodraethol yn y pen draw.
185. Roedd y Cynghorydd Robert Bevan (Tylorstown) yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Dywedodd y Cynghorydd Bevan fod trigolion yn ddibynnol iawn ar eu cyngor a'u cynghorwyr lleol am gymorth, ac y bydd Cynigion Drafft y Comisiwn yn arwain at ddieithrio pellach oddi wrth y broses ddemocrataidd. Cynigiodd y Cynghorydd Bevan fod Tylorstown yn cadw ei chynrychiolaeth dau aelod bresennol.
186. Roedd y Cynghorydd Darren Macey (Ynys-hir) yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Roedd y Cynghorydd Macey yn cydnabod bod yna faterion yn ymwneud â nifer y trigolion a gynrychiolir gan bob cynghorydd ar hyn y bryd. Cynigiodd y Cynghorydd Macey bod Ynys-hir a Wattstown yn cael eu cynrychioli gan un cynghorydd; bod Tylorstown a Glynrhedynog yn cael eu cynrychioli gan dri chynghorydd; a bod Maerdy yn cael ei chynrychioli gan un cynghorydd.
187. Roedd Grŵp Plaid Cymru Rhondda yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Gofynnodd Grŵp Plaid Cymru Rhondda am i ward Ynys-hir gael ei chadw a gwneud newidiadau i wardiau Tylorstown a Glynrhedynog er mwyn cyflawni'r cymarebau pleidleiswyr a ddymunir.
188. Roedd Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Mae'r Grŵp yn cydnabod mai cyfuniad uniongyrchol rhwng Tylorstown ac Ynys-hir sy'n creu'r deilliant gorau o ran cynrychiolaeth etholiadol; dywed y Grŵp ei fod yn ffafrio cadw'r lefel gynrychiolaeth bresennol yn Rhondda Fach. Fodd bynnag, gan y byddai hyn yn broblemus wrth ystyried canllawiau'r Comisiwn, awgrymodd y Grŵp mai cynnig amgen fyddai lleihau Tylorstown i fod yn ward ag un aelod a chadw'r trefniadau presennol ar gyfer Ynys-hir.

189. Roedd un o drigolion Rhondda Fach yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Anogwyd y Comisiwn gan y trigolyn i ailystyried ei Gynigion Drafft a chadw'r trefniant presennol ar gyfer Ynys-hir. Awgrymodd y trigolyn y dylai Glynrhedynog a Blaenllechau gael cynghorydd, ac y dylai Tylorstown a Stanleytown gael cynghorydd, ynghyd â Phontygwaith a Phenrhys.
190. Roedd un o drigolion Rhondda Fach yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Mae'r trigolyn yn gwrthwynebu cyfuniad wardiau Tylorstown ac Ynys-hir gan fod Rhondda Fach yn ardal o amddifadedd gydag ond dwy is-ward heb fod yn yr ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru. Ardal Ynys-hir yw un o'r ardaloedd mwyaf amddifad, a thrwy ei chyfuno gydag ardal arall ag amddifadedd uchel, sef Tylorstown, byddai'n golygu bod dwy o'r wardiau mwyaf amddifad yng Nghymru yn cyfuno. Mae'r trigolyn yn gofyn sut mae'n gwneud synnwyr i gyfuno dwy ward o amddifadedd ac yna lleihau'r gynrychiolaeth. Teimla'r trigolyn eu bod eisoes yn byw mewn pentref anweledig.
191. Mae'r Comisiwn yn argymhell cyfuno Cymunedau Tylorstown ac Ynys-hir i greu ward etholiadol sy'n cynnwys 5,372 o etholwyr (rhagamcenir 5,432 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 17% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
192. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Rhondda Fach Isaf; a'r enw Saesneg Rhondda Fach Lower. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
193. Er na dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau'n ymwneud ag enw'r ward, fe wnaeth y Comisiwn gydnabod y cynrychiolaethau i gadw hunaniaethau'r wardiau yn yr ardal. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Tylorstown ac Ynys-hir**, a'r enw Saesneg **Tylorstown and Ynyshir** i'r ward etholiadol argymelledig. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
194. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn gwrthwynebu ei Gynigion Drafft a'r trefniadau amgen posibl ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn mai'r opsiwn hwn sy'n darparu'r trefniant gorau ar gyfer yr ardal tra hefyd yn mynd i'r afael ag amrywiant etholiadol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er bod y Comisiwn yn cydnabod y dadleuon i gadw'r gynrychiolaeth bresennol, teimlir mai cyfuno'r wardiau etholiadol sy'n darparu'r lefel fwyaf priodol o gydraddoldeb etholiadol ar gyfer yr ardal.
195. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig hwn, a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr ymgynghoriad cychwynnol, yn darparu ar gyfer trefniadau sydd yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Tylorstown ac Ynyshir




Glynrhedynog a'r Maerdy

196. Mae ward etholiadol bresennol Glynrhedynog yn cynnwys Cymuned Glynrhedynog. Mae ganddi 3,037 o etholwyr (rhagamcenir 3,072 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 34% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,369 o bleidleiswyr cymwys.
197. Mae ward etholiadol bresennol y Maerdy yn cynnwys Cymuned y Maerdy. Mae ganddi 2,287 o etholwyr (rhagamcenir 2,398 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 1% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,387 o bleidleiswyr cymwys.
198. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Glynrhedynog a'r Maerdy i greu ward etholiadol â dau aelod fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn y cam cychwynnol.
199. Derbyniodd y Comisiwn dair cynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal gan: Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd Darren Macey (Ynys-hir) a Grŵp Plaid Cymru Rhondda.
200. Roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Dywedodd y Pwyllgor y dylai'r lefel gynrychiolaeth yn y wardiau hyn aros fel ag y mae ar hyn o bryd. Teimlai'r Pwyllgor y byddai lleihau nifer yr aelodau yn yr ardal yn andwyol i'r trigolion sy'n byw yn yr ardal oherwydd y cynnydd ym maint y wardiau arfaethedig a chan nad oes unrhyw gynghorau cymuned yn yr ardal. Teimlai'r Pwyllgor hefyd y gallai ysgolion lleol ddioddef a bod heb gynrychiolaeth cynghorydd ar eu cyrff llywodraethol yn y pen draw.
201. Roedd y Cynghorydd Darren Macey (Ynys-hir) yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Mae'r Cynghorydd Macey yn cydnabod bod yna faterion yn ymwneud â nifer y trigolion a gynrychiolir gan bob cynghorydd ar hyn y bryd. Mae'r Cynghorydd Macey yn cynnig bod Ynys-hir a Wattstown yn cael eu cynrychioli gan un cynghorydd; bod Tylorstown a Glynrhedynog yn cael eu cynrychioli gan dri chynghorydd; a bod Maerdy yn cael ei chynrychioli gan un cynghorydd.
202. Roedd Grŵp Plaid Cymru Rhondda yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Gofynnodd Grŵp Plaid Cymru Rhondda am i ward Ynys-hir gael ei chadw a gwneud newidiadau i wardiau Tylorstown a Glynrhedynog er mwyn cyflawni'r cymarebau pleidleiswyr a ddymunir.
203. Mae'r Comisiwn yn argymell cyfuno wardiau etholiadol Glynrhedynog a'r Maerdy i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 5,324 o etholwyr (rhagamcenir 5,470 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 16% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
204. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Rhondda Fach Uchaf; a'r enw Saesneg Rhondda Fach Upper. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
205. Er na dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau'n ymwneud ag enw'r ward, fe wnaeth y Comisiwn gydnabod y cynrychiolaethau i gadw hunaniaethau'r wardiau yn yr ardal. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Glynrhedynog a'r Maerdy**, a'r enw Saesneg **Ferndale and Maerdy** i'r ward etholiadol argymelledig. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn

cytuno â'r enw arfaethedig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

206. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn gwrthwynebu ei Gynigion Drafft a'r trefniadau amgen posibl ar gyfer yr ardal. Er bod y Comisiwn yn cydnabod y dadleuon i gadw'r gynrychiolaeth bresennol, teimlir mai cyfuno'r wardiau etholiadol sy'n darparu'r lefel fwyaf priodol o gydraddoldeb etholiadol ar gyfer yr ardal.
207. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig hwn, a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr ymgynghoriad cychwynnol, yn darparu ar gyfer trefniadau sydd yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Glynhedynog a'r Maerdy




Hirwaun a'r Rhigos

208. Mae ward etholiadol bresennol Hirwaun yn cynnwys ward Hirwaun yng Nghymuned Hirwaun. Mae ganddi 3,123 o etholwyr (rhagamceniir 3,239 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 36% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,374 o bleidleiswyr cymwys.
209. Mae ward etholiadol bresennol y Rhigos yn cynnwys ward Penderyn yng Nghymuned Hirwaun a Chymuned y Rhigos. Mae ganddi 1,399 o etholwyr (rhagamceniir 1,443 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 39% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 1,441 o bleidleiswyr cymwys.
210. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Hirwaun a'r Rhigos i ffurfio ward etholiadol â dau aelod.
211. Derbyniodd y Comisiwn dair cynrychiolaeth mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal gan: Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn a Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf.
212. Roedd cynrychiolaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys sylwadau gan Gyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Roedd sylwadau a roddwyd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn gofyn am i'r trefniadau presennol gael eu cadw wrth ystyried y tirlas ar gyfer y wardiau etholiadol hyn. Mae'r arwynebedd tir yn y Rhigos wyth gwaith neu fwy na maint Hirwaun, ynghyd â phriodweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, ac mae achos cryf dros i Rhigos aros fel ag y mae ar hyn o bryd. Dywed y cyflwyniad y gellid tynnu ffin naturiol er mwyn rhoi nifer uwch o etholwyr yn Rhigos, ond teimlid na ddylai hyn fod yn angenrheidiol o ystyried y pwyntiau cadarn a godwyd. Pe bai'r newidiadau arfaethedig yn drech, cred y Cyngor Cymuned y dylid enwi'r ward yn Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos i adlewyrchu enw'r Cyngor Cymuned.
213. Roedd Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Dywed y Cyngor Cymuned bod anghenion gwahanol gan bob pentref a bod y trefniadau presennol yn bodloni'r anghenion hynny yn dda. Cynigiodd y Cyngor Cymuned yr enw Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos ar gyfer y ward arfaethedig.
214. Roedd Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Dywed y Grŵp fod ward bresennol y Rhigos yn unigryw o gymharu â wardiau eraill yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n cynnwys y nifer leiaf o etholwyr ac yn cwmpasu'r ardal ddaearyddol fwyaf. Mae'r ward hefyd yn cynnwys cyfran o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n cyfrannu at y ward o dan y Gronfa Datblygu Gwledig. Gofynnodd y grŵp am i'r trefniadau presennol gael eu cadw.
215. Mae'r Comisiwn yn argymhell cyfuno Cymunedau Hirwaun a'r Rhigos i ffurfio ward etholiadol â dau aelod sy'n cynnwys 4,522 o etholwyr (rhagamceniir 4,682 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 2% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
216. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Hirwaun a'r Rhigos; a'r enw Saesneg Hirwaun and Rhigos. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau. Derbyniodd y Comisiwn un gynrychiolaeth mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft gan Gyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn.

217. Cynigiodd Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn yr enw Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos ar gyfer y ward etholiadol. Dywedodd y Cyngor Cymuned y dylai enw'r ward adlewyrchu enw'r Cyngor Cymuned sy'n cynrychioli'r ardal hefyd, ac nad oedd yr enw arfaethedig yn fwy astrus na'r enwau wardiau arfaethedig Llantrisant a Thonysguboriau neu Rhydfelen Uchaf a Glyntaf.
218. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos**, a'r enw Saesneg **Hirwaun, Penderyn and Rhigos** i'r ward etholiadol arfaethedig. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
219. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn gwrthwynebu'r Cynigion Drafft a natur unigryw y wardiau etholiadol presennol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn fod y trefniadau presennol yn cadw lefelau amhriodol o uchel o amrywiant etholiadol. Mae cyfuno'r ddwy ward, tra'n cadw cynrychiolaeth dau gynghorydd, yn darparu ar gyfer gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol heb newid y gynrychiolaeth gyffredinol.
220. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r trefniant hwn yn darparu ar gyfer ward etholiadol sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos




This page is intentionally blank

Gogledd Aberaman a De Aberaman

221. Mae ward etholiadol bresennol Gogledd Aberaman yn cynnwys Cymuned Gogledd Aberaman. Mae ganddi 3,648 o etholwyr (rhagamcenir 3,781 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 21% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 4,143 o bleidleiswyr cymwys.
222. Mae ward etholiadol bresennol De Aberaman yn cynnwys Cymuned De Aberaman. Mae ganddi 3,463 o etholwyr (rhagamcenir 3,609 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 25% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,758 o bleidleiswyr cymwys.
223. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman i ffurfio ward etholiadol â thri aelod (sef un yn llai) fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng nghanam yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
224. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon.
225. Mae'r Comisiwn yn argymhell cyfuno Cymunedau Gogledd Aberaman a De Aberaman i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 7,111 o etholwyr (rhagamcenir 7,390 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan dri chynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 3% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
226. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Aberaman. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
227. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Aberaman** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
228. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cyflwyniad a wnaed yn wreiddiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fod y cynnig hwn yn darparu gwelliant sylweddol mewn cydraddoldeb etholiadol ar gyfer yr ardal.
229. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


Aberaman



Cwmbach

230. Mae ward etholiadol bresennol Cwmbach yn cynnwys Cymuned Cwmbach. Mae ganddi 3,679 o etholwyr (rhagamcenir 3,959 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 60% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,940 o bleidleiswyr cymwys.
231. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn fod ward etholiadol Cwmbach yn cael ei chynrychioli gan ddau aelod (sef un yn fwy) fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngham yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
232. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal hon.
233. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Cwmbach yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 3,679 o etholwyr (rhagamcenir 3,959 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd (sef un yn fwy), yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 20% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
234. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Cwmbach. Ystyrioedd Comisiynydd y Gymraeg yr enw a cynigwyd Cwm-bach. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.
235. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Cwmbach** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
236. Mae'r cynnig hwn yn darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol yn y ward a derbyniodd gefnogaeth cynrychiolaethau yng ngham yr ymgynghoriad cychwynnol. Cred y Comisiwn y byddai'r ward etholiadol arfaethedig yn adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol presennol yn ward etholiadol Cwmbach.
237. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


Cwmbach



Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar

238. Mae ward etholiadol bresennol Dwyrain Aberpennar yn cynnwys Cymuned Dwyrain Aberpennar. Mae ganddi 2,158 o etholwyr (rhagamcenir 2,381 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 6% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,335 o bleidleiswyr cymwys.
239. Mae ward etholiadol bresennol Gorllewin Aberpennar yn cynnwys Cymuned Gorllewin Aberpennar. Mae ganddi 3,120 o etholwyr (rhagamcenir 3,197 o etholwyr) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 32% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,608 o bleidleiswyr cymwys.
240. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn fod Cymunedau Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar yn cael eu cyfuno i ffurfio ward etholiadol â dau aelod (sef un yn llai) fel y cynigiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng nghanam yr Ymgynghoriad Cychwynnol.
241. Derbyniodd y Comisiwn un gynrychiolaeth mewn ymateb i'w Gynigion Drafft yn ymwneud â'r ardal, gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
242. Roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn. Cododd aelod o'r Pwyllgor bryderon ynglŷn â thangynrychiolaeth a theimlai mai ymarferiad mathemategol ydoedd, a dywedodd fod trigolion yn y cymunedau yn dymuno cadw'r trefniadau presennol.
243. Mae'r Comisiwn yn argymhell cyfuno Cymunedau Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 5,278 o etholwyr (rhagamcenir 5,578 o etholwyr) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 15% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
244. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Aberpennar; a'r enw Saesneg Mountain Ash. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enwau mewn ymateb i'w Gynigion Drafft.
245. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Aberpennar** a'r enw Saesneg **Mountain Ash** i'r ward etholiadol argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
246. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r argymhelliad a wnaed yn wreiddiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer yr ardal hon, a'r gwelliant mewn cydraddoldeb etholiadol. Cred y Comisiwn y byddai'r ward arfaethedig yn darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu a chymdeithasol presennol yn ardal Aberpennar.
247. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gynrychiolaeth i gadw'r trefniadau presennol ar gyfer Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar. Fodd bynnag, y cynnig hwn yw'r unig ateb ymarferol i fynd i'r afael â'r amrywiant etholiadol amhriodol presennol yn ward etholiadol Gorllewin Aberpennar.
248. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y trefniant hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Aberpennar



Pennod 6. CRYNODEB O'R TREFNIADAU ARGYMELLEDIG

1. Mae'r trefniadau etholiadol presennol (fel y dangosir yn Atodiad 2) yn darparu'r lefelau canlynol o gynrychiolaeth etholiadol ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:
 - Mae'r amrywiant etholiadol yn amrywio o 39% islaw'r cyfartaledd sirol presennol (Y Rhigos) i 108% uwchlaw'r cyfartaledd sirol presennol (Gorllewin Tonyrefail), sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan bedair ward etholiadol lefel gynrychiolaeth sy'n fwy na 50% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan 15 ward etholiadol lefel gynrychiolaeth sydd rhwng 25% a 50% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan 18 ward etholiadol lefel gynrychiolaeth sydd rhwng 10% a 25% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan 15 ward etholiadol lefel gynrychiolaeth sy'n llai na 10% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
2. O gymharu â'r trefniadau etholiadol presennol sydd i'w gweld uchod, mae'r trefniadau etholiadol argymelledig (fel y'u dangosir yn Atodiad 3) yn dangos y gwelliannau canlynol i'r gynrychiolaeth etholiadol ar draws y Sir:
 - Mae'r amrywiant etholiadol yn amrywio o 25% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig (**Ynysybwl**) i 26% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig (**Trefforest**), sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan un ward etholiadol lefel gynrychiolaeth sydd rhwng 25% a 50% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan 23 ward etholiadol lefel gynrychiolaeth sydd rhwng 10% a 25% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan 22 ward etholiadol lefel gynrychiolaeth sy'n llai na 10% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,302 o etholwyr fesul cynghorydd.
3. Fel y disgrifir m Mhennod 4 ac Atodiad 4, wrth lunio cynllun o drefniadau etholiadol, rhaid i'r Comisiwn ystyried nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Nid yw'n bosibl datrys pob un o'r materion hyn bob tro, sydd weithiau'n gwrthdaro â'i gilydd. Yng nghynllun argymelledig y Comisiwn, rydym wedi rhoi pwyslais ar gyflawni gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol, gan gynnal cysylltiadau cymunedol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y byddai creu wardiau etholiadol, sy'n gwyro oddi wrth y patrwm presennol, yn anochel yn tarfu rhywfaint ar y cysylltiadau presennol rhwng cymunedau a gallent bontio ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r Comisiwn wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wardiau etholiadol diwygiedig yn adlewyrchu cyfuniadau rhesymegol o gymunedau a wardiau cymunedol presennol.
4. Mae'r Comisiwn wedi edrych ar bob ardal, ac mae'n fodlon y byddai'n anodd cyflawni trefniadau etholiadol sy'n cadw'r cyfuniad presennol o gymunedau a wardiau cymunedol heb gael effaith niweidiol ar un neu fwy o'r materion eraill y mae'n rhaid iddo eu hystyried.

Pennod 7. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

1. Wrth ystyried y newidiadau i wardiau etholiadol lle mae'r Comisiwn wedi argymhell newidiadau i'r ffiniau, bu'n rhaid ystyried effeithiau'r newidiadau hyn hefyd ar ffiniau a threfniadau etholiadol y cynghorau cymuned a thref. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn manylu ar ein hargymhellion ar gyfer y newidiadau ôl-ddilydol hyn. Darparwyd yr ystadegau etholwyr a ddefnyddir yn yr adran hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hefyd.

Ffiniau Cymunedau a Wardiau Cymunedol

2. Mae nifer o newidiadau i wardiau etholiadol ac, o ganlyniad, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried y trefniadau sylfaenol ar gyfer cymunedau a wardiau cymunedol. Mae'r newidiadau arfaethedig i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol fel a ganlyn:

Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref

3. Argymhellir i ward etholiadol argymelledig **Pentre'r Eglwys** gael yr un newid ôl-ddilydol i drefniadau wardio Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref, fel y dangosir ar y map ar dudalen 25.
4. Argymhellir i ward etholiadol argymelledig **Ton-teg** gael yr un newid ôl-ddilydol i ward Ton-teg yng Nghyngor Cymuned Llanilltud Faerdref, fel y dangosir ar y map ar dudalen 26.

Cyngor Tref Pontypridd

5. Argymhellir i ward etholiadol argymelledig **Graig a Gorllewin Pontypridd** gael yr un newid ôl-ddilydol i'r trefniadau wardio yng Nghyngor Tref Pontypridd, fel y dangosir ar y map ar dudalen 15.
6. Argymhellir i ward etholiadol argymelledig **Y Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf** gael yr un newid ôl-ddilydol i'r trefniadau wardio yng Nghyngor Tref Pontypridd, fel y dangosir ar y map ar dudalen 19.
7. Argymhellir i ward etholiadol argymelledig **Canol Rhydfelen** gael yr un newid ôl-ddilydol i'r trefniadau wardio yng Nghyngor Tref Pontypridd, fel y dangosir ar y map ar dudalen 18.
8. Argymhellir i ward etholiadol argymelledig Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf gael yr un newid ôl-ddilydol i'r trefniadau wardio yng Nghyngor Tref Pontypridd, fel y dangosir ar y map ar dudalen 20.

Ardaloedd Cymunedol Llwynypia, Trealaw ac Ystrad

9. Argymhellir i wardiau etholiadol argymelledig Llwynypia, Trealaw ac Ystrad gael yr un newid ôl-ddilydol i Gymunedau Llwynypia, Trealaw ac Ystrad, fel y dangosir ar y mapiau ar dudalennau 49, 50 a 51.

Ardal Gymunedol Pont-y-clun

10. Argymhellir i wardiau etholiadol argymelledig Dwyrain Pont-y-clun, Canol Pont-y-clun a Gorllewin Pont-y-clun gael yr un newid ôl-ddilydol i Gymuned Pont-y-clun, fel y dangosir ar y mapiau ar dudalennau 36, 37 a 38.

Ardal Gymunedol Trehafod

11. Argymhellir i wardiau etholiadol argymelledig **Cymer a Graig a Gorllewin Pontypridd** gael yr un newid ôl-ddilydol i Gymuned Trehafod, fel y dangosir ar y mapiau ar dudalennau 14 a 15.

Trefniadau Etholiadol Cyngorau Tref a Chymuned

12. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau ôl-ddilydol i'r trefniadau etholiadol cymunedol a fyddai'n digwydd o ganlyniad i'r argymhellion y manylir arnynt uchod. Mae'r trefniadau etholiadol presennol a'r newidiadau argymelledig i'r trefniadau hynny i'w gweld isod:

Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref

Wardiau	Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref							
	Presennol				Arfaethedig			
	Etholwyr	Cyngorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cyngorydd	Amrywiant	Etholwyr	Cyngorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cyngorydd	Amrywiant
Pentre'r Eglwys	4,313	4	1,078	5%	5,033	5	1,007	6%
Efail Isaf	1,025	1	1,025	0%	1,025	1	1,025	8%
Llanilltud Faerdref	3,778	4	945	-8%	3,778	4	945	0%
Ton-teg	3,222	3	1,074	4%	2,502	3	834	-12%
	12,338	12	1,028		12,338	13	949	

13. Mae'r Comisiwn yn fodlon bod y newidiadau argymelledig hyn yn briodol ac er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Cyngor Cymuned Pont-y-clun

Wardiau	Cyngor Cymuned Pont-y-clun								
	Presennol				Arfaethedig				
	Etholwyr	Cyngorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cyngorydd	Amrywiant	Wardiau	Etholwyr	Cyngorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cyngorydd	Amrywiant
Cefnyrhendy	3,107	5	621	14%	Dwyrain Pont-y-clun	1,778	3	593	8%
Groes-faen	483	1	483	-12%	Canol Pont-y-clun	2,312	4	578	6%
Maes-y-felin	1,869	4	467	-15%	Gorllewin Dwyrain	1,924	4	481	-12%

ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL RHONDDA CYNON TAF

					Pont-y-clun				
Meisgyn	555	1	555	-2%					
	6,014	11	547			6,014	11	547	

14. Mae'r Comisiwn yn fodlon bod y newidiadau argymelledig hyn yn briodol ac er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Cyngor Tref Pontypridd

	Cyngor Tref Pontypridd									
	Presennol					Arfaethedig				
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant	Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant	
Cilfynydd	2,095	2	1,048	3%	Cilfynydd	2,095	2	1,048	4%	
Glyn-coch	2,021	2	1,011	-1%	Glyn-coch	2,021	2	1,011	0%	
Graig	1,853	2	927	-9%	Graig	1,853	2	927	-8%	
Y Ddraenen Wen	1,684	2	842	-17%	Y Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf	1,803	2	902	-11%	
llan	934	1	934	-8%	Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf	2,397	2	1,199	19%	
Rhondda	3,481	4	870	-15%	Rhondda	3,230	3	1,077	7%	
Canol Rhydfelen	2,099	2	1,050	3%	Canol Rhydfelen	1,949	2	975	-3%	
Rhydfelen Isaf	1,432	1	1,432	40%	-	-	-	-	-	
Tref	2,153	2	1,077	6%	Tref	2,153	2	1,077	7%	
Trallwng	2,795	3	932	-9%	Trallwng	2,795	3	932	-8%	
Trefforest	2,901	2	1,451	42%	Trefforest	2,901	3	967	-4%	
	23,448	23	1,019			23,197	23	1,009		

15. Mae'r Comisiwn yn fodlon bod y newidiadau argymelledig hyn yn briodol ac er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Pennod 8. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

16. Ar ôl cwblhau'r arolwg o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chyflwyno argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru ar drefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer y prif awdurdod, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.
17. Gwaith Llywodraeth Cymru yn awr, os gwêl yn dda, yw gweithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau. Gall Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i ni gynnal arolwg pellach hefyd.
18. Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau pellach yn ymwneud â'r materion yn yr adroddiad hwn at Lywodraeth Cymru. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag ddim hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru. Dylid anfon cynrychiolaethau at:

Tîm Democratiaeth Llywodraeth Cymru
Yr Is-adran Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu e-bostiwch nhw i:

lgdtmailbox@gov.wales

Pennod 9. CYDNABYDDIAETHAU

19. Dymuna'r Comisiwn ddiolch i'r prif gyngor, yr holl gynghorau tref a chymuned a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant a wnaeth gynrychiolaethau wrth i ni ddatblygu'r argymhellion terfynol hyn. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cymeradwyo'r adroddiad argymhellion hwn.

CERI STRADLING (Dirprwy Gadeirydd)

DAVID POWELL (Aelod)

JULIE MAY (Aelod)

THEODORE JOLOZA (Aelod)

SHEREEN WILLIAMS (Prif Weithredwr)

[Mawrth 2020]

ATODIAD 1 – RHESTR TERMAU

Amrywiant etholiadol	I ba raddau mae nifer yr etholwyr fesul cynghorydd mewn ward yn amrywio o'r cyfartaledd sirol; wedi'i fynegi ar ffurf canran.
Arolwg etholiadol	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Gyngor.
Comisiwn	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
Cyfarwyddiadau	Cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 48 y Ddeddf.
Cymuned (ardal)	Yr uned llywodraeth leol sydd islaw lefel y Prif Gyngor.
Cymuned Ranedig	Cymuned sydd wedi'i rhannu rhwng dwy neu fwy o wardiau etholiadol.
Cyngor Cymuned	Cyngor etholedig sy'n darparu gwasanaethau i'w ardal gymunedol benodol. At ddibenion etholiadol cymunedol, gellir rhannu Cyngor Cymuned yn wardiau cymunedol.
Cyngor Tref	Mae Cyngor Cymuned sydd â statws tref yn cael ei adnabod fel Cyngor Tref. At ddibenion etholiadol cymunedol, gellir rhannu Cyngor Tref yn wardiau.
Etholaeth	Nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn ardal llywodraeth leol.
Etholaeth ragamcanol	Y rhagolygon pum mlynedd ar gyfer yr etholaeth.
Gorchymyn	Gorchymyn a wneir gan gorff gweithredu sy'n rhoi cynigion a wneir gan y Prif Gyngor neu'r Comisiwn ar waith.
Gorgynrychiolaeth	Lle mae llai o etholwyr fesul cynghorydd mewn ward o gymharu â'r cyfartaledd sirol.
Parti â buddiant	Unigolyn neu gorff sydd â buddiant yng nghanlyniad arolwg etholiadol, fel cyngor cymuned, AS neu AC lleol neu blaid wleidyddol.
Poblogaeth amcangyfrifedig y pleidleiswyr cymwys	Nifer amcangyfrifedig y bobl gymwys (18+) mewn ardal llywodraeth leol sy'n gymwys i bleidleisio. Cafwyd y ffigurau hyn o amcangyfrifon poblogaeth wardiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru yn 2015, canol 2015 (ystadegau arbrolfol).

Prif ardal	Yr ardal a lywodraethir gan Brif Gyngor: sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.
Prif Gyngor	Corff llywodraeth leol un haen sy'n gyfrifol am bob un, neu bron bob un, o'r swyddogaethau llywodraeth leol yn ei ardal. Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
Tangynrychiolaeth	Lle mae mwy o etholwyr fesul cynghorydd mewn ward o gymharu â'r cyfartaledd sirol.
Ward Cymuned / Tref	Ardal mewn Cyngor Cymunedol a grëwyd at ddibenion etholiadol cymunedol.
Wardiau etholiadol	Yr ardaloedd y caiff Prif Gyngorau eu rhannu iddynt at ddiben ethol cynghorwyr sir, y cyfeiriwyd atynt gynt fel adrannau etholiadol.
Y Ddeddf	Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
AELODAETH PRESENNOL Y CYNGOR**

Rhif.	ENW	DISGRIFIAD	NIFER O GYNGHORWYR	ETHOLWYR 2018	CYMHAREB 2018	% amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol	ETHOLWYR 2023	CYMHAREB 2023	% amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
1	Gogledd Aberaman	Cymuned Gogledd Aberaman	2	3,648	1,824	-21%	3,781	1,891	-20%	4,143
2	De Aberaman	Cymuned De Aberaman	2	3,463	1,732	-25%	3,609	1,805	-24%	3,758
3	Abercynon	Cymuned Abercynon	2	4,487	2,244	-3%	4,537	2,269	-5%	4,968
4	Dwyrain Aberdar	Cymuned Dwyrain Aberdar	2	4,900	2,450	6%	5,077	2,539	7%	5,243
5	Gorllewin Aberdar /Llwydcoed	Cymunedau Gorllewin Aberdar (5,943) [6,295] a Llwydcoed (1,233) [1,266]	3	7,176	2,392	4%	7,561	2,520	6%	7,601
6	Beddau	Ward Beddau o Gymuned Llantrisant	1	3,167	3,167	38%	3,174	3,174	34%	3,575
7	Brynna	Wardiau Brynna (2,025) [2,084] a Llaniliad (1,416) [2,153] o Gymuned Llanharan	1	3,441	3,441	49%	4,237	4,237	78%	3,496
8	Pentre'r Eglwys	Ward Pentre'r Eglwys o Gymuned Llantilltud Faerdref	1	4,313	4,313	87%	4,350	4,350	83%	3,898
9	Cilfynydd	Ward Cilfynydd o Gymuned Tref Pontypridd	1	2,095	2,095	-9%	2,136	2,136	-10%	2,260
10	Cwm Clydach	Cymuned Cwm Clydach	1	1,944	1,944	-16%	2,049	2,049	-14%	2,177
11	Cwmbach	Cymuned Cwmbach	1	3,679	3,679	60%	3,959	3,959	67%	3,940
12	Cymmer	Cymunedau Cymmer (3,406) [3,427] a Threhafod (565) [585]	2	3,971	1,986	-14%	4,012	2,006	-16%	4,417
13	Ferndale	Cymuned Ferndale	2	3,037	1,519	-34%	3,072	1,536	-35%	3,369
14	Gilfach Goch	Cymuned Gilfach-goch	1	2,434	2,434	6%	2,495	2,495	5%	2,723
15	Glyn-coch	Ward Glyn-coch o Gymuned Tref Pontypridd	1	2,021	2,021	-12%	2,023	2,023	-15%	2,310
16	Y Graig	Ward Y Graig o Gymuned Tref Pontypridd	1	1,853	1,853	-20%	1,910	1,910	-20%	1,901
17	Y Ddraenen Wen	Wardiau Y Ddraenen Wen (1,684) [1,684] a Rhydfelen Isaf (1,432) [1,432] o Gymuned Tref Pontypridd	1	3,116	3,116	35%	3,116	3,116	31%	3,138
18	Hirwaun	Ward Hirwaun o Gymuned Hirwaun	1	3,123	3,123	36%	3,239	3,239	36%	3,374

Rhif.	ENW	DISGRIFIAD	NIFER O GYNGHORWYR	ETHOLWYR 2018	CYMHAREB 2018	% amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol	ETHOLWYR 2023	CYMHAREB 2023	% amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
19	Llanharan	Ward Llanharan o Gymuned Llanharan	1	2,730	2,730	19%	2,783	2,783	17%	2,717
20	Llanhari	Cymuned Llanhari	1	3,121	3,121	36%	3,167	3,167	33%	2,999
21	Tref Llantrisant	Ward Tref Llantrisant o Gymuned Llantrisant	1	3,162	3,162	37%	3,247	3,247	37%	3,935
22	Llanilltud Faerdref	Wardiau Efail Isaf (1,025) [1,029] a Llantilltud Faerdref (3,778) [3,785] o Gymuned Llanilltud Faerdref	2	4,803	2,402	4%	4,814	2,407	1%	4,795
23	Llwynypia	Cymuned Llwyn-y-Pia	1	1,632	1,632	-29%	1,713	1,713	-28%	1,858
24	Y Maerdy	Cymuned Y Maerdy	1	2,287	2,287	-1%	2,398	2,398	1%	2,387
25	Dwyrain Aberpennar	Cymuned Dwyrain Aberpennar	1	2,158	2,158	-6%	2,381	2,381	0%	2,335
26	Gorllewin Aberpennar	Cymuned Gorllewin Aberpennar	2	3,120	1,560	-32%	3,197	1,599	-33%	3,608
27	Pen-y-Graig	Cymuned Pen-y-graig	2	3,924	1,962	-15%	3,983	1,992	-16%	4,307
28	Pen-y-Waun	Cymuned Pen-y-waun	1	2,011	2,011	-13%	2,122	2,122	-11%	2,345
29	Penrhiw-ceiber	Cymuned Penrhiw-ceiber	2	4,114	2,057	-11%	4,136	2,068	-13%	4,561
30	Pentre	Cymuned Pentre	2	3,857	1,929	-16%	3,885	1,943	-18%	4,147
31	Pont-y-clun	Cymuned Pont-y-clun	2	6,014	3,007	31%	6,873	3,437	45%	6,470
32	Tref Pontypridd	Ward Town o Gymuned Tref Pontypridd	1	2,153	2,153	-6%	2,217	2,217	-7%	2,279
33	Porth	Cymuned Porth	2	4,301	2,151	-7%	4,426	2,213	-7%	4,799
34	Y Rhigos	Ward Penderyn (658) [658] o Gymuned Hirwaun a Cymuned Y Rhigos (741) [785]	1	1,399	1,399	-39%	1,443	1,443	-39%	1,441
35	Rhondda	Ward Rhondda o Gymuned Tref Pontypridd	2	3,481	1,741	-24%	3,520	1,760	-26%	3,703
36	Canol Rhydfelen/Ilan	Wardiau Ilan (934) [934] a Chanol Rhydfelen (2,099) [2,101] o Gymuned Tref Pontypridd	1	3,033	3,033	32%	3,035	3,035	28%	3,435
37	Ffynnon Taf	Cymuned Ffynnon Taf	1	2,826	2,826	23%	2,830	2,830	19%	3,123
38	Tonysguboriau	Ward Tonysguboriau o Gymuned Llantrisant	1	1,956	1,956	-15%	1,991	1,991	-16%	2,302
39	Ton-Teg	Ward Ton-Teg o Gymuned Llanilltud Faerdref	2	3,222	1,611	-30%	3,222	1,611	-32%	3,282
40	Tonypandy	Cymuned Tonypandy	1	2,638	2,638	15%	2,695	2,695	13%	3,001
41	Dwyrain Tonyrefail	Wardiau Coedely (1,347) [1,474], Collena (1,619) [1,623], a Tylcha (1,294) [1,312] o Gymuned Tonyrefail	2	4,260	2,130	-7%	4,409	2,205	-7%	4,701
Rhif.	ENW	DISGRIFIAD	NIFER O GYNGHORWYR	ETHOLWYR 2018	CYMHAREB 2018	% amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol	ETHOLWYR 2023	CYMHAREB 2023	% amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio

ATODIAD 2

42	Gorllewin Tonyrefail	Wardiau Penrhiw-fer (1,062) [1,066], Thomastown (1,307) [1,441], a Tynybryn (2,421) [2,718] o Gymuned Tonyrefail	1	4,790	4,790	108%	5,225	5,225	120%	5,145
43	Trallwng	Ward Trallwng o Gymuned Tref Pontypridd	1	2,795	2,795	21%	2,819	2,819	19%	3,087
44	Trealaw	Cymuned Trealaw	1	2,809	2,809	22%	2,840	2,840	19%	3,244
45	Treforest	Ward Treforest ward o Gymuned Tref Pontypridd	1	2,901	2,901	26%	2,997	2,997	26%	4,449
46	Treherbert	Cymuned Treherbert	2	4,165	2,083	-10%	4,242	2,121	-11%	4,583
47	Treorci	Cymuned Treorci	3	5,652	1,884	-18%	5,750	1,917	-19%	6,118
48	Tylorstown	Cymuned Tylorstown	2	2,981	1,491	-35%	3,034	1,517	-36%	3,404
49	Tyn-y-Nant	Ward Tyn-y-nant o Gymuned Llantrisant	1	2,414	2,414	5%	2,414	2,414	2%	2,657
50	Ynyshir	Cymuned Ynyshir	1	2,391	2,391	4%	2,398	2,398	1%	2,649
51	Ynysybwl	Cymuned Ynysybwl and Coed-y-Cwm	1	3,457	3,457	50%	3,485	3,485	47%	3,619
52	Ystrad	Cymuned Ystrad	2	4,248	2,124	-8%	4,266	2,133	-10%	4,630
CYFANSWM:			75	172,673	2,302		178,294	2,377		188,406

Cymhareb yw nifer yr etholwyr fesul cynghorwyr

Darperir ffigyrau etholaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Darperir ffigyrau poblogaeth gan Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

2018

2023

Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol	4	8%	4	8%
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol	15	29%	15	29%
Rhwng + neu - 10% a + neu - 25% o'r Cyfartaledd Sirol	18	35%	23	44%
Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol	15	29%	10	19%

Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Trefniadau Etholiadol Argymelledig
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol

Atodiad 3

Rhif	Enw	Disgrifiad	Cyngorwyr	Etholwyr 2018	Cymhareb 2018	% Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol	Etholwyr 2023	Cymhareb 2023	% Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol
1	Aberaman	Cymunedau Gogledd Aberaman a De Aberaman	3	7,111	2,370	3%	7,390	2,463	4%
2	Abercynon	Cymuned Abercynon	2	4,487	2,244	-3%	4,537	2,269	-5%
3	Dwyrain Aberdâr	Cymuned Dwyrain Aberdâr	2	4,900	2,450	6%	5,077	2,539	7%
4	Gorllewin Aberdar a Llwydcoed	Cymunedau Gorllewin Aberdar a Llwydcoed	3	7,176	2,392	4%	7,561	2,520	6%
5	Beddau a Thyn-y-nant	Wardiau Beddau a Tyn-y-nant o Gymuned Llanilltud Faerdref	2	5,581	2,791	21%	5,588	2,794	18%
6	Brynna a Llanharan	Cymuned Llanharan	3	6,171	2,057	-11%	7,020	2,340	-2%
7	Pentre'r Eglwys	Ward Pentre'r Eglwys o Gymuned Llanilltud Faerdref	2	5,033	2,517	9%	5,070	2,535	7%
8	Cilfynydd	Ward Cilfynydd o Dref Pontypridd	1	2,095	2,095	-9%	2,136	2,136	-10%
9	Cwm Clydach	Cymuned Cwm Clydach	1	1,944	1,944	-16%	2,049	2,049	-14%
10	Cwmbach	Cymuned Cwmbach	2	3,679	1,840	-20%	3,959	1,980	-17%
11	Cymer	Cymunedau Cymer a Threhafof	2	4,222	2,111	-8%	4,259	2,130	-10%
12	Gilfach-goch	Cymuned Gilfach-goch	1	2,434	2,434	6%	2,495	2,495	5%
13	Glyn-coch	Ward Glyn-coch o Dref Pontypridd	1	2,021	2,021	-12%	2,023	2,023	-15%
14	Y Graig a Gorllewin Pontypridd	Wardiau Y Graig a Rhondda o Dref Pontypridd	2	5,083	2,542	10%	5,179	2,590	9%
15	Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf	Ward y Ddraenen-wen o Dref Pontypridd	1	1,803	1,803	-22%	1,805	1,805	-24%
16	Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos	Cymunedau Hirwaun a'r Rhigos	2	4,522	2,261	-2%	4,682	2,341	-2%
17	Llanhari	Ward Llanhari o Gymuned Llanhari	1	2,523	2,523	10%	2,569	2,569	8%
18	Llantrisant a Thonysguboriau	Wardiau Tref Llantrisant a Thonysguboriau o Gymuned Llantrisant	2	5,118	2,559	11%	5,238	2,619	10%
19	Llanilltud Faerdref	Wardiau Efail Isaf a Llanilltud Faerdref o Gymuned Llanilltud Faerdref	2	4,803	2,402	4%	4,814	2,407	1%
20	Llwynypia	Cymuned Llwynypia	1	2,374	2,374	3%	2,459	2,459	3%
21	Aberpennar	Cymunedau Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar	2	5,278	2,639	15%	5,578	2,789	17%
22	Penrhwi-ceibr	Cymuned Penrhwi-ceibr	2	4,114	2,057	-11%	4,136	2,068	-13%
23	Pentre	Cymuned Pentre	2	3,857	1,929	-16%	3,885	1,943	-18%
24	Pen-y-graig	Cymuned Pen-y-graig	2	3,924	1,962	-15%	3,983	1,992	-16%
25	Pen-y-waun	Cymuned Pen-y-waun	1	2,011	2,011	-13%	2,122	2,122	-11%
26	Canol Pont-y-clun	Ward Canol Pont-y-clun o Gymuned Pont-y-clun	1	2,312	2,312	0%	2,312	2,312	-3%
27	Dwyrain Pont-y-clun	Ward Dwyrain Pont-y-clun o Gymuned Pont-y-clun	1	1,778	1,778	-23%	2,631	2,631	11%
28	Gorllewin Pont-y-clun	Ward Gorllewin Pont-y-clun o Gymuned Pont-y-clun a Ward Tyle-garw o Gymuned Llanhari	1	2,522	2,522	10%	2,528	2,528	6%
29	Tref Pontypridd	Ward Tref Pontypridd	1	2,153	2,153	-6%	1,949	1,949	-18%
30	Porth	Cymuned Porth	2	4,301	2,151	-7%	4,426	2,213	-7%
31	Tylorstown ac Ynys-hir	Cymunedau Tylorstown ac Ynys-hir	2	5,372	2,686	17%	5,432	2,716	14%
32	Glynrhedynog a'r Maerdy	Cymunedau Glynrhedynog a'r Maerdy	2	5,324	2,662	16%	5,470	2,735	15%
33	Canol Rhydfelen	Ward Canol Rhydfelen o Dref Pontypridd	1	1,949	1,949	-15%	2,397	1,949	-18%
34	Ffynnon Taf	Cymuned Ffynnon Taf	1	2,826	2,826	23%	2,830	2,830	19%
35	Ton-teg	Ward Ton-teg o Gymuned Llanilltud Faerdref	1	2,502	2,502	9%	2,502	2,502	5%
36	Tonypanyd	Cymuned Tonypanyd	1	2,638	2,638	15%	2,695	2,695	13%
37	Dwyrain Tonyrefail	Wardiau Coedely, Collena a Tylcha o Gymuned Tonyrefail	2	4,260	2,130	-7%	4,409	2,205	-7%
38	Gorllewin Tonyrefail	Wardiau Penrhwi-fer, Thomastown a Tynybryn o Gymuned Tonyrefail	2	4,790	2,395	4%	5,225	2,613	10%
39	Trallwng	Ward Trallwng o Dref Pontypridd	1	2,795	2,795	21%	2,819	2,819	19%
40	Trealaw	Cymuned Trealaw	1	2,511	2,511	9%	2,542	2,542	7%
41	Treforest	Ward Treforest o Dref Pontypridd	1	2,901	2,901	26%	2,997	2,997	26%

Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Trefniadau Etholiadol Argymelledig
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol

Atodiad 3

42	Treherbert	Cymuned Treherbert	2	4,165	2,083	-10%	4,242	2,121	-11%
43	Treorci	Cymuned Treorci	2	5,652	2,826	23%	5,750	2,875	21%
44	Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf	Wardiau Rhydfelen Uchaf ac llan o Dref Pontypridd	1	2,397	2,397	4%	2,217	2,397	1%
45	Ynysybwl	Cymuned Ynysybwl	2	3,457	1,729	-25%	3,485	1,743	-27%
46	Ystrad	Cymuned Ystrad	2	3,804	1,902	-17%	3,822	1,911	-20%
			75	172,673		2,302	178,294		2,377

Cymhareb yw nifer yr etholwyr fesul cyngorwr
Darperir ffigurau etholwyr gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Population figures supplied by the Office for National Statistics (ONS)

	2018		2023	
Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol	0	0%	0	0%
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol	1	2%	2	4%
Rhwng + neu - 10% a + neu - 25% o'r Cyfartaledd Sirol	23	50%	24	53%
Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol	22	48%	20	43%

RHEOLAU A GWEITHDREFNAU

Cwmpas ac Amcan yr Arolwg

1. Mae Adran 29 (1) Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i arolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod arolygu o ddeng mlynedd, at ddiben ystyried p'un a ddylai gwneud cynigion i Lywodraeth Cymru i newid y trefniadau etholiadol hynny ai peidio. Wrth gynnal arolwg, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus (Adran 21 (3) y Ddeddf).
2. Gofynnodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf cyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

Trefniadau Etholiadol

3. Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymhell mewn perthynas ag arolwg etholiadol yw:
 - (a) y newidiadau hynny i drefniadau'r brif ardal dan sylw y mae o'r farn eu bod yn briodol; ac
 - (b) o ganlyniad i'r newidiadau hynny:
 - (i) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas ag unrhyw gymuned yn y brif ardal;
 - (ii) y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o'r fath y mae o'r farn eu bod yn briodol; ac
 - (iii) y newidiadau hynny i sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.
4. Caiff "trefniadau etholiadol" prif ardal eu diffinio yn adran 29 (9) Deddf 2013 fel a ganlyn:
 - i) nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y brif ardal;
 - ii) nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol;
 - iii) nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol yn y brif ardal; ac
 - iv) enw unrhyw ward etholiadol.

Ystyriaethau ar gyfer arolwg o drefniadau etholiadol prif ardal

5. Wrth ystyried p'un a ddylai gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal, mae adran 30 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn:

APPENDIX 4

- (a) geisio sicrhau bod yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly;
 - (b) rhoi sylw i'r canlynol:
 - (i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly;
 - (ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.
6. Wrth ystyried cymhareb yr etholwyr llywodraeth leol i nifer yr aelodau, rhaid ystyried:
- (a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y bobl sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel y gwelir mewn ystadegau swyddogol perthnasol); ac
 - (b) unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl gwneud unrhyw argymhelliad.

Newidiadau llywodraeth leol

7. Ers y gorchymyn llywodraeth leol diwethaf bu nifer o newidiadau i ffiniau llywodraeth leol yn Rhondda Cynon Taf.

- Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau) 2016

Gweithdrefn

8. Mae Pennod 4 y Ddeddf yn pennu canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r rhan hon o'r Ddeddf, ar 25 Gorffennaf 2018 ysgrifennodd y Comisiwn at Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, y Gyngor Cymuned yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol ar gyfer yr etholaethau lleol, yr Aelodau Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â buddiant i roi gwybod iddynt am fwriad y Comisiwn i gynnal yr arolwg ac i ofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Gwahoddodd y Comisiwn y Cyngor i gyflwyno cynllun neu gynlluniau awgrymedig ar gyfer trefniadau etholiadol newydd. Gofynnodd y Comisiwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hefyd i arddangos nifer o hysbysiadau cyhoeddus yn eu hardal. Trefnodd y Comisiwn fod copïau o'r ddogfen *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* ar gael hefyd. Hefyd gwnaeth y Comisiwn gyflwyniadau i'r Gyngorwyr Sir a Chymuned i esbonio proses yr arolwg.
9. Yn unol ag Adran 35 Pennod 4 y Ddeddf, cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Cynigion Drafft ar 19 Mehefin 2019, gan hysbysu'r ymgynghoreion gorfodol a restrwyd a phartïon eraill â buddiant y byddai cyfnod o ymgynghori ar y cynigion drafft yn dechrau ar 26 Mehefin 2019 ac yn dod i ben ar 17 Medi 2019. Cyfarfu'r Comisiwn ag Arweinwyr Grŵp a

Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i drafod y Cynigion Drafft a'r broses o ddatblygu'r Argymhellion Terfynol. Gwahoddodd y Comisiwn y Cyngor Sir a phartïon eraill â buddiant i gyflwyno sylwadau ar y Cynigion Drafft a sut gellid eu gwella. Hefyd, gofynnodd y Comisiwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf arddangos copïau o'r adroddiad ochr yn ochr â hysbysiadau cyhoeddus yn yr ardal.

10. Caiff ffiniau'r wardiau etholiadol arfaethedig eu dangos gan linellau glas di-dor ar y map a roddir ar adnau gyda'r Adroddiad hwn yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd, yn ogystal ag ar wefan y Comisiwn (<http://cfdl.llyw.cymru>).

Polisi ar Arfer

11. Cyhoeddodd y Comisiwn y ddogfen *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* ym mis Tachwedd 2016. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ddull y Comisiwn o ddatrys yr her o gydbwysu cydraddoldeb etholiadol â chysylltiadau cymunedol; mae'n amlinellu'r materion i'w hystyried ac yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth o'r ymagwedd gyffredinol tuag at bob un o'r ystyriaethau statudol wrth fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol arolwg. Fodd bynnag, oherwydd nad yw'r amgylchiadau hynny'n debygol o ddarparu'r patrwm etholiadol delfrydol, yn y rhan fwyaf o arolygon, gwneir cyfaddawdau wrth gymhwyso'r polisiâu er mwyn taro'r cydbwysedd priodol rhwng pob un o'r materion y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried.
12. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu'r amserlen gyffredinol ar gyfer y rhaglen, a sut y cafodd ei nodi, a Pholisi'r Comisiwn ar Faint Cynghorau. Mae'r ddogfen i'w gweld ar wefan y Comisiwn neu mae ar gael ar gais.

Hawlfraint y Goron

13. Lluniwyd y mapiau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, ac a gyhoeddir ar wefan y Comisiwn, gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru dan drwydded gan yr Arolwg Ordnans. Mae'r mapiau hyn yn destun © Hawlfraint y Goron. Bydd eu hatgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai golygydd unrhyw bapur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau yn rhan o erthygl am y cynigion drafft gysylltu â swyddfa hawlfraint yr Arolwg Ordnans yn gyntaf.

**CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD AR GYFER
YMGYNGHORIAD DRAFFT Y COMISIWN AR YR AROLWG O'R TREFNIADAU
ETHOLIADOL YN RHONDDA CYNON TAF**

1. Ysgrifennodd **cynghorwyr o Bwyllgor Craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** ar 17 Medi 2019 i gyflwyno'r canlynol:

5. OVERVIEW AND SCRUTINY CONSIDERATION

- 5.1 Members of the Overview and Scrutiny Committee at their meeting on 22nd July 2019 considered the Draft Proposals Report. A summary of the representations made at that meeting is set out below and relevant extract from the minutes is attached as Appendix 1 to the report. These representations shall be submitted to the Commission as part of its consultation on the Draft Proposals.

5.2 Brynna & Llanharan

Several Members of the Overview and Scrutiny Committee felt that the LDP forecast figures for 2023 electorate should be given greater weight and consideration, particularly in relation to the proposal for Brynna and Llanharan (The Council's majority proposal submitted in respect of the first stage of the review conducted last year was to create three single member wards from the existing two wards due to the forecasted growth in the Llaniliad area by 2023).

Graig and Treforest Wards

A Member of the Overview and Scrutiny Committee acknowledged whilst certain parts of Treforest could transfer to the Graig Ward to ensure electoral parity they should remain separate wards as opposed to the Commission's proposal to combine the two Wards.

Maerdy, Ferndale, Tylorstown and Ynyshir

In respect of the Wards within the Rhondda Fach Area Members of the Overview and Scrutiny Committee agreed that the level of representation should remain as it currently stands. Members felt by lowering the numbers from six Members to four Members would be to the detriment of the residents who live in the area particularly as there was no Community Council and the size of the proposed Electoral Ward areas. Members felt that the number of

APPENDIX 1
Extract from the Overview & Scrutiny Committee Minutes – 22.07.19

4. **REVIEW OF THE COUNCIL'S ELECTORAL ARRANGEMENTS BY THE LOCAL DEMOCRACY & BOUNDARY COMMISSION FOR WALES**

The Chair informed Members that before the Director of Legal Services presented the report in respect of the 'Review of the Council's Electoral Arrangements by the Local Democracy and Boundary Commission for Wales', he had received written submissions from individual Members that being County Borough Councillors G. Thomas, R. Turner, M Griffiths and T Leyshon which would be taken into consideration as part of reporting to full Council.

The Director of Legal Services outlined the background of the report and it was explained that the Commission has now developed its Draft Proposals in relation to its review and these are contained in the Draft Proposal Report, which Members would have had the opportunity to consider before the meeting.

The Director of Legal Services continued to explain that the Commission has now commenced a 12-week period of statutory consultation on the Draft Proposals Report, which runs from 26th June 2019 to 17th September 2019 and invites representations, which are based on evidence and facts relevant to the specific proposal in consideration.

Members were asked to consider the summary of the draft proposal for each Electoral Ward and put their representations forward as part of the consultation feedback – either at the meeting or in advance of the Council meeting which would consider the Draft Proposals Report.

The Chair opened up the meeting to Members for their view and comments.

In respect of the Wards within the Rhondda Fach Area Members strongly agreed that the level of representation should remain as it currently stands. Members felt by lowering the numbers from six Members to four Members would be to the detriment of the residents who live in the area particularly as there was no Community Council and the size of the proposed Electoral Ward areas. Members felt that the number of schools within the proposed areas would also suffer, as some schools could end up with no Councillor representation on their governing bodies.

A Member requested clarification relating to the maps of the Church Village area. The Member observed that properties within the Dyffryn Y Coed area are not depicted on the map contained with the Draft Proposals Report and sought clarification as to whether the number of the dwellings and electors within that area had been taken into consideration when preparing the report. Officers confirmed that this would be checked but it was understood they had been even though the OS map which was being used which did not show the development.

A Member raised the proposals relating to combining the existing Treforest and Graig Wards and whilst acknowledging certain parts of Treforest could transfer to the Graig Ward they should remain separate wards.

In respect of the proposed arrangements for the Mountain Ash Electoral Ward, a Member raised concerns about under representation and felt that it was a number

schools within the proposed areas would also suffer, as some schools could end up with no Councillor representation on their governing bodies.

Mountain Ash East and West

A Member of the Overview and Scrutiny Committee raised concerns about under representation and felt that it was a number crunching exercise and residents within the communities wished to retain the existing arrangements.

Treorchy

A Member of the Overview and Scrutiny Committee commented that Treorchy is a thriving area and the 'capital of Rhondda' and to reduce the ward to a two Member ward shows lack of knowledge.

Rhigos & Hirwaun

The Local Member for Rhigos submitted written representations at the meeting in relation to these wards as appended at Appendix 1(i) to the report.

LEGAL IMPLICATIONS

The Electoral Review is being conducted by the Commission under the provisions of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013.

CONSULTATION

The Commission is conducting a 12 week period of statutory consultation which runs from 26th June 2019 until 17th September 2019.

EQUALITY AND DIVERSITY IMPLICATIONS

A full equality and diversity assessment is not required at this time. This position will be re-evaluated on an ongoing basis as related actions are delivered.

CONCLUSION

Members are asked to note the Commission's Draft Proposals concerning its review of the Electoral Arrangements of the Council as detailed in their report and the timetable for conducting the remainder of the Commission's review.

Overview & Scrutiny Committee – 22.07.19

RE: Observations regarding the Boundary Review re Rhigos and Hirwaun proposals.

The current boundaries should be retained when you consider the land mass of the respective wards. The current measure only considers the electorate and is over simplified in this situation. While it is accepted that the electorate in Hirwaun Ward is over twice that in the Rhigos Ward the land area in Rhigos taking into the farming community, Hirwaun Industrial Estate and working areas such as Tower, amounts to eight or more times the size of Hirwaun. Taken together with the special qualities of the National Park there is a strong case for Rhigos Ward to remain at its' present boundary.

If it is a question simply of electorate then a natural boundary could be drawn to place a greater number of electors in the Rhigos boundary and fewer in the Hirwaun boundary although ,again, this should not be necessary given the substantive point above.

There is also an error in the map provided giving the name of the "Hirwaun" Community and electorate of 3,781. This is the Hirwaun & Penderyn Community and not the "Hirwaun Community" as it is represented by Hirwaun & Penderyn Community Council.

Should the proposed changes prevail then the name of the proposed new electoral division should include Penderyn e.g. Hirwaun & Rhigos/Penderyn. While I note there is a preference for a single name in the outlined principles the name that I propose is no more convoluted than, for example, the accepted/proposed Llantrisant Town and Talbot Green or Upper Rhydfelin and Glyntaff.

The name, Penderyn, should also be included in any proposed Welsh equivalent.

Regards,

Cllr Graham Thomas.

Rhigos/Penderyn Division.

RCTCBC

APPENDIX 1
Extract from the Overview & Scrutiny Committee Minutes – 22.07.19

crunching exercise and residents within the communities need to retain the existing arrangements.

In respect of the Treorchy proposal, a Member commented that Treorchy is a thriving area and the 'capital of Rhondda' and to reduce the ward to a two Member ward shows lack of knowledge.

In relation to Aberaman North and South a Member queried whether consideration has been given to the LDP when considering the proposal. The Member felt that the LDP forecast figures for 2023 electorate should have been taken into account, they continued by asking if the Boundary Commission could clarify what level of consideration they have given to this aspect when reflecting on their recommendations as this would increase the numbers within the Ward.

After further discussion Member's **RESOLVED:**

- To acknowledge the Commissions Draft Proposals Report in respect of the Council's future Electoral Arrangements, as outlined in their draft proposal

- That Members comments , observations and recommendations in respect of the Draft proposals will be taken into consideration before being presented to Full Council at its meeting in September 2019

2. Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn** ar 24 Gorffennaf 2019 i wrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno wardiau etholiadol Hirwaun a'r Rhigos. Dywed y Cyngor Cymuned bod Hirwaun a Phenderyn yn ddwy gymuned hollol ar wahân, gan fod Hirwaun yn gymuned drefol a Phenderyn yn un gwledig. Dywed y Cyngor Cymuned fod gan y ddau bentref anghenion gwahanol a bod y trefniadau presennol yn bodloni'r anghenion hynny'n dda. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn gwrthwynebu enw arfaethedig y ward, sef Hirwaun a'r Rhigos, ac yn cynnig Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos fel dewis amgen.
3. Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Llantrisant** ar 22 Gorffennaf 2019 i gynnig y dylid dyrannu cynghorydd ychwanegol i ward etholiadol arfaethedig Beddau a Thyn-y-Nant er mwyn ffurfio ward etholiadol â thri aelod i adlewyrchu'r datblygiad tai ehangedig yn yr ardal honno. Roedd y Cyngor Cymuned hefyd yn cynnig y dylid rhoi'r enw unigol Llantrisant i ward arfaethedig Tref Llantrisant a Thonysguboriau.
4. Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Ffynnon Taf a Nantgarw** ar 28 Awst 2019 i gynnig y dylid newid y ffin ar gyfer ward etholiadol Ffynnon Taf. Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnig cynnwys ardal hyd at y gylchfan yng Nglan-bad yn ward etholiadol Ffynnon Taf. Mae'r Cyngor Cymuned yn cynghori na fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar nifer yr etholwyr yn y ward.
5. Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Pont-y-clun** ar 12 Medi 2019 i ymateb i Gynigion Drafft y Comisiwn. Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi cynnig y Comisiwn i drosglwyddo Cymuned Tyle-garw i Bont-y-clun. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cymuned yn awgrymu enw amgen i'r ward, sef Pontyclun, gan ei fod yn teimlo bod y ffurf honno'n cael ei derbyn yn gyffredinol yn lleol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac felly nad oes angen y cysylltnodau.

Yna, mae'r Cyngor Cymuned yn cynnig adlinio ffin ward etholiadol bresennol Pont-y-clun â'r A473. Ni fyddai hyn yn effeithio ar unrhyw etholwyr ac mae llawer o'r preswylwyr yn credu mai dyma'r ffin ar hyn o bryd. Byddai'r newid hwn hefyd yn cydnabod bod Ysgol y Pant ym Mhont-y-clun. Mae'r Cyngor Cymuned o'r farn y byddai'r newid hwn yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffin gymunedol ac etholiadol.

Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn cynnig y dylid rhannu ward etholiadol bresennol Pont-y-clun yn dair ward ag aelodau unigol. Byddai ward arfaethedig 'Gorllewin Pont-y-clun' y Cyngor Cymuned yn cynnwys canol y dref, Tyle-garw, Maesyfelin, Brynsadler a Thalygarn. Byddai ward etholiadol arfaethedig 'Canol Pont-y-clun' y Cyngor Cymuned yn sefyll i'r dwyrain o'r rheilffordd ac yn cynnwys anheddau ger Ffordd Llantrisant, gan gynnwys Ynys Ddu ac anheddau ger Heol Miskin, gan gynnwys pentref Meisgyn. Byddai ward arfaethedig 'Dwyrain Pont-y-clun' y Cyngor Cymuned yn cynnwys yr holl anheddau sy'n cael eu cyrraedd ar hyd Ffordd Cefn yr Hendy ar un ochr i'r ffordd ddeuol, ynghyd ag ardal gyfan i'r dwyrain o'r A4119, gan gynnwys pentref Y Groes-faen. Mae'r rhan fwyaf o'r tir sydd â'r potensial i'w ddatblygu yng Nghymuned Pont-y-clun yn disgyn o fewn o ward etholiadol arfaethedig hon.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi darparu canlyniadau arolwg a gynhaliwyd yn lleol ar farn preswylwyr ynghylch cynnig y Comisiwn i drosglwyddo cymuned Tylegarw i Bont-y-clun. Cafwyd 54 o ymatebion i'r arolwg, lle'r oedd 42 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig a 12 yn anghytuno.

6. Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Llanharan** ar 16 Medi 2019 i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Llanharan a Brynna. Mae'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu creu ward etholiadol aml-aelod ar gyfer yr ardal ac mae o blaid cadw wardiau ag un aelod. Mae'r Cyngor Cymuned yn cynghori bod Llanharan yn cynnwys nifer o bentrefi ar wahân. Dywed y Cyngor Cymuned y sefydlwyd pob un o'r aneddiadau hyn ar adegau gwahanol ac, er eu bod yn rhan o'r un gymuned, mae'n bwysig y caiff eu nodweddion unigol eu cydnabod a'u cadw. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn rhestru nifer o broblemau posibl o ran cynnal ward etholiadol aml-aelod. Daw'r Cyngor Cymuned i'r casgliad y byddai preswylwyr yn cael eu cynrychioli'n well gan ward un-aelod ag ardal lai, oherwydd byddai eu cynghorydd yn hawdd ei (h)adnabod.
7. Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Llanhari** ar 16 Medi i grybwyll ei fod yn teimlo'n gryf iawn y byddai Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer Llanhari a Phont-y-clun, pe byddant yn llwyddiannus, yn peri dryswch i rhai preswylwyr. Dywed y Cyngor Cymuned nad oedd ei aelodau nhw nag aelodau Cyngor Cymuned Pont-y-clun yn gwybod bod yr Arolwg yn edrych a'r drefniadau etholiadol y cyngor fwrdeistref sirol yn unig. Mae gan y Cyngor Cymuned berthynas waith gytûn ac agos iawn â'r aelod ar gyfer ei ward bresennol, ac maent yn cydweithio â'i gilydd i gyflawni nodau cytûn. Ni allant weld y byddai hyn yn wir ar gyfer aelod ward Tyle-garw. Pe byddai cynigion y Comisiwn yn cael ei gymeradwyo, mae'r Cyngor Cymuned o'r farn y byddai gwrthdaro buddiannau ac y byddai'r aelod yn rhoi anghenion preswylwyr Pont-y-clun o flaen anghenion preswylwyr Tyle-garw.
8. Ysgrifennodd **Leanne Wood, Aelod Cynulliad** (Rhondda) ar 16 Medi i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer Rhondda. Mae'r AS dros y Rhondda yn ailadrodd ei sylwadau o'r cyfnod ymgynghori cychwynnol. Mae Ms Wood yn erfyn ar y Comisiwn i ailystyried ei gynigion. Mae Ms Wood hefyd yn holi a yw cynigion y Comisiwn i rannu ward â dau aelod (Pentre) i greu dwy ward ag aelodau unigol. Gwrthwynebodd yr AS y gostyngiad mewn nifer o aeloday yn cynrychioli ward etholiadol Treorci i greu sefyllfa lle mae'r ward wedi'i thangynrychioli 24%. Mae Ms Wood yn gofyn i'r Comisiwn ailystyried ei gynnig ar gyfer y ward hon a chadw'r trefniant presennol â thri aelod.
9. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Joel Stephen James** (Llanilltud Faerdref) ar 29 Awst 2019 i gefnogi cynigion y Comisiwn i gadw'r trefniadau presennol yn ward etholiadol Llanilltud Faerdref. Mae'r Cynghorydd James yn cefnogi cynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Pentre'r Eglwys, yn gyffredinol, yn enwedig y cynnydd mewn cynrychiolaeth ar gyfer Pentre'r Eglwys. Fodd bynnag, mae'r Cynghorydd James yn credu y gellid cyflawni hyn heb newid y ffiniau presennol, gan fod ganddo amheuan ynghylch p'un a fyddai preswylwyr sy'n byw yn yr ardal dan sylw yn Nhon-teg yn gefnogol ai peidio. Pe byddai'r Comisiwn yn argymhell symud ymlaen â'r Cynigion Drafft, byddai'r Cynghorydd James yn cefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Lewis Hooper yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

Mae'r Cynghorydd James hefyd yn cefnogi Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer Tref Llantrisant a Thonysguboriau, yn gyffredinol, ond mae'n gofyn pe byddai modd ystyried cynnwys Neuadd Glanelái yn y ward etholiadol. Mae Neuadd Glanelái yn ystâd gymharol newydd ar gyrion Tonysguboriau, ac mae'r Cynghorydd James yn amau bod mwyafrif y preswylwyr yn ystyried eu hunain yn breswylwyr Tonysguboriau yn hytrach na Llanharan, sydd cryn bellter i ffwrdd.

Mae'r Cynghorydd James yn cefnogi Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer Pont-y-clun ac o blaid cynnwys Tyle-garw yn ward etholiadol ddiwygiedig Pont-y-clun. Nid yw'r Cynghorydd James o blaid y cynnig i rannu'r ward yn dair ward ag aelodau unigol.

10. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Martin Fidler-Jones (Y Ddraenen Wen)** ar 1 Gorffennaf 2019 i wrthwynebu cynnig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Rhydfelen a'r Ddraenen Wen. Dywed y Cynghorydd Fidler-Jones nad yw cynigion y Comisiwn yn defnyddio unrhyw ffiniau naturiol a bydd yn amhosibl i'w ddisgrifio i breswylwyr. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys rhan o ward Cyngor Tref Rhydfelen, a fydd yn mynnu newid cymesur i ward bresennol y Cyngor Tref er mwyn ei hwyluso. Mae'r Cynghorydd Fidler-Jones yn pryderi bod y cynrychiolaethau cychwynnol gan breswylwyr yn yr ardal a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn, yn ymddengys bod ei safbwyntiau wedi'u hanwybyddu. Mae'r Cynghorydd Fidler-Jones hefyd yn awgrymu, pe byddai'r Comisiwn yn parhau â'i gynigion, y dylid newid enw ward etholiadol Y Ddraenen Wen i'r Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf er mwyn cydnabod y gyfran sylweddol o'r rhan isaf o gymuned Rhydfelen sydd wedi'i chynnwys yn y ward ddiwygiedig. Mae'r Cynghorydd Fidler-Jones yn cynnig y dylid symud y newidiadau i'r ffin a gynigiwyd ganddo yn y cyfnod cynrychiolaethau cychwynnol ymlaen fel dewis amgen i gynnig y Comisiwn.
11. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Roger Turner (Brynna)** ar 13 Medi 2019 i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Brynna a Llanharan. Mae'r Cynghorydd Turner yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i greu ward aml-aelod sy'n cynnwys Brynna, Llanilid a Llanharan. Mae'r Cynghorydd Turner yn teimlo, fel wardiau un-aelod, bod etholwyr yn gwybod yn glir pwy yw eu cynrychiolydd etholedig ac, o ganlyniad, gallant ddwyn yr unigolyn hwnnw i gyfrif. Yn yr un modd, gall cynghorydd mewn ward ag un aelod hyrwyddo ei gyflawniadau'n well, a fyddai'n anodd mewn ward aml-aelod. Mae'r Cynghorydd Turner hefyd yn deall bod y Comisiwn yn ffafrio cynrychiolaeth gan un aelod, lle bo hynny'n bosibl, ac mae'n hollol fodlon bod opsiwn dewisol y Cyngor, sef tair ward ag aelodau unigol, yn cydymffurfio â hynny. Ar ben hynny, dywed y Cynghorydd Turner fod ardaloedd Brynna a Llanilid yn weddol unigryw, ac mae'n teimlo y dylid rhoi ystyriaeth hefyd i natur a graddfa'r datblygiadau yn y ddau ward. Dywed y Cynghorydd Turner fod nifer yr etholwyr yn ward Brynna wedi aros yr un fath hefyd oherwydd embargo ar gysylltu unrhyw dai newydd â'r brif garthffos; fodd bynnag, mae'r Cynghorydd Turner wedi amlygu cyfle i drafod datblygu tua 242 o dai newydd ym Brynna. Mae'r Cynghorydd Turner yn cynghori bod gwaith i ddatblygu'r safle wedi dechrau eisoes. Mae'r Cynghorydd Turner yn hyderus y bydd dros hanner y 242 o dai wedi'u hadeiladu erbyn 2023, gyda'r gweddill i ddilyn wedi hynny. Mae'r datblygiad yn Llanilid yn cynnwys 125 o dai bob blwyddyn â chaniatâd

cynllunio ar gyfer cyfanswm o 1,850 o dai yn Nosbarth Pleidleisio Llanilid. Mae'r Cynghorydd Turner yn gobeithio bod y wybodaeth hon yn dangos pam y byddai cynrychiolaeth un aelod yn darparu'r trefniadau gorau ar gyfer yr ardal.

12. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Jill Bonetto** (Ffynnon Taf) ar 12 Medi 2019 i awgrymu y dylid newid ffin ward etholiadol Ffynnon Taf i Gylchfan Glan-bad, gan fod siâp rhyfedd y ffin bresennol yn peri dryswch, yn enwedig wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Ni fyddai'r newid hwn yn achosi unrhyw newid i nifer yr etholwyr yn y ddwy ward gan fod yr ardal yn ystâd ddiwydiannol.
13. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Lewis Hooper** (Ton-teg) ar 15 Medi 2019 i amlygu pwysigrwydd Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Pentre'r Eglwys a Thon-teg. Hysbysodd y Cynghorydd Hooper yn y cyfnod cynrychiolaethau cychwynnol ei bod yn hanfodol bod strydoedd Bryn Rhedyn, The Rise a sawl eiddo ar Church Road yn parhau'n rhan o Don-teg. Hoffai'r Cynghorydd bwysleisio pwysigrwydd y newidiadau hynny – sef defnyddio'r ffin naturiol a chadw'r tair stryd hynny yn ward Ton-teg.
14. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Darren Macey** (Ynys-hir) ar 15 Medi 2019 i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer ardal Rhondda Fach. Mae'r Cynghorydd Macey yn cydnabod bod problemau yn ymwneud â nifer y preswylwyr sy'n cael eu cynrychioli gan bob cynghorydd ar hyn o bryd, a bod yn niferoedd yn Ynys-hir ac Aberllechau ychydig uwchlaw'r nifer argymelledig, Y Maerdy ychydig islaw'r nifer argymelledig, a Glynrhedynog a Tylorstown ymhell islaw cymhareb gyfartalog y preswylwyr i gynghorwyr. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r hyn, mae'r Cynghorydd Macey yn cynnig y dylai Ynys-hir ac Aberllechau gael eu cynrychioli gan un cynghorydd, Tylorstown a Glynrhedynog gael eu cynrychioli gan dri chynghorydd, a'r Maerdy gael ei chynrychioli gan un cynghorydd. Dywed y Cynghorydd Macey fod ffiniau traddodiadol ei gymuned yn dechrau ac yn dod i ben ym Mhorth a Phont-y-gwaith, yn ôl eu trefn. Teimlai eu bod yn ffurfio eu cymuned eu hunain ac yn haeddu cynrychiolaeth.
15. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Margaret Griffiths** (Pont-y-clun) ar 15 Medi 2019 i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Pont-y-clun. Mae'r Cynghorydd Griffiths yn cefnogi'r gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun yn ystod y cyfnod cynrychiolaethau drafft i greu tair ward etholiadol ag aelodau unigol, sef Gorllewin Pont-y-clun, Canol Pont-y-clun a Dwyrain Pont-y-clun. Mae'r Cynghorydd Griffiths hefyd yn awgrymu'r enw unigol Pontyclun ar gyfer y ward, gan fod yr enw wedi hen ennill ei blwyf ymhlith cymunedau lleol o siaradwyr Cymraeg a Saesneg, fel ei gilydd.
16. Ysgrifennodd y **Cynghorwyr Shelley Rees-Owen a Maureen Weaver** (Pentre) ar 16 Medi 2019 i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Pentre. Nid yw'r Cynghorwyr o'r farn bod rhannu'r ward er lles i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac y byddai gwneud hynny'n niweidio'r gwaith caled a'r perthnasoedd a feithrinwyd dros y 8 blynedd diwethaf. Ni fyddai creu dwy ward ag aelodau unigol yn cyflawni gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol a byddai'n peryglu cysylltiadau cymunedol presennol. Dywed y Cynghorwyr fod llawer o fentrau lleol yn pontio'r ddwy gymuned, er enghraifft mae Clwb Pêl-droed Ton Pentre, Clwb Bechgyn a Merched Ton Gelli, eglwys lleol, y theatr, Swyddfa'r Post a grwpiau Hen Filwyr lleol yn dystiolaeth o glymau

cymunedol cry'. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu hefyd yn ymdrin â'r ward yn ei chyfanrwydd ac mae'r trefniadau'n gweithio'n dda i'r preswylwyr. Mae'r Cynghorwyr yn annog cadw ward etholiadol â dau aelod er mwyn galluogi i gymunedau Pentre a Thon Pentre gydfodoli a pharhau i adeiladu ar y berthynas a feithrinwyd eisoes.

17. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Robert Bevan** (Tylorstown) ar 16 Medi 2019 i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer ardal Rhondda Fach. Mae'r Cynghorydd Bevan yn cynghori y bu'n cynrychioli ward Tylorstown am 28 o flynyddoedd a'i fod wedi cael profiad o nifer o newidiadau cymdeithasol ac economaidd yn y pedwar pentref sy'n ffurfio'r ward. Dywed y Cynghorydd Bevan fod preswylwyr Tylorstown yn dibynnu'n fawr ar eu cyngor a'u cynghorwyr lleol am gymorth. Mae'r Cynghorydd Bevan yn teimlo bod hyn wedi dieithrio llawer o breswylwyr o fywyd bob dydd, gyda llawer ohonynt yn dewis peidio â chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd drwy beidio â chofrestru i bleidleisio neu beidio â phleidleisio pan fyddant wedi'u cofrestru. Mae'r Cynghorydd Bevan o'r farn y bydd y cynigion yn arwain at ddieithrio pellach. Mae'r Cynghorydd Bevan yn cynnig y dylai ward Tylorstown barhau'n ward unigol a gynrychiolir gan ddau gynghorydd. Mae'r Cynghorydd Bevan yn darparu'r ddau gyflwyniad (y mae'n eu cefnogi'n llwyr) a wnaed gan Blaid Lafur Ward Tylorstown, y mae'n ysgrifennydd ar ei chyfer. Mae cyflwyniad y Blaid Lafur yn manylu ar arolwg a gynhaliwyd yn lleol ymhlith preswylwyr Tylorstown, sy'n dangos yn glir nad oes unrhyw awydd gostwng nifer y cynghorwyr yn ward Tylorstown, na chyfuno ward Tylorstown ag Ynys-hir. Mae'r Blaid Lafur yn ailadrodd ei gyflwyniad blaenorol ac yn gofyn am beidio â gostwng nifer y cynghorwyr ar gyfer ward Tylorstown, a pheidio â chyfuno Tylorstown ag Ynys-hir.
18. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Eleri Griffiths** (Rhondda) ar 15 Medi 2019 i gefnogi Cynnig Drafft y Comisiwn i uno Cymuned Trehafod dan ward etholiadol y Cymer. Mae'r Cynghorydd Griffiths yn nodi bod yn well ganddi'r sillafiad 'Cymer', yn hytrach na'r sillafiad 'Cymmer', sy'n groes i gyngor Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Cynghorydd Griffiths yn gwrthwynebu Cynnig Drafft y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Rhondda ac mae'n anghytuno â throsglwyddo rhan o Faes-y-coed o ward Rhondda i ward Graig er mwyn bodloni ymarfer rhifiadol. Dywed y Cynghorydd Griffiths byddai cynnig amgen i gyfuno wardiau etholiadol Graig a Rhondda yn fwy rhesymegol; fodd bynnag, dywed y Cynghorydd Griffiths nad yw hyn yn ddelfrydol oherwydd natur wahanol iawn Graig a Maes-y-coed. Ar ben hynny, dywed y Cynghorydd Griffiths fod dau strwythur o sefydliadau sy'n arwyddocaol o ran dangos sut mae pobl yn uniaethu. Ceir PACT a chyfarfod gwarchod y gymdogaeth ar gyfer ardal Maes-y-coed a Phwllgwaun, cyfarfod PACT ar wahân ar gyfer Trehopcyn a rhan isaf Pant-y-graig-wen. Mae ymdrechion i gyfuno'r rhain yn y gorffennol wedi methu gan fod pobl yn uniaethu â chymunedau penodol. Hefyd, ceir ffin naturiol ar hyd gwaelod y cwm rhwng y Graig a Maes-y-coed, y byddai Cynigion Drafft y Comisiwn yn torri ar ei thraws. Mae'r Cynghorydd Griffiths hefyd o'r farn y dylai'r Comisiwn fod wedi anfon llythyr at bob aelwyd y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt er mwyn rhoi cyfle i bobl arfer eu hawl ddemocrataidd i fynegi barn.
19. Ysgrifennodd y **Cynghorydd Maureen Webber (Canol Rhydfelen)** ar 16 Medi 2019 i gefnogi Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer ardal Rhydfelen a'r

Ddraenen Wen. Mae'r Cynghorydd Webber yn cynghori bod aelodau etholedig lleol Cyngor Tref Pontypridd wedi cysylltu â hi ynghylch y newidiadau i'r ffin ar gyfer ward Canol Rhydfelen/Ilan. Dywed y Cynghorydd Webber fod yr aelodau etholedig yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig yn llwyr. Dywed y Cynghorydd Webber, eu bod wedi trafod y newidiadau, a'r farn gyffredin yw y byddai'n darparu cynrychiolaeth decach i breswylwyr. Mae'r Cynghorydd Webber hefyd yn cynghori y bu iddi achub ar y cyfle i siarad â phreswylwyr yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Grŵp Cymunedol Lleol ac, unwaith eto, mae pobl yn falch y caiff hunaniaeth Rhydfelen ei chydabod bellach fel ward etholiadol. Roedd llawer ohonynt yn teimlo nad yw'n alinio â'r Ddraenen Wen nac yn rhan ohoni.

20. Ysgrifennodd **Cynghorydd Tref Pontypridd, Jeffrey Baxter (Canol Rhydfelen)** ar 24 Gorffennaf 2019 i wrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno wardiau etholiadol Graig a Threfforest. Dywed y Cynghorydd Baxter fod y dadleuon a gyflwynwyd yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol yn ddisylwedd ac nad ydynt yn adlewyrchu realiti cymuned Trefforest. Mae gan ward Trefforest ei materion nodweddiadol ei hun, fel: tai amlfeddiannaeth, effaith y Brifysgol ar barcio, a chysylltiadau rhwng myfyrwyr a phreswylwyr parhaol. Mae'r Cynghorydd Baxter hefyd yn crybwyll hanes unigryw Trefforest fel y rhan hynaf o Bontypridd â'r farchnad gyntaf yn yr ardal, gan ei bod yn ganolfan i'r diwydiant platiau tun, yn ogystal â'r Brifysgol, sy'n dyddio'n ôl i 1913 fel Ysgol Cloddfeydd De Cymru.
21. Ysgrifennodd **Cynghorydd Cymuned Llanharan, Jeff Williams** ar 1 Gorffennaf 2019 i gefnogi cynigion y Comisiwn i gyfuno wardiau etholiadol Brynna a Llanharan i ffurfio ward etholiadol â thri aelod. Dywed y Cynghorydd Williams fod aelodau Cyngor Cymuned Llanharan yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn rhedeg siop gymunedol, sy'n rhannu ei henillion yn gyfartal rhwng ardaloedd Brynna, Bryn-cae, Llanharan ac Ynysmaerdy.
22. Ysgrifennodd **Mr Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru** ar 19 Gorffennaf 2019 i grybwyll ei fod wedi edrych ar y cynigion ac nad oes ganddi unrhyw wrthwynebiadau na sylwadau.
23. Ysgrifennodd **Plaid Cymru Rhondda** ar 17 Medi 2019 i wrthwynebu Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Treorci. Mae'r grŵp o'r farn y byddai colli un cynghorydd yn ward Treorci yn rhoi baich gormodol ar y ddau gynghorydd sy'n cynrychioli'r ardal honno. Mae'r grŵp hefyd o'r farn y dylid cadw'r trefniadau presennol ar gyfer Ynys-hir, ac y dylid gwneud newidiadau i wardiau Tylorstown a Glynrhedynog i gyflawni'r cymarebau dymunol o ran pleidleiswyr. Yn benodol, mae gan y grŵp bryderon ynghylch Cynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer ward Pentre. Nid yw'r grŵp o'r farn y byddai rhannu'r ward yn ddwy ward ag aelodau unigol yn cyflawni'r nodau a bennir gan y Comisiwn nac yn cael ei gefnogi'n gyffredinol yn y gymuned. Mae'r grŵp yn dyfynnu cau Ysgol Gynradd Pentre yn 2015, ac mae llawer o'r plant bellach yn mynychu Ysgol Fabanod Ton Pentre ac Ysgol Gynradd Ton Pentre, sy'n dangos yn glir bod preswylwyr yn y gymuned honno'n dueddol o chwilio am gyfleusterau a gwasanaethau yng nghymunedau Pentre a Thon Pentre cyn edrych y tu allan iddynt. Mae'r grŵp yn dyfynnu mentrau eraill, fel Clwb Pêl-droed Ton Pentre, Clwb Bechgyn a Merched Ton Gelli, eglwysi lleol, y theatr, Swyddfa'r Post a grwpiau Hen Filwyr lleol yn dystiolaeth o glymau cymunedol cry'. Mae Plaid

Cymru Rhondda yn gofyn am i'r trefniadau presennol o ddau aelod ar gyfer Pentre gael eu cadw.

24. Ysgrifennodd **Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf** ar 17 Medi 2019 i ymateb i Gynigion Drafft y Comisiwn. Mae'r Grŵp Llafur yn gwrthwynebu cynigion y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Rhondda, Graig a Threfforest. Er bod y grŵp yn cefnogi trosglwyddo Trehafod yn ei chyfanrwydd i ward Cymer, a throsglwyddo rhan o Faes-y-coed o ward Rhondda i ward Graig er mwyn gwella'r amrywiant etholiadol yn y ddwy ward hyn. Fodd bynnag, mae gan y Grŵp bryderon ynghylch cynnig y Comisiwn i gyfuno wardiau etholiadol Graig a Threfforest. Dywed y grŵp fod heriau ac ystyriaethau unigryw yn y ddwy ward, y teimlant nad yw'r Comisiwn wedi'u hystyried. Er enghraifft, mae'r ddwy Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer ward Graig ymhlith y 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig (Graig 1 yw'r 2il yn yr Awdurdod Lleol a'r 70ain yn y wlad) yng Nghymru o ran Diogelwch Cymunedol. Mae ardal isaf Graig wedi'i chwmpasu gan barth dim alcohol hefyd drwy Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus y Cyngor. I'r gwrthwyneb, mae gan ward Trefforest grynodiad uchel iawn o fyfyrwyr sydd, yn draddodiadol, yn golygu bod yr heriau y mae preswylwyr yn eu hwynebu o natur benodol ac unigryw. Dylid parchu'r gwahaniaeth rhwng natur y ddwy ward. Byddai cyfuno'r wardiau hyn yn creu trefniant annaturiol nad yw'n cynnig unrhyw fudd i breswylwyr nac etholwyr. Mae'r grŵp hefyd yn cynnig newid enw ward Rhondda i Gogledd Pontypridd, er mwyn osgoi unrhyw ddriswch ag etholaeth Rhondda a chryfhau'r ymdeimlad o hunaniaeth y mae gan breswylwyr â Phontypridd.

O ran cynigion y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Brynna a Llanharan, hoffai'r grŵp atgyfnerthu pwysigrwydd mabwysiadu'r opsiwn a ffefrir gan y Cyngor, sef creu tair ward etholiadol ag aelodau unigol ar gyfer Brynna, Llanharan a Llanilid. Mae'r grŵp yn dyfynnu'r twf disgwyliedig yn ward Llanilid fel rheswm i gefnogi wardiau un-aelod, er y bydd lefel yr amrywiant etholiadol islaw'r trothwy argymelledig i ddechrau.

Ynglun a argymhellion y Comisiwn dros ward etholiadol Pont-y-clun, mae'r grŵp yn ymwybodol fod heb ymweld â'r ward yn bersonol, mae'n anodd gweld sut y gallai hyn sy'n ymddangos yn un stad o dai gynnwys dwy gymuned wahanol; ond mae hyn yn adlewyrchu'r realiti ar lawr gwlad. Yn benodol, mae stad Cefn-yr-Hendy wedi'i gwahanu gan rwystr ffisegol sy'n rhedeg ar hyn y ffin rhwng yr "hen" a'r "newydd", sydd â mynediad i gerddwyr yn unig ar gael mewn dau fan ond nad oes unrhyw fynediad drwedd i gerbydau. Yn ei hanfod, er bod y stad yn rhannu un enw, dwy gymuned gyfagos ydynt mewn gwirionedd. O ystyried y gwahaniaethau daearyddol a demograffig amlwg yn y ward, byddai'r grŵp yn awgrymu'n barchus y dylid sefydlu tair ward ag aelodau unigol (a amlinellir isod), er mwyn adlewyrchu'r elfennau cymunedol unigryw hyn. Rhoddir coel bellach i'r cynnig hwn gan y ffaith y byddai pob un o'r wardiau arfaethedig yn disgyn o fewn y trothwy derbyniol, hyd yn oed ar sail nifer yr etholwyr yn 2018.

Gorllewin Pont-y-clun

Mae gan y ward arfaethedig hon ffin glir a ddarperir gan y rheilffordd. Byddai'n cynnwys canol y dref, Tyle-garw, Maes-y-felin, Brynsadler a Thalygarn. O ran

cynrychiolaeth, byddai'r ward hon yn disgyn o fewn y trothwy amrywiant +/- 0%-10%.

Canol Pont-y-clun

Byddai'r ward arfaethedig hon i'r dwyrain o'r rheilffordd. Byddai'n cynnwys yr eiddo ger Ffordd Llantrisant, gan gynnwys Ynys Ddu a'r tai ger Heol Miskin gan gynnwys pentref Meisgyn, yn ogystal â'r ffordd ger Heol y Coed a Heol Cefn yr Hendy. Byddai'r ward hon hefyd yn disgyn o fewn y trothwy amrywiant +/- 0%-10%.

Dwyrain Pont-y-clun

Byddai'r ward arfaethedig hon yn cynnwys yr anheddau sy'n cael eu cyrraedd ar hyd Ffordd Cefn yr Hendy ar un ochr i'r ffordd ddeuol, ynghyd â phentref Groes-faen. Mae'r rhan fwyaf o'r tir sydd â'r potensial i'w ddatblygu yng Nghymuned Pont-y-clun o fewn y ward etholiadol hon. Cydnabyddir y byddai'r ward hon, ar sail nifer yr etholwyr yn 2018, yn agos at yr amrywiant -25%; fodd bynnag, byddai'r datblygu sylweddol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr ardal (ac sydd wedi'i adlewyrchu yn y rhagolygon ar gyfer nifer yr etholwyr yn 2023) yn golygu y byddai dros 2,500 o etholwyr yn byw yn y ward, a fyddai'n rhoi'r amrywiant yn yr un dosbarth â'r ddwy ward etholiadol uchod.

Mae'r Grŵp Llafur yn gwrthwynebu cynigion y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol Hirwaun a'r Rhigos. Bydd y Comisiwn yn ymwybodol bod ward Y Rhigos yn weddol unigryw o gymharu â'r wardiau eraill yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n cynnwys nifer leiaf yr etholwyr ac mae hefyd yn cwmpasu'r ardal ddaearyddol fwyaf ac yn rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd, sy'n cyfrannu at y ward yn cael cyllid dan y Gronfa Datblygu Gwledig.

Felly, mae'r grŵp yn teimlo'n siomedig ar ol gweld bod y Comisiwn wedi anwybyddu'r ffactorau hyn, yn ôl pob tebyg, o blaid uno wardiau'r Rhigos a Hirwaun.

Er bod y grŵp yn cydnabod y byddai uno uniongyrchol rhwng adran etholiadol Tylorstown ac Ynys-hir yn creu'r canlyniad gorau o ran cynrychiolaeth etholiadol, hoffai amlygu'r ffactorau ehangach, y gellir dadlau eu bod yn bwysicach i'w hystyried yn yr achos hwn. Hoffem amlinellu y byddai'n well gennym gadw lefel bresennol y gynrychiolaeth yn Rhondda Fach, ond cydnabyddwn y byddai hynny'n drafferthus yn ôl canllawiau'r Comisiwn, ac y byddai hefyd yn golygu y byddai cymunedau sydd wedi profi lefelau uchel o dwf yn colli'r cyfle i gael eu cynrychioli. I'r perwyl hwnnw, cynnig amgen y grwp (fel yr amlinellir yn fanylach isod) fyddai cael un aelod yn llai yn ward Tylorstown a chadw ward Ynys-hir ar ei ffurf bresennol.

Mae'r Grŵp Llafur hefyd yn cynnig newid i ffin ward bresennol Ffynnon Taf â'r Ddraenen Wen. Hoffai'r Grŵp nodi'r anghysondeb yn y ffin rhwng Y Ddraenen Wen a Ffynnon Taf sy'n cwmpasu ardal Ystâd Ddiwydiannol Trefforest. Er mwyn datrys hyn, byddai'r Grŵp yn cynnig y dylid "tacluso'r" ffin rhwng y wardiau drwy ail-lunio'r llinell ar y goleuadau ger y gylchfan (atodir llun isod). Ni fyddai'r newid hwn yn effeithio ar unrhyw eiddo na phleidleiswyr, ond byddai'n darparu eglurder i fusnesau yn yr ardal.

25. Ysgrifennodd 22 o breswylwyr o Llanhari, Tyle-garw a Phont-y-clun yn ystod y cyfnod ymgynghori i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari ar ffurf ffurflen. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned.
26. Ysgrifennodd un o breswylwyr Tyle-garw yn ystod y cyfnod ymgynghori i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd y dylai Tyle-garw ("Monkey Island") barhau'n rhan o Llanhari. Pe byddai'n cael ei symud i Bont-y-clun, byddai pentref Tyle-garw yn mynd yn angof.
27. Ysgrifennodd un o breswylwyr Tyle-garw ar 27 Gorffennaf 2019 i gefnogi cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun ar gyfer cynrychiolaeth Cyngor Cymuned.
28. Ysgrifennodd un o breswylwyr Pont-y-clun ar 30 Gorffennaf 2019 i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd fod Tyle-garw yn gymuned fach nodedig sydd wedi'i gwahanu oddi wrth Bont-y-clun ym meddyliau'r preswylwyr. Mae'r preswlydd yn credu'n gryf y gallai golli'r unigoliaeth honno fel cymuned pe byddai'n cael ei chynnwys ym Mhont-y-clun.
29. Ysgrifennodd un o breswylwyr Llanhari ar 31 Gorffennaf 2019 i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd fod Llanhari a Thyle-garw wedi ymgysylltu â'i gilydd erioed a, phe byddai Tyle-garw yn ymuno â Phont-y-clun, byddai Llanhari yn cael ei hepgor unwaith eto.
30. Ysgrifennodd un o breswylwyr Tyle-garw ar 31 Gorffennaf 2019 i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd yr hoffai aros yng Nghyngor Cymuned Llanhari.
31. Ysgrifennodd un o breswylwyr Rhondda Cynon Taf ar 31 Gorffennaf 2019 i gynghori yr hoffai ef, ei wraig a'u merch gadw Tyle-garw gyda Llanhari.
32. Ysgrifennodd dau o breswylwyr Tyle-garw ar 30 Gorffennaf 2019 i gefnogi cynnig y Comisiwn i drosglwyddo Cymuned Tyle-garw i Gyngor Cymuned Pont-y-clun. Dywed y preswylwyr nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â Llanhari a'u bod wedi'u gwasanaethu'n wael gan y cyngor hwnnw dros y blynyddoedd oherwydd eu pellter oddi wrth Llanhari. Dywed y preswylwyr, o ran agosrwydd, bod Tyle-garw yn rhannu ffin â Phont-y-clun, bod y cod post lleol ym Mhont-y-clun, bod y plant lleol yn mynychu Ysgol Gynradd Pont-y-clun ac Ysgol Gyfun Y Pant, y mae'r ddwy ohonynt wedi'u lleoli ym Mhont-y-clun.

33. Ysgrifennodd dau o breswylwyr Llanhari ar 1 Awst 2019 i wrthwynebu cynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Dywed y preswylwyr y bu Llanhari yn hunangynhaliol ers degawdau ac, fel preswylwyr, yr hoffent i'w cyfran o'r dreth gyngor gynnal eu cysylltiad â'r pentref.
34. Ysgrifennodd un o breswylwyr Tyle-garw ar 29 Gorffennaf 2019 i fynegi cefnogaeth lawn i drosglwyddo Tyle-garw i Gyngor Cymuned Pont-y-clun.
35. Ysgrifennodd un o breswylwyr Tyle-garw ar 6 Awst 2019 i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd yr hoffai aros yn rhan annatod o Lanhari a pheidio â dod yn sbecyn bach yn unig ym Mhont-y-clun. Mae hanes yn dangos y bu gan Dyle-garw gysylltiadau â Llanhari erioed.
36. Ysgrifennodd un o breswylwyr Llanhari ar 6 Awst 2019 i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned.
37. Ysgrifennodd un o breswylwyr Llanhari ar 6 Awst 2019 i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd y bydd tynnu arian oddi wrth Lanhari yn cael effaith niweidiol ar y pentref a'i breswylwyr. Dywed fod Pont-y-clun yn bentref mwy o ran ei faint a'i gyfoeth, a bod ganddo fwy o siawns o ddod ag arian i mewn ar gyfer ei gymuned.
38. Ysgrifennodd un o breswylwyr Rhondda Cynon Taf ar 6 Awst 2019 i gefnogi cynigion y Comisiwn i drosglwyddo Cymuned Tyle-garw i Bont-y-clun ar ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd fod Tyle-garw yn rhan o Bont-y-clun. Nid yw'r preswlydd erioed wedi deall (mewn dros 20 mlynedd o fyw yno) ei bod yn gysylltiedig â Llanhari.
39. Ysgrifennodd un o breswylwyr Llanhari ar 7 Awst 2019 i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Dywed y preswlydd, pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo, y byddai Llanhari ar ei cholled yn fawr.
40. Ysgrifennodd un o breswylwyr Llanhari yn ystod y cyfnod ymgynghori i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Mae'r preswlydd yn gwrthwynebu cynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Dywed y preswlydd ei fod yn hanesydd lleol ar gyfer Llanhari, a chynghorodd y bu Tyle-garw yn perthyn i Lanhari ers oes y

Normaniaid cynnar, a byddai'n gas ganddo weld y cysylltiad hanesyddol hwnnw'n cael ei dorri.

41. Ysgrifennodd un o breswylwyr Rhondda Cynon Taf ar 11 Awst i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Mae'r preswlydd yn gwrthwynebu cynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Dywed y preswlydd fod Llanhari a Thyle-garw yn cefnogi ei gilydd yn dda iawn o ran trefnu digwyddiadau gwahanol ar gyfer y ddau bentref. Teimlai'r preswlydd fod Pont-y-clun yn ddigon mawr ar ei phen ei hun.
42. Ysgrifennodd dau o breswylwyr Pont-y-clun ar 13 Awst i gyflwyno llythyr o wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer ward etholiadol Llanhari. Mae'r llythyr yn gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i gyfuno Cymuned Tyle-garw â ward etholiadol Pont-y-clun at ddibenion cynrychiolaeth Cyngor Cymuned. Mae'r preswylwyr yn ddigon hapus yn ward Llanhari ac nid ydynt yn gweld unrhyw reswm i newid i Bont-y-clun.
